# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom** | **P Gareth Williams** |
| | Clerc y Pwyllgor |
| Dyddiad: Dydd Llun, 26 Medi 2022 | 0300 200 6565 |
| Amser: 11.30 | SeneddDCC@senedd.cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(11.30)

## 2 Offerynnau negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiadd arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B

(11.30 - 11.35) (Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**2.1 pNeg(6)003 - Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(11.35 - 11.40) (Tudalennau 2 - 5)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 2 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)236 - Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Arolygwyr Cymeradwy) (Cymru) 2022**

**3.2 SL(6)239 – Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 6 – 7)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 3 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 15 Gorffennaf 2022

**3.3 SL(6)240 – Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 8 – 9)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 4 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 15 Gorffennaf 2022

**3.4 SL(6)241 – Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 10 – 11)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 5 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 15 Gorffennaf 2022

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(11.40 - 11.55)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**4.1 SL(6)233 – Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 3) 2022**

(Tudalennau 12 – 18)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 6 – Adroddiad drafft

**4.2 SL(6)237 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 19 – 22)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 7 – Adroddiad drafft

LJC(6)-23-22 – Papur 8 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Llywydd, 7 Gorffennaf 2022

**4.3 SL(6)238 – Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 23 – 26)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 9 – Adroddiad drafft

**4.4 SL(6)243 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 27 – 37)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 10 – Adroddiad drafft

LJC(6)-23-22 – Papur 11 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Gorffennaf 2022

**4.5 SL(6)247 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022**

(Tudalennau 38 – 44)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 12 – Adroddiad drafft

LJC(6)-23-22 – Papur 13 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Awst 2022

**4.6 SL(6)256 – Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2022**

(Tudalennau 45 – 47)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 14 – Adroddiad drafft

**4.7 SL(6)257 – Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 48 – 50)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 15 – Adroddiad drafft

**4.8 SL(6)258 – Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022**

(Tudalennau 51 – 52)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 16 – Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**4.9 SL(6)242 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022**

(Tudalennau 53 – 60)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 17 – Adroddiad drafft

LJC(6)-23-22 – Papur 18 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 18 Gorffennaf 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 19 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Gorffennaf 2022

**Offerynnau Cyfansawdd y Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

**4.10 SL(6)244 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2022**

(Tudalennau 61 – 62)

Rheoliadau (Saesneg yn unig)

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 20 – Adroddiad drafft

## 5 Is-ddeddfwriaeth nad yw'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7

(11.55 – 12.00) (Tudalen 63)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 21 – Adroddiad drafft

**5.1 SL(6)234 – Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ar gyfer Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991**

**Dogfennau atodol:**

## 6 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

(12.00 – 12.05)

**6.1 SL(6)227 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 64 – 67)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 22 – Adroddiad

LJC(6)-23-22 – Papur 23 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**6.2 SL(6)229 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022**

(Tudalennau 68 – 79)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 24 – Adroddiad

LJC(6)-23-22 – Papur 25 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

(12.05 – 12.10)

**7.1 WS-30C(6)011 – Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022**

(Tudalennau 80 – 84)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 26 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, 15 Gorffennaf 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 27 – Sylwadau

## 8 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(12.10 – 12.25)

**8.1 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalennau 85 - 87)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 28 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Gorffennaf 2022

LJC(6)-23-22 - Papur 29 - Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Gorffennaf 2022

**8.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022**

(Tudalennau 88 - 89)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-22 - Papur 30 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 12 Gorffennaf 2022

**8.3 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Grŵp Rhyngweinidogol ar Berthnasoedd y DU-UE**

(Tudalennau 90 - 91)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 31 - Llythyr gan Weinidog yr Economi, 14 Gorffennaf 2022

LJC(6)-23-22 - Papur 32 - Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, 14 Gorffennaf 2022

**8.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 92 - 93)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 33 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 20 Gorffennaf 2022

**8.5 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd Cyngor Prydain-Iwerddon yn Guernsey**

(Tudalennau 94 - 96)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 34 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, 21 Gorffennaf 2022

LJC(6)-23-22 - Papur 35 - Llythyr gan y Prif Weinidog, 21 Gorffennaf 2022

**8.6 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

(Tudalennau 97 - 99)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 36 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 4 Awst 2022

**8.7 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Fforwm Masnach Gweinidogol**

(Tudalennau 100 - 102)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 37 - Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, 9 Awst 2022

LJC(6)-23-22 - Papur 38 - Llythyr gan Weinidog yr Economi, 8 Awst 2022

**8.8 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022**

(Tudalennau 103 - 107)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 39 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 19 Awst 2022

LJC(6)-23-22 - Papur 40 - Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Gorffennaf 2022

## 9 Papurau i'w nodi

(12.25 - 12.40)

**9.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Datganiad ar gynnydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**

(Tudalen 108)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 41 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 15 Gorffennaf 2022

**9.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**

(Tudalennau 109 - 110)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 42 – Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid, 18 Gorffennaf 2022

**9.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Ar-lein**

(Tudalennau 111 - 112)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 43 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Gorffennaf 2022

**9.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

(Tudalennau 113 - 114)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 44 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd, 27 Gorffennaf 2022

**9.5 Gohebiaeth gan Dr Robert Jones, Canolfan Llywodraethiant Cymru: Cynnig i gynnal ymchwiliad i anghymesuredd hiliol o fewn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru**

(Tudalennau 115 - 118)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 45 – Llythyr gan Dr Robert Jones, Canolfan Llywodraethiant Cymru, 28 Gorffennaf 2022 [Saesneg yn unig]

9.6 **Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael**

(Tudalen 119)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 46 – Llythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Awst 2022

9.7 **Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol: Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017**

(Tudalennau 120 – 124)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 47 – Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, 1 Awst 2022 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-22 – Papur 48 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Medi 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 49 – Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, 21 Gorffennaf 2022

9.8 **Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Adroddiad Gwerthusiad y Comisiwn Etholiadol o Gynlluniau Peilot Etholiadol Cymru**

(Tudalennau 125 – 127)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 50 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 2 Awst 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 51 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 2 Awst 2022

9.9 **Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Gwybodaeth yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, 20 Mehefin 2022**

(Tudalennau 128 – 145)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 52 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 4 Awst 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 53 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2022

**9.10 Gohebiaeth gan Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi: Ymchwiliad i berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol**

(Tudalen 146)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 54 – Llythyr gan Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, 23 Awst 2022 [Saesneg yn unig]

**9.11 Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau: Cysylltiadau rhynglywodraethol: cynigion ar gyfer Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig**

(Tudalennau 147 – 151)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 55 – Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, 31 Awst 2022 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-22 – Papur 56 – Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, 20 Gorffennaf 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 57 – Llythyr at y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, y Pwyllgor Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant, 20 Gorffennaf 2022

**9.12 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael**

(Tudalennau 152 – 162)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 58 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 59 – Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 28 Gorffennaf 2022

**9.13 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Mynediad at gyfiawnder: Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu**

(Tudalennau 163 – 171)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 60 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 5 Medi 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 61 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Gorffennaf 2022

**9.14 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Offerynnau Statudol sy'n Deillio o Ymadael â'r UE**

(Tudalennau 172 – 174)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 61 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 5 Medi 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 62 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Gorffennaf 2022

**9.15 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cytundebau rhynglywodraethol**

(Tudalennau 175 – 178)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 64 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 5 Medi 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 65 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Gorffennaf 2022

**9.16 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd: Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)**

(Tudalen 179)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 66 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd, 8 Medi 2022

**9.17 Gohebiaeth gan Bwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban: Effaith Brexit ar Ddatganoli**

(Tudalennau 180 – 181)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 67 – Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant, 22 Medi 2022 [Saesneg yn unig]

9.18 **Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Bil Hawliau**

(Tudalennau 182 - 183)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 68 - Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 22 Medi 2022

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 11 a 12 ac eitemau 14 i 20

(12.40)

## 11 Cytundebau rhyngwladol

(12.40 - 12.50) (Tudalennau 184 - 189)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 69 - Nodyn briffio

## 12 Adroddiad Monitro

(12.50 - 13.00) (Tudalennau 190 - 200)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 - Papur 70 - Adroddiad drafft

**Egwyl (13.00 - 13.30)**

## 13 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiwn y Gyfraith

(13.30 - 14.30) (Tudalennau 201 - 216)

Y Gwir Anrh. Arglwydd Ustus Green, Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith

Nicholas Paines CB, Comisiynydd y Gyfraith ar gyfer y Gyfraith yng Nghymru

Charles Mynors, y cyfreithiwr sy'n gyfrifol am y prosiect Cyfraith Cynllunio yng Nghymru

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Memorandwm Esboniadol: Atodiad A - Nodiadau Esboniadol

Memorandwm Esboniadol: Atodiad B1 – Tabl Gwreiddiau

Memorandwm Esboniadol: Atodiad B2 – Tabl Trawsleoli

Memorandwm Esboniadol: Atodiad C – Eglurhad o newidiadau a wnaed i ddarpariaethau presennol (Nodiadau Drafftwyr)

Memorandwm Esboniadol: Atodiad D – Gohebiaeth gan Gomisiwn y Gyfraith

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-22-22 – Papur 71 – Nodyn briffio

## 14 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru):Trafod y dystiolaeth

(14.30 – 14.45) (Tudalennau 217 – 232)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 72 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 17 Awst 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 73 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Gorffennaf 2022

## 15 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ysgolion

(14.45 – 14.55) (Tudalennau 233 – 240)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ysgolion

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 74 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-22 – Papur 75 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 19 Gorffennaf 2022

## 16 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar Fil Banc Seilwaith y DU

(14.55 – 15.05) (Tudalennau 241 – 250)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) – Bil Banc Seilwaith y DU

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 76 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-22 – Papur 77 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 22 Gorffennaf 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 78 – Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 8 Gorffennaf 2022

## 17 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Caffael

(15.05 – 15.25) (Tudalennau 251 – 267)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Caffael

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 79 – Nodyn cyngor cyfreithiol

## 18 Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020: Gwaharddiadau o ran gwasanaethau

(15.25 – 15.35) (Tudalennau 268 – 276)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 80 – Nodyn briffio [Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-22 – Papur 81 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 22 Awst 2022

LJC(6)-23-22 – Papur 82 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Her gyfreithiol i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, 18 Awst 2022

## 19 Adroddiad blynyddol

(15.35 – 16.05) (Tudalennau 277 – 321)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-22 – Papur 83 – Adroddiad drafft

## 20 Blaenraglen Waith

(16.05 – 16.15)

# Negyddol Arfaethedig Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

## 26 Medi 2022

## pNeg(6)003 - Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

### Gweithdrefn: Negyddol arfaethedig

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran gweithredadwyedd i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 a Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017.

Mae Llywodraeth Cymru yn esbonio yn ei Memorandwm Esboniadol fod y gwelliannau hyn yn *"ofynnol o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd"* a'u bod *"yn diwygio is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â marchnata hadau a deunyddiau plannu ffrwythau i gywiro diffygion o ran gweithredadwyedd na roddwyd cyfrif amdanynt mewn offerynnau diwygio cynharach."*

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018
**Bodlonwyd Gofynion y Sifft:** Ydyn

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 26 Medi 2022

## SL(6)236 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Arolygwyr Cymeradwy) (Cymru) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 gan ddileu'r cyfeiriadau at y gofyniad ar gyfer yswiriant o dan gynllun a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag arolygwyr cymeradwy.

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol ar adran 48 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022. Mae'r adran honno yn gwneud diddymiadau i Ddeddf Adeiladu 1984 mewn perthynas â gofynion yswiriant arolygwyr cymeradwy.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Diogelwch Adeiladau 2022
**Fe'u gwnaed ar:** 05 Gorffennaf 2022
**Fe'u gosodwyd ar:** 07 Gorffennaf 2022
**Yn dod i rym ar:** 28 Gorffennaf 2022

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 26 Medi 2022

## SL(6)239 – Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) (Diwygio) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig, a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'r diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Mae'r Rheoliadau yn rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob cyd-bwyllgor corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu cyd-bwyllgorau corfforedig yn effeithiol.

Y bwriad cyffredinol yw y bydd cyd-bwyllgorau corfforedig yn cael eu trin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' ac y byddant yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau neu bwerau tebyg i raddau helaeth ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol 2000
**Fe'u gwnaed ar:** 13 Gorffennaf 2022
**Fe'u gosodwyd ar:** 15 Gorffennaf 2022
**Yn dod i rym ar:** 05 Gorffennaf 2022

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 26 Medi 2022

## SL(6)240 – Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 1 o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol fel y'i nodir yn yr Atodlen i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 er mwyn ychwanegu cydbwyllgorau corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at y rhestr o awdurdodau perthnasol.

Effaith y diwygiad fyddai gwneud y Cod Ymddygiad Enghreifftiol gorfodol yn gymwys i aelodau cyd-bwyllgorau corfforedig. Mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn llywodraethu ymddygiad aelodau awdurdodau perthnasol yng Nghymru.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol 2000
**Fe'i wnaed ar:** 13 Gorffennaf 2022
**Fe'i osodwyd ar:** 15 Gorffennaf 2022
**Yn dod i rym ar:** 05 Awst 2022

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 26 Medi 2022

## SL(6)241 – Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) (Diwygio) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthygl 2 o Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 ("y Gorchymyn") er mwyn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at y rhestr o awdurdodau perthnasol, gan wneud yr egwyddorion yn yr Atodlen i'r Gorchymyn yn gymwys i aelodau cyd-bwyllgorau corfforedig.

Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn yn nodi'r egwyddorion sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau awdurdodau perthnasol yng Nghymru.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol 2000
**Fe'u gwnaed ar:** 13 Gorffennaf 2022
**Fe'u gosodwyd ar:** 15 Gorffennaf 2022
**Yn dod i rym ar:** 05 Awst 2022

Eitem 3.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rôl Cyd-bwyllgorau Corfforedig** |
| **DYDDIAD** | **15 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

Wrth i'r tymor ddod i ben, roeddwn i a'm cyd-Weinidogion am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y swyddogaethau pwysig y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd yn eu cyflawni.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel dull o gydweithredu'n rhanbarthol drwy fframwaith mwy cyson a democrataidd o ran ei reoli.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelodau am gymeradwyo Rheoliadau perthnasol yr wythnos hon. Y Rheoliadau hyn, ynghyd â llond llaw o fân Offerynnau Statudol ategol, yw'r darn terfynol o ddeddfwriaeth o sylwedd er mwyn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol i ddarparu ar gyfer y cyrff cyhoeddus pwysig hyn.

Mae pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi'u sefydlu ar sail yr ardaloedd daearyddol y gofynnodd awdurdodau lleol amdanynt, sy'n adlewyrchu trefniadau cydweithredu rhanbarthol sy'n bodoli eisoes. Rwyf o'r farn mai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw un o ddiwygiadau mwyaf arwyddocaol a strategol y Llywodraeth hon. Byddant yn galluogi ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau penodol a phwysig llywodraeth leol ar raddfa ranbarthol, pan fo'r dull hwnnw'n gwneud synnwyr.

Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'i gynllunio i sicrhau hyblygrwydd ac i alluogi disgresiwn yn lleol. I raddau helaeth, aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yn pennu'r ffordd y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau ac yn gweithredu. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i wahaniaethu rhwng ardaloedd daearyddol er mwyn diwallu anghenion penodol eu rhanbarth.

Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyfrifoldebau sylweddol ar unwaith a fydd yn cael effeithiau gwirioneddol ar awdurdodau lleol a'r bobl sy'n byw yn eu hardaloedd. O 30 Mehefin 2022, daeth Cyd-bwyllgorau Corfforedig o dan ddyletswyddau i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Bydd gwaith Cyd-bwyllgorau Corfforedig o lunio Cynlluniau Datblygu Strategol yn galluogi dull mwy cyson, costeffeithiol ac effeithlon o gynllunio. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol

yn sicrhau canlyniadau cynllunio mwy effeithiol i gymunedau, drwy sicrhau bod materion allweddol, datblygiadau a seilwaith cysylltiedig yn cael eu cynllunio mewn ffordd integredig a chynhwysfawr ar draws ardal ddaearyddol ehangach.

Bydd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi polisïau i ddarparu ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth diogel, integredig, effeithlon ac economaidd yn y rhanbarth. Rhaid i'r cynlluniau hyn ddiwallu anghenion pobl sy'n byw yn y rhanbarth, sy'n gweithio ynddo, sy'n ymweld ag ef, neu sy'n teithio drwyddo. Bydd angen hefyd i'r cynlluniau fod yn gyson â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Mae'r gwaith hwn o gynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn ehangach yn elfen allweddol o greu rhwydwaith bysiau cydgysylltiedig ac effeithiol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i weld a ddylid trosglwyddo swyddogaethau newydd arfaethedig ar gyfer cynllunio bysiau o awdurdodau lleol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig bŵer i wneud unrhyw beth i wella neu hyrwyddo llesiant economaidd eu hardal. Ein disgwyliad yw y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnwys trefniadau ar gyfer llywodraethu bargeinion dinesig a thwf ochr yn ochr â gwaith cynllunio strategol arall i'r rhanbarth.

Mae awdurdodau lleol yn cadw'r pwerau llesiant economaidd. Bydd cytundebau rhwng cynghorau lleol cyfansoddol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig ar y mathau o weithgarwch llesiant economaidd a fydd yn parhau ar lefel leol a'r hyn y byddai'n well i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ymgymryd ag ef er mwyn cyflawni eu dyheadau a'u huchelgeisiau rhanbarthol.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol i awdurdodau lleol gydweithio ar ddatblygu economaidd, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, sy'n tresmasu ar ein cyfrifoldebau datganoli ac nad yw'n darparu'r cyllid i gyd i gymryd lle cyllid yr UE. Mae ein *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*, a luniwyd ar y cyd â phartneriaid yng Nghymru a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), yn bolisi arweiniol o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru. Mae'n cynnwys defnyddio strwythurau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ddarparu cronfeydd yn lle cronfeydd buddsoddi rhanbarthol yr UE. Mae'r dull hwn o weithredu ledled Cymru ac yn rhanbarthol yn rhoi fframwaith strategol pwysig i gynorthwyo awdurdodau lleol yn eu gwaith ar gynlluniau buddsoddi rhanbarthol, er mwyn helpu i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf ac osgoi dyblygu ymdrechion a llywodraethu.

Gall dau neu ragor o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau ar y cyd (yn ddarostyngedig i unrhyw beth yn y rheoliadau neu mewn deddfwriaeth arall sy'n eu hatal rhag gwneud hynny). Mae hynny'n galluogi gwaith ar draws rhanbarthau, ond o fewn fframwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd prosiect yr OECD sy'n cefnogi llywodraethu rhanbarthol a buddsoddiadau cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys nodi meysydd penodol ar gyfer cydweithredu ar draws rhanbarthau yr hoffai'r gwahanol awdurdodau lleol eu cefnogi fel rhan o'u cynlluniau gweithredu rhanbarthol.

Byddaf yn cwrdd â phob un o’r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig i glywed am eu cynnydd ac i ddeall eu huchelgais ar gyfer cydweithredu rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn cefnogi’r gwaith parhaus o’u gweithredu.

Eitem 3.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rôl Cyd-bwyllgorau Corfforedig** |
| **DYDDIAD** | **15 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

Wrth i'r tymor ddod i ben, roeddwn i a'm cyd-Weinidogion am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y swyddogaethau pwysig y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd yn eu cyflawni.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel dull o gydweithredu'n rhanbarthol drwy fframwaith mwy cyson a democrataidd o ran ei reoli.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelodau am gymeradwyo Rheoliadau perthnasol yr wythnos hon. Y Rheoliadau hyn, ynghyd â llond llaw o fân Offerynnau Statudol ategol, yw'r darn terfynol o ddeddfwriaeth o sylwedd er mwyn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol i ddarparu ar gyfer y cyrff cyhoeddus pwysig hyn.

Mae pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi'u sefydlu ar sail yr ardaloedd daearyddol y gofynnodd awdurdodau lleol amdanynt, sy'n adlewyrchu trefniadau cydweithredu rhanbarthol sy'n bodoli eisoes. Rwyf o'r farn mai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw un o ddiwygiadau mwyaf arwyddocaol a strategol y Llywodraeth hon. Byddant yn galluogi ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau penodol a phwysig llywodraeth leol ar raddfa ranbarthol, pan fo'r dull hwnnw'n gwneud synnwyr.

Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'i gynllunio i sicrhau hyblygrwydd ac i alluogi disgresiwn yn lleol. I raddau helaeth, aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yn pennu'r ffordd y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau ac yn gweithredu. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i wahaniaethu rhwng ardaloedd daearyddol er mwyn diwallu anghenion penodol eu rhanbarth.

Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyfrifoldebau sylweddol ar unwaith a fydd yn cael effeithiau gwirioneddol ar awdurdodau lleol a'r bobl sy'n byw yn eu hardaloedd. O 30 Mehefin 2022, daeth Cyd-bwyllgorau Corfforedig o dan ddyletswyddau i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Bydd gwaith Cyd-bwyllgorau Corfforedig o lunio Cynlluniau Datblygu Strategol yn galluogi dull mwy cyson, costeffeithiol ac effeithlon o gynllunio. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol

yn sicrhau canlyniadau cynllunio mwy effeithiol i gymunedau, drwy sicrhau bod materion allweddol, datblygiadau a seilwaith cysylltiedig yn cael eu cynllunio mewn ffordd integredig a chynhwysfawr ar draws ardal ddaearyddol ehangach.

Bydd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi polisïau i ddarparu ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth diogel, integredig, effeithlon ac economaidd yn y rhanbarth. Rhaid i'r cynlluniau hyn ddiwallu anghenion pobl sy'n byw yn y rhanbarth, sy'n gweithio ynddo, sy'n ymweld ag ef, neu sy'n teithio drwyddo. Bydd angen hefyd i'r cynlluniau fod yn gyson â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Mae'r gwaith hwn o gynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn ehangach yn elfen allweddol o greu rhwydwaith bysiau cydgysylltiedig ac effeithiol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i weld a ddylid trosglwyddo swyddogaethau newydd arfaethedig ar gyfer cynllunio bysiau o awdurdodau lleol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig bŵer i wneud unrhyw beth i wella neu hyrwyddo llesiant economaidd eu hardal. Ein disgwyliad yw y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnwys trefniadau ar gyfer llywodraethu bargeinion dinesig a thwf ochr yn ochr â gwaith cynllunio strategol arall i'r rhanbarth.

Mae awdurdodau lleol yn cadw'r pwerau llesiant economaidd. Bydd cytundebau rhwng cynghorau lleol cyfansoddol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig ar y mathau o weithgarwch llesiant economaidd a fydd yn parhau ar lefel leol a'r hyn y byddai'n well i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ymgymryd ag ef er mwyn cyflawni eu dyheadau a'u huchelgeisiau rhanbarthol.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol i awdurdodau lleol gydweithio ar ddatblygu economaidd, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, sy'n tresmasu ar ein cyfrifoldebau datganoli ac nad yw'n darparu'r cyllid i gyd i gymryd lle cyllid yr UE. Mae ein *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*, a luniwyd ar y cyd â phartneriaid yng Nghymru a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), yn bolisi arweiniol o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru. Mae'n cynnwys defnyddio strwythurau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ddarparu cronfeydd yn lle cronfeydd buddsoddi rhanbarthol yr UE. Mae'r dull hwn o weithredu ledled Cymru ac yn rhanbarthol yn rhoi fframwaith strategol pwysig i gynorthwyo awdurdodau lleol yn eu gwaith ar gynlluniau buddsoddi rhanbarthol, er mwyn helpu i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf ac osgoi dyblygu ymdrechion a llywodraethu.

Gall dau neu ragor o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau ar y cyd (yn ddarostyngedig i unrhyw beth yn y rheoliadau neu mewn deddfwriaeth arall sy'n eu hatal rhag gwneud hynny). Mae hynny'n galluogi gwaith ar draws rhanbarthau, ond o fewn fframwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd prosiect yr OECD sy'n cefnogi llywodraethu rhanbarthol a buddsoddiadau cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys nodi meysydd penodol ar gyfer cydweithredu ar draws rhanbarthau yr hoffai'r gwahanol awdurdodau lleol eu cefnogi fel rhan o'u cynlluniau gweithredu rhanbarthol.

Byddaf yn cwrdd â phob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig i glywed am eu cynnydd ac i ddeall eu huchelgais ar gyfer cydweithredu rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o'u gweithredu.

Eitem 3.4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rôl Cyd-bwyllgorau Corfforedig** |
| **DYDDIAD** | **15 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

Wrth i'r tymor ddod i ben, roeddwn i a'm cyd-Weinidogion am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y swyddogaethau pwysig y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd yn eu cyflawni.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel dull o gydweithredu'n rhanbarthol drwy fframwaith mwy cyson a democrataidd o ran ei reoli.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelodau am gymeradwyo Rheoliadau perthnasol yr wythnos hon. Y Rheoliadau hyn, ynghyd â llond llaw o fân Offerynnau Statudol ategol, yw'r darn terfynol o ddeddfwriaeth o sylwedd er mwyn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol i ddarparu ar gyfer y cyrff cyhoeddus pwysig hyn.

Mae pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi'u sefydlu ar sail yr ardaloedd daearyddol y gofynnodd awdurdodau lleol amdanynt, sy'n adlewyrchu trefniadau cydweithredu rhanbarthol sy'n bodoli eisoes. Rwyf o'r farn mai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw un o ddiwygiadau mwyaf arwyddocaol a strategol y Llywodraeth hon. Byddant yn galluogi ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau penodol a phwysig llywodraeth leol ar raddfa ranbarthol, pan fo'r dull hwnnw'n gwneud synnwyr.

Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'i gynllunio i sicrhau hyblygrwydd ac i alluogi disgresiwn yn lleol. I raddau helaeth, aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yn pennu'r ffordd y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau ac yn gweithredu. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i wahaniaethu rhwng ardaloedd daearyddol er mwyn diwallu anghenion penodol eu rhanbarth.

Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyfrifoldebau sylweddol ar unwaith a fydd yn cael effeithiau gwirioneddol ar awdurdodau lleol a'r bobl sy'n byw yn eu hardaloedd. O 30 Mehefin 2022, daeth Cyd-bwyllgorau Corfforedig o dan ddyletswyddau i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Bydd gwaith Cyd-bwyllgorau Corfforedig o lunio Cynlluniau Datblygu Strategol yn galluogi dull mwy cyson, costeffeithiol ac effeithlon o gynllunio. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol

yn sicrhau canlyniadau cynllunio mwy effeithiol i gymunedau, drwy sicrhau bod materion allweddol, datblygiadau a seilwaith cysylltiedig yn cael eu cynllunio mewn ffordd integredig a chynhwysfawr ar draws ardal ddaearyddol ehangach.

Bydd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi polisïau i ddarparu ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth diogel, integredig, effeithlon ac economaidd yn y rhanbarth. Rhaid i'r cynlluniau hyn ddiwallu anghenion pobl sy'n byw yn y rhanbarth, sy'n gweithio ynddo, sy'n ymweld ag ef, neu sy'n teithio drwyddo. Bydd angen hefyd i'r cynlluniau fod yn gyson â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Mae'r gwaith hwn o gynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn ehangach yn elfen allweddol o greu rhwydwaith bysiau cydgysylltiedig ac effeithiol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i weld a ddylid trosglwyddo swyddogaethau newydd arfaethedig ar gyfer cynllunio bysiau o awdurdodau lleol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig bŵer i wneud unrhyw beth i wella neu hyrwyddo llesiant economaidd eu hardal. Ein disgwyliad yw y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnwys trefniadau ar gyfer llywodraethu bargeinion dinesig a thwf ochr yn ochr â gwaith cynllunio strategol arall i'r rhanbarth.

Mae awdurdodau lleol yn cadw'r pwerau llesiant economaidd. Bydd cytundebau rhwng cynghorau lleol cyfansoddol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig ar y mathau o weithgarwch llesiant economaidd a fydd yn parhau ar lefel leol a'r hyn y byddai'n well i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ymgymryd ag ef er mwyn cyflawni eu dyheadau a'u huchelgeisiau rhanbarthol.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol i awdurdodau lleol gydweithio ar ddatblygu economaidd, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, sy'n tresmasu ar ein cyfrifoldebau datganoli ac nad yw'n darparu'r cyllid i gyd i gymryd lle cyllid yr UE. Mae ein *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*, a luniwyd ar y cyd â phartneriaid yng Nghymru a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), yn bolisi arweiniol o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru. Mae'n cynnwys defnyddio strwythurau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ddarparu cronfeydd yn lle cronfeydd buddsoddi rhanbarthol yr UE. Mae'r dull hwn o weithredu ledled Cymru ac yn rhanbarthol yn rhoi fframwaith strategol pwysig i gynorthwyo awdurdodau lleol yn eu gwaith ar gynlluniau buddsoddi rhanbarthol, er mwyn helpu i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf ac osgoi dyblygu ymdrechion a llywodraethu.

Gall dau neu ragor o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau ar y cyd (yn ddarostyngedig i unrhyw beth yn y rheoliadau neu mewn deddfwriaeth arall sy'n eu hatal rhag gwneud hynny). Mae hynny'n galluogi gwaith ar draws rhanbarthau, ond o fewn fframwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd prosiect yr OECD sy'n cefnogi llywodraethu rhanbarthol a buddsoddiadau cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys nodi meysydd penodol ar gyfer cydweithredu ar draws rhanbarthau yr hoffai'r gwahanol awdurdodau lleol eu cefnogi fel rhan o'u cynlluniau gweithredu rhanbarthol.

Byddaf yn cwrdd â phob un o’r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig i glywed am eu cynnydd ac i ddeall eu huchelgais ar gyfer cydweithredu rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn cefnogi’r gwaith parhaus o’u gweithredu.

# SL(6)233 – Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 3) 2022

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 3) 2022 ("y Rheoliadau hyn") yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 74(1) a 75(1)(b) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021").

Mae Deddf 2021 yn gosod fframwaith deddfwriaethol ar gyfer fframwaith cwricwlwm ac asesu newydd a arweinir gan ddibenion ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed sy'n derbyn addysg mewn:

- ysgolion a gynhelir gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir;
- lleoliadau sy'n darparu addysg feithrin a ariennir nas cynhelir;
- Unedau Cyfeirio Disgyblion;
- lleoliadau nad ydynt yn Unedau Cyfeirio Disgyblion sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) a drefnir gan awdurdodau lleol.

Mae hefyd yn gwneud darpariaeth gyfyngedig ar gyfer addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir (Rhan 5 o Ddeddf 2021).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio is-ddeddfwriaeth i roi effaith llawn i ddarpariaethau o dan Ddeddf 2021 a gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru o 1 Medi 2022.

Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno i blant a disgyblion yn raddol. Daw'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn fandadol ar gyfer y grwpiau blwyddyn mewn ysgolion a lleoliadau eraill fel a ganlyn:

| ***Wedi'i gyflwyno'n raddol o:*** | ***Blwyddyn ysgol/dysgwyr sy'n dilyn y Cwricwlwm i Gymru*** | ***Blwyddyn ysgol/dysgwyr sy'n dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (a Lleol)*** |
|---|---|---|
| Medi 2022 | Meithrin, derbyn, blwyddyn 1 i flwyddyn 6 a blwyddyn 7 ar gyfer ysgolion/lleoliadau sydd wedi dewis gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru o 2022. | Blwyddyn 7 mewn ysgolion/lleoliadau sydd wedi dewis peidio â gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru o 2022; a blynyddoedd 8 i 11. |
| Medi 2023 | Pob blwyddyn hyd at flwyddyn 8 ac yn cynnwys y flwyddyn honno | Blynyddoedd 9 i 11 |

| | | |
|---|---|---|
| Medi 2024 | Pob blwyddyn hyd at flwyddyn 9 ac yn cynnwys y flwyddyn honno | Blynyddoedd 10 i 11 |
| Medi 2025 | Pob blwyddyn hyd at flwyddyn 10 ac yn cynnwys y flwyddyn honno | Blwyddyn 11 |
| Medi 2026 | Dysgwyr blynyddoedd meithrin a derbyn a dysgwyr o oedran ysgol gorfodol (blynyddoedd 1 i 11).<br>Mewn perthynas â Rhan 5 o Ddeddf 2021 - y dysgwyr hynny mewn ysgolion a gynhelir sydd mewn addysg ôl-16 (blynyddoedd 12 a 13). | Dim – ni fydd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn berthnasol mwyach. |

Mae’r Rheoliadau hyn yn bennaf yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Addysg 1996.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cychwyn y diwygiadau ar 1 Medi 2022 ac eithrio fel y nodir yn y rheoliadau unigol a restrir yn Rhan 2 a'r diffiniad o derminoleg a gynhwysir yn y darpariaethau.

Mae Rhan 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth arall. Er enghraifft, mae diwygiadau yn Rhan 2 yn diwygio terminoleg mewn rheoliadau fel bod eu darpariaethau'n cyd-fynd â Deddf 2021, gan gynnwys dileu cyfeiriadau at “Cwricwlwm Cenedlaethol” a’r “cyfnodau allweddol” a mewnosod cyfeiriadau at “cwricwlwm a fabwysiadwyd o dan Ddeddf 2021”. Mae hefyd yn dirymu is-ddeddfwriaeth nad yw'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Eithriadau) (Cymru) 1995.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiad i Reoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Darpariaeth Drosiannol ac Arbed) 2022.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud dau fân ddiwygiad i reoliad 2 o Reoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022 mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y rheoliadau hynny. Maent yn cywiro’r diffiniadau Cymraeg sy’n ymddangos yn nhestun Saesneg rheoliad 2, sef “Act 2021” a “head teacher”.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r

Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 19(2)(a), mae cyfeiriad at reoliad 2(a)(iii) yn Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016 sydd i'w hepgor. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes is-baragraff (iii) yn rheoliad 2(a) o'r Rheoliadau hynny, ac mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriad cywir fod at reoliad 2(a)(ii).

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 10(7)(a)(ii) yn mewnosod diffiniad newydd o "cyfnod allweddol" yn rheoliad 3 o Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 o 1 Medi 2024 ymlaen. Mae'r diffiniad newydd a roddir yn cyfeirio at adran 103(1) o Ddeddf Addysg 2002, ond mae adran 103 wedi'i diddymu gan baragraff 45 o Atodlen 2 i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ar 30 Ebrill 2021.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Wrth adolygu'r Rheoliadau hyn a'r diwygiadau y maent yn ceisio eu gweithredu, mae'r Pwyllgor yn nodi bod anghysondebau mewn sawl achos o ran cywerthedd y testun Cymraeg a'r testun Saesneg ac, yn ogystal â hynny, mae rhai o'r rhain hefyd yn cynnwys methu â chadw at y canllawiau drafftio fel y'u nodwyd yn *Drafftio Deddfau i Gymru*. Mae'r enghreifftiau yn y Rheoliadau yn cynnwys:

a. Yn rheoliad 7(5)(b)(i)(bb), nid yw ffurf y geiriau a ddefnyddir ar gyfer y diwygiad yn dilyn y confensiwn yn Drafftio Deddfau i Gymru 7.3(2). At hynny, nid oes unrhyw eiriau cyfatebol yn y testun Cymraeg ar gyfer "in its place" wrth nodi lle y dylid mewnosod y geiriau newydd. O'r herwydd, nid yw'n dilyn y bydd y testun newydd yn cael ei fewnosod yn yr un lle yn union â'r testun presennol sydd wedi'i hepgor, yn wahanol i ddiwygiad sy'n cael ei ddisgrifio fel amnewidiad. Hefyd, mae'r diwygiad yn 7(5)(b)(i)(cc) yn defnyddio dull gwahanol i'r hyn a ddefnyddir yn rheoliad 7(5)(b)(i)(bb) sydd yn union o'i flaen.

b. Yn rheoliad 8, yn y testun Cymraeg, mae'r cyfieithiad o'r teitl yn anghywir yng nghorff y rheoliad gan fod y gair sy'n cyfateb i "Education" ar goll.

c. Yn rheoliad 10(2), yn y testun Cymraeg, mae'r geiriau sy'n cyfateb i "In regulation 3," sy'n disgrifio'r lleoliad ble y dylid mewnosod y diffiniadau newydd, ar goll o'r cyfieithiad.

d. Yn rheoliad 11(2), yn y testun Cymraeg, mae'r diffiniad newydd o "lleoliad" ("setting") wedi'i rannu'n baragraffau (a) i (d). Fodd bynnag, gwnaed Rheoliadau 2009 pan ddefnyddid yr wyddor Gymraeg ar gyfer is-raniadauu'r cyfieithiadau. Felly, dylai paragraff terfynol y diffiniad newydd o "lleoliad", a fydd yn cael ei fewnosod yn y Rheoliadau hynny, gael ei restru fel "(ch)" yn hytrach na "(d)" i fod yn gyson ag arddull rifo'r offeryn gwreiddiol (gweler Drafftio Deddfau i Gymru 7.18(2)). Yn ogystal, dylid newid y cysylltair ar ôl paragraff (c) o "a" i "ac" o ganlyniad i'r newid hwnnw.

e. Yn rheoliad 11(2), yn y testun Cymraeg, rhoddir y cysylltair "ac" ar ôl y diffiniad olaf ond un yn y rhestr o ddiffiniadau sydd i'w mewnosod yn rheoliad 2 o Reoliadau 2009. Fodd bynnag, ni roddir y cysylltair "and" ar ôl y diffiniad olaf ond un yn y testun Saesneg.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn rheoliad 11(4), defnyddir y term "Rheoliadau 2009". Fodd bynnag, nid yw'r term hwn wedi'i ddiffinio yn flaenorol yn rheoliad 11(1) o'r Rheoliadau hyn (yn wahanol i fannau eraill wrth fabwysiadu'r dull hwn, er enghraifft rheoliadau 7(1) a (6), a 10(1) a (9)). Nid yw ychwaith wedi'i ddiffinio yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hyn nac, yn rhinwedd rheoliad 2(2), yn Neddf 2021.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Wrth adolygu'r Rheoliadau hyn a'r diwygiadau y maent yn ceisio eu gweithredu, mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru, mewn sawl achos, wedi cadw at ei chanllawiau drafftio ei hun, fel y'u nodir yn Drafftio Deddfau i Gymru. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gadw at ei safonau ei hun wrth ddrafftio deddfwriaeth. Ymhlith y prif enghreifftiau yn y Rheoliadau hyn mae:

a. Yn rheoliad 2(1), diffinnir "ysgol a gynhelir" at ddibenion y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, caiff y term hefyd ei ddiffinio, a rhoddir ystyr gwahanol iddo, yn rheoliadau 7(6), 10(9), 14(5) a 15(4) ar gyfer y rheoliadau penodol hynny. Byddai'n ddefnyddiol pe bai nodyn i gyd-fynd â'r diffiniad yn rheoliad 2(1) i rybuddio'r darllenydd ac o bosibl egluro ble mae'r diffiniad yn gymwys neu'n anghymwys (gweler Drafftio Deddfau i Gymru 4.8(5)).

b. Yn rheoliadau 9(3), 12, 15(3)(c) a (d), ceir cyfarwyddiadau i "ddirymu" darpariaethau penodol a geir o fewn rheoliadau perthnasol, ond mewn mannau eraill defnyddir y term "hepgor". Mae hyn yn cynnwys rheoliad 15(3)(a) ac (c) lle defnyddir cyfuniad o "hepgorer" a "dirymu" fel cyfarwyddiadau wrth ddirymu darpariaethau a geir o fewn yr un rheoliad. Gallai hyn fod yn ddryslyd i'r darllenydd, ac mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn hollol glir y dylid defnyddio "dirymu" dim ond wrth ddirymu'r rheoliad cyfan (megis yn rheoliadau 4 ac 8) ac y dylid defnyddio "hepgor" wrth ddirymu darpariaethau penodol o fewn y rheoliad, ond nid yr offeryn cyfan (gweler Drafftio Deddfau i Gymru 7.4(1) a (3)).

c. Yn rheoliad 6(2), nodir bod y diwygiad yn cael ei fewnosod "Yn rheoliad 2". Fodd bynnag, mae rheoliad 2 o Reoliadau 2002 yn cael ei is-rannu yn baragraffau ynghylch dehongli. Felly, nid yw'r disgrifiad o'r diwygiad yn ddigon manwl wrth ddisgrifio ble y dylid mewnosod y diffiniad newydd yn rheoliad 2 (gweler Drafftio Deddfau i Gymru 7.7(1)). Mae enghreifftiau diweddarach o ddiwygiadau tebyg yn y Rheoliadau hyn, fel y rhai a geir yn rheoliad 7(2) a (5)(a), 14(2) ac 20, yn rhoi disgrifiadau mwy manwl o ran diwygio rheoliad 2 sydd ag isadrannau, gan nodi "Yn rheoliad 2(1)…".

d. Yn rheoliad 7(2)(a), yn nhestun y ddwy iaith, nid yw'r diffiniad o "Hwb" wedi'i ddilyn gan y diffiniad cyfatebol a ddefnyddir yn yr iaith arall mewn cromfachau. Mae diffiniadau eraill a geir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2002 lle defnyddir yr un gair fel y diffiniad yn y ddwy iaith, fel "grant" a "mentor", wedi cynnwys y diffiniad cyfatebol mewn cromfachau i helpu'r darllenydd (Drafftio Deddfau i Gymru 4.15(6)).

e. Ceir achosion eraill o beidio â dilyn Drafftio Deddfau i Gymru drwy gydol y Rheoliadau hyn gan gynnwys rheoliad 7(5)(b)(iii)(aa).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno â'i gasgliad. Dylai'r cyfeiriad yn rheoliad 19(2)(a) gael ei newid o reoliad 2(a)(iii) i reoliad 2(a)(ii) yn y ddwy iaith. Bydd Rheoliadau 2022 yn cael eu diwygio i ymdrin â hyn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

**Pwynt Craffu Technegol 2:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ond yn anghytuno ag ef ac yn credu bod y diwygiad yn briodol. Diddymwyd adran 103(1) o Ddeddf Addysg 2002 gan baragraff 45 o Atodlen 2 i Ddeddf 2021, ond wedyn fe'i harbedwyd gan reoliad 3 o OS 2022/111 o dan amgylchiadau penodol. Mae hyn yn golygu nad yw diddymiad adran 103 wedi cymryd effaith yn yr achos hwn ac felly, mae'r amnewidiad a wneir gan Reoliadau 2022 yn ofynnol er mwyn cysoni Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 â diwygiadau eraill sy'n adlewyrchu'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

**Pwynt Craffu Technegol 3a:**

- Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ynghylch y ffurf ar eiriau ond nid yw'n bwriadu gwneud diwygiad. Mae'r ddarpariaeth a'r cyd-destun deddfwriaethol yn cefnogi dull gwahanol i'r Canllaw ac mae'r ffurf ar eiriau yn gweithio o ran y gyfraith.
- Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ar gystrawen y Gymraeg ond nid yw'n cytuno ag ef. Mae'r geiriau "ar ôl "cyrhaeddiad" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd" yn ei gwneud yn glir bod y testun i'w ddileu a bod angen mewnosod testun newydd yn ei le ar ôl "cyrhaeddiad".
- Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ar y dull a ddefnyddiwyd wrth wneud diwygiadau, ac mae o'r farn bod y cyd-destun deddfwriaethol a strwythur y frawddeg yn cefnogi'r dull hwn.

**Pwynt Craffu Technegol 3b:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno y dylai'r gair coll gael ei gynnwys yn enw Cymraeg yr OS. Bydd Rheoliadau 2022 yn cael eu diwygio i ymdrin â hyn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

**Pwynt Craffu Technegol 3c:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno y dylai'r testun "yn rheoliad 3" gael ei gynnwys yn nhestun Cymraeg rheoliad 10(2) ar ddechrau'r ddarpariaeth honno. Bydd Rheoliadau 2022 yn cael eu diwygio i adlewyrchu hyn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

**Pwynt Craffu Technegol 3d:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno y dylai'r wyddor Gymraeg gael ei defnyddio yn y diwygiad i is-raniadau'r diffiniad newydd o "lleoliad", er nad oes risg o gamddehongli'r gyfraith yn yr achos hwn. Bydd Rheoliadau 2022 yn cael eu diwygio i adlewyrchu hyn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

**Pwynt Craffu Technegol 3e:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno i ddiwygio Rheoliadau 2022 er mwyn ychwanegu cysylltair at reoliad 11(2) yn y testun Saesneg pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 4:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno ag ef. Bydd Rheoliadau 2022 yn cael eu diwygio pan fydd y cyfle nesaf yn codi fel bod rheoliad 11(1) yn cynnwys y geiriau "("Rheoliadau 2009")" a "("the 2009 Regulations")" ar ôl cyfeiriad y troednodyn at enw'r Rheoliadau yn y testunau Cymraeg a Saesneg.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 5a:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ar y diffiniad o "ysgol a gynhelir" ond nid yw'n bwriadu gwneud diwygiad gan ei bod yn credu bod y diffiniadau a ddarperir yn glir. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr awgrym o ran y gwaith drafftio yn y dyfodol.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 5b:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt ond nid yw'n bwriadu diwygio mewn perthynas â hyn gan fod yr effaith yn glir o ran y gyfraith.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 5c:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno y dylai'r cyfeiriad yn rheoliad 6(2) fod at reoliad 2(1) ac nid at reoliad 2. Bydd Rheoliadau 2022 yn cael eu diwygio i adlewyrchu hyn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 5d:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ond nid yw'n bwriadu gwneud diwygiad i gynnwys diffiniadau wedi eu hitaleiddio o'r un gair gan fod "Hwb" yn enw priod (system ar-lein) nad oes iddo enw mewn iaith wahanol ac nid oes modd ei gamddeall.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 5e:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ond nid yw'n bwriadu diwygio'r enghraifft a restrir gan fod yr arddull ddrafftio'n briodol ar gyfer y cyd-destun deddfwriaethol ac mae'r ddarpariaeth yn glir ac yn gweithio o ran y gyfraith.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Awst 2022**

# SL(6)237 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth cymorth presennol i fyfyrwyr er mwyn:

- gwneud personau y rhoddir caniatâd iddynt aros o dan Gynllun Wcráin, gan gynnwys y personau hynny y rhoddwyd caniatâd iddynt y tu allan i'r rheolau mewnfudo mewn cysylltiad ag ymosodiad Rwsia ar Wcráin, yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref, a'r cap ar ffioedd dysgu israddedig wrth ddechrau neu barhau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2022; a
- gwneud myfyrwyr sy'n ymgymryd â chwrs dysgu israddedig o bell yngymwys i wneud cais am Grantiau ar gyfer Dibynyddion.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y confensiwn 21 diwrnod yn cael ei dorri (h.y. y confensiwn y dylai fod 21 diwrnod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r confensiwn a ddarperir gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 7 Gorffennaf 2022.

Yn benodol, nodwn y rhan ganlynol yn y llythyr:

*"...bydd Rheoliadau 2022, fel y'u gosodwyd, yn dod i rym cyn i 21 diwrnod fynd heibio. Pe gedwir at y confensiwn o 21 diwrnod, byddai myfyrwyr Wcreinaidd yn wynebu oedi y gellid bod wedi'i osgoi wrth geisio cael gafael ar gymorth, a hynny'n groes i bolisi Llywodraeth Cymru, a byddai hynny yn eu rhoi o dan anfantais o gymharu â myfyrwyr eraill. Gallai gael effaith andwyol ar eu gallu i ddechrau cwrs addysg uwch yn y flwyddyn academaidd newydd. Byddai hyn yn arwain at sefyllfa anffodus o ofid, siom a niwed y gellid bod wedi'i osgoi i fyfyrwyr sydd eisoes yn dioddef trawma rhyfel*."

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Awst 2022**

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JMEWL/2077/22

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD,
CF99 1SN

7 Gorffennaf 2022

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ar 24 Gorffennaf 2022, lai na 21 diwrnod ar ôl cael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth i chi.

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Mae'r rheoliadau hyn yn sail ar gyfer y system cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig, ac yn nodi'r categorïau o bersonau sy'n gymwys i gael statws ffioedd cartref, yn awdurdodi rheolau cymhwystra mewn perthynas â dyfarniadau penodol sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant, ac yn nodi'r categorïau o bersonau sy'n gallu elwa ar ffioedd dysgu wedi'u capio.

Mae Rheoliadau 2022:

- gwneud personau y rhoddir caniatâd iddynt aros yn y DU gan Lywodraeth y DU o dan Atodiad Cynllun Wcráin y Rheolau Mewnfudo, a'r personau hynny y rhoddwyd caniatâd iddynt y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo mewn cysylltiad ag ymosodiad Rwsia ar Wcráin, yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref, a'r cap

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ar ffioedd dysgu israddedig wrth ddechrau neu barhau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2022; a

- gwneud myfyrwyr sy'n ymgymryd â chwrs dysgu israddedig o bell yn gymwys i wneud cais am Grantiau ar gyfer Dibynyddion.

Mae mynediad at gymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref, a'r cap ar ffioedd dysgu israddedigion yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru, fel Cenedl Noddfa, i gefnogi pobl sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin. Bydd y rhai sy'n gymwys o dan Gynllun Wcráin yn cael y cyfle i ymgymryd ag addysg uwch tra eu bod yn y DU, gan helpu i sicrhau eu lles ac ail-adeiladu eu bywyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol bod cymorth ar gael i'r rhai y mae'r rhyfel yn effeithio arnynt ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2022/23 ar 1 Awst, ac mae wedi bod yn gweithio'n gyflym gyda'i phartner cyflenwi (y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr) i sicrhau bod hyn yn digwydd. Cyhoeddais ddatganiad i'r perwyl hwn ar 25 Mai 2022. Yn anffodus, mae cyfyngiadau gweithredol sydd wedi dod i'r amlwg yn y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn golygu nad yw'n bosibl gwneud y diwygiadau hyn yn union mewn pryd ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ar 1 Awst. Yn hytrach, mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru newid y dyddiad dod i rym i 24 Gorffennaf 2022. Os na wneir y newid hwn, ni fyddai'n bosibl derbyn na phrosesu ceisiadau am gymorth tan ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd newydd.


Felly bydd Rheoliadau 2022, fel y'u gosodwyd, yn dod i rym cyn i 21 diwrnod fynd heibio. Pe gedwir at y confensiwn o 21 diwrnod, byddai myfyrwyr Wcreinaidd yn wynebu oedi y gellid bod wedi’i osgoi wrth geisio cael gafael ar gymorth, a hynny’n groes i bolisi Llywodraeth Cymru, a byddai hynny yn eu rhoi o dan anfantais o gymharu â myfyrwyr eraill. Gallai gael effaith andwyol ar eu gallu i ddechrau cwrs addysg uwch yn y flwyddyn academaidd newydd. Byddai hyn yn arwain at sefyllfa anffodus o ofid, siom a niwed y gellid bod wedi’i osgoi i fyfyrwyr sydd eisoes yn dioddef trawma rhyfel.

Mae Rheoliadau 2022 hefyd yn sicrhau bod dysgwyr o bell yn cael yr un cymorth â’r rhai sy'n astudio ar gyrsiau eraill. Gwneir y gwelliannau hyn er mwyn cyflawni ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i ehangu mynediad i ofal plant ymhlith y rhai mewn addysg.

Mae'r polisi’n ymwneud ag Wcráin wedi'i gadarnhau i randdeiliaid mewn Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru, yn ogystal â'r Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddais ym mis Mai. Bydd y polisi ar Grantiau ar gyfer Dibynyddion yn cael ei gadarnhau mewn Hysbysiad arall yn fuan iawn. Ni fydd peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn cael effaith andwyol arnyn nhw – yn wir, fe'u cynlluniwyd i gynorthwyo'r rhai y mae Rheoliadau 2022 yn darparu ar eu cyfer.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a’r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

# SL(6)238 – Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Yn ddarostyngedig i rai newidiadau ac un ddarpariaeth drosiannol, mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn darparu bod gweithwyr amaethyddol i gael eu cyflogi yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau sydd wedi eu nodi yn Rhannau 2 i 5 o'r Gorchymyn ac yn pennu'r graddau a'r categorïau gwahanol o weithiwr amaethyddol.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfraddau tâl isaf y mae rhaid eu talu i weithwyr amaethyddol. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer lwfans gwrthbwyso llety a all gael ei dynnu oddi ar dâl gweithiwr amaethyddol. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd ar gyfer lwfans cŵn, lwfans ar alwad, lwfans gwaith nos a grantiau geni a mabwysiadu nad ydynt yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol.

Mae Rhan 4 yn darparu bod gan weithiwr amaethyddol hawl i gael tâl salwch amaethyddol o dan yr amgylchiadau sydd wedi eu pennu. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ynghylch cyfrifo faint o dâl salwch amaethyddol y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael. Mae taliad tâl salwch statudol i gyfrif tuag at hawl gweithiwr amaethyddol i gael tâl salwch amaethyddol.

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael amser i ffwrdd. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael seibiannau gorffwys, gorffwys dyddiol a chyfnod gorffwys wythnosol. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd sy'n pennu blwyddyn gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol ac ynghylch hawl y gweithiwr amaethyddol i gael gwyliau blynyddol a thâl gwyliau ac ynghylch taliad yn lle gwyliau blynyddol. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb â thâl oherwydd profedigaeth.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(iv) - ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn**

Daeth y Gorchymyn hwn i rym ar 6 Awst 2022 ond cymerodd effaith o 1 Ebrill 2022; mewn geiriau eraill, cafodd effaith ôl-weithredol. Cafodd Gorchymyn blaenorol 2022 (h.y. Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022) effaith ôl-weithredol hefyd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "oherwydd oedi wrth wneud Gorchymyn cyntaf 2022, nid oedd modd gwneud y Gorchymyn hwn yn unol â'r amserlen flynyddol arferol".

Rydym yn nodi nad yw Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn darparu'n benodol y gall gorchmynion cyflogau amaethyddol gael effaith ôl-weithredol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru:

- pa faterion, os o gwbl, y mae ôl-weithredu'r Gorchymyn hwn wedi'u hachosi'n ymarferol i weithwyr amaethyddol a'u cyflogwyr, a pha annhegwch y mae'r ôl-weithredu wedi'i achosi?
- gadarnhau a oes unrhyw drefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau y bydd y Gorchymyn nesaf yn cael ei symud ymlaen mewn modd mwy amserol, heb fod angen iddo gael effaith ôl-weithredol?

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Erthygl 2(1) yn diffinio "fframwaith prentisiaethau" drwy gyfeirio at fframweithiau prentisiaethau sydd wedi'u cyhoeddi gan Lantra. Mae troednodyn yn rhoi linc i'r dudalen we a ganlyn: https://acwcerts.co.uk/web/frameworks-library. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y llyfrgell fframweithiau ar y dudalen we honno'n wag.

Mae hyn yn creu dryswch ynghylch ystyr term pwysig ("fframwaith prentisiaethau") a ddefnyddir yn y Gorchymyn. Mae hefyd yn gwneud y gyfraith yn anhygyrch.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro beth yw ystyr "fframwaith prentisiaethau" a sut y gall darllenwyr ddarganfod pa fframweithiau prentisiaeth ar gyfer y sector amaethyddol yng Nghymru sydd wedi'u cyhoeddi gan Lantra.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau hefyd y bydd dyddiad unrhyw fframwaith prentisiaethau yn glir, fel bod y Gorchymyn ond yn cynnwys y fframweithiau prentisiaeth sydd eisoes wedi'u cyhoeddi. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn atal y Gorchymyn rhag cynnwys fframweithiau prentisiaeth yn **y dyfodol** – mae'n hanfodol osgoi cynnwys fframweithiau prentisiaeth yn y dyfodol oherwydd bod yr hyn a geir yn y fframweithiau hynny'n anhysbys ar hyn o bryd a byddai eu cynnwys yn y Gorchymyn yn gyfystyr ag is-ddirprwyo pŵer i ddeddfu i Lantra.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Erthygl 10 yn dweud bod yn **rhaid** i weithiwr amaethyddol gadw tystiolaeth ddogfennol o gymwysterau a phrofiad a enillwyd ganddo sy'n berthnasol i'w gyflogaeth; a bod yn **rhaid** iddo roi gwybod i'w gyflogwr os yw wedi ennill cymwysterau a phrofiad sy'n ei alluogi i gael ei gyflogi ar radd wahanol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro sut y bydd y **ddyletswydd statudol** hon yn cael ei gorfodi?

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae erthyglau 29, 30 a 31 yn darparu ar gyfer seibiannau gorffwys, cyfnodau gorffwys dyddiol a chyfnodau gorffwys wythnosol. Mae'r erthyglau hyn yn cynnwys darpariaethau newydd sy'n berthnasol i weithwyr amaethyddol sydd o dan 18 oed.

Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi o gwbl bod asesiad o'r effaith ar hawliau plant wedi'i gynnal. O dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau, roi sylw dyledus i ofynion, ymhlith pethau eraill, Rhan I o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau ei bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd honno wrth wneud y Gorchymyn a beth, os o gwbl, oedd y prif faterion a godwyd fel rhan o'i hystyriaeth o'r Confensiwn?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Craffu Technegol**

**Pwynt 1: Rheol Sefydlog 21.2(iv) - ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw faterion nac annhegwch y mae cymhwyso'r Gorchymyn yn ôl-weithredol wedi eu hachosi'n ymarferol i weithwyr amaethyddol neu eu cyflogwyr.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Panel yn cytuno bod rhaid i Orchymyn 2023 gael ei wneud mewn modd amserol a heb effaith ôl-weithredol. Cafodd Gorchymyn (Rhif 2) 2022 ei wneud yn hwyrach na'r dyddiad dod i rym arferol, sef 1 Ebrill, oherwydd yr oedi yn gwneud Gorchymyn 2022. Ni ddisgwylir i'r oedi yn gwneud Gorchymyn (Rhif 2) 2022 achosi oedi yn gwneud Gorchymyn 2023.

Cynhelir cyfarfodydd nesaf y Panel ar 5 a 6 Medi 2022, pan gaiff Gorchymyn drafft 2023 ei negodi a'i gytuno cyn ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae swyddogion polisi wedi llunio amserlen yn nodi'r cerrig milltir allweddol a'r pethau allweddol i'w cyflawni er mwyn i'r Panel gytuno arnynt a fydd yn sicrhau bod Gorchymyn 2023 yn cael ei wneud erbyn 1 Ebrill 2023, fel y mae'r Panel yn ei fwriadu.

**Pwynt 2: Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi clicio ar y ddolen i'r llyfrgell fframweithiau ac mae yn gweithio. Mae'n amlwg o'r llyfrgell fframweithiau pa fframweithiau a gaiff eu cyhoeddi gan Lantra a dyddiad cyhoeddi pob un o'r fframweithiau hynny.

Y diffiniad o 'fframwaith prentisiaethau' yw "unrhyw un neu ragor o'r fframweithiau prentisiaethau cyfredol ar gyfer y sector amaethyddol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lantra, neu fersiynau blaenorol o'r fframweithiau prentisiaethau ar gyfer y sector amaethyddol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lantra". Ym marn Llywodraeth Cymru mae'r defnydd o'r gair 'cyfredol' yn ei gwneud yn glir mai'r fframweithiau prentisiaethau hynny sydd wedi cael eu cyhoeddi cyn y dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym a ystyrir.

**Pwynt 3: Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthygl 10 wedi cael ei chynnwys yn y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol ers 2016. Fe'i cynhwysir er mwyn sicrhau bod cyflogeion amaethyddol yn cadw tystiolaeth ddogfennol o'u cymwysterau a'u profiad fel bod modd iddynt ddangos i'w cyflogwr fod ganddynt y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol i'w cyflogi ar radd benodol. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cynnig gorfodi'r ddarpariaeth hon. Yn syml, os nad yw cyflogeion yn cydymffurfio ag erthygl 10 nac yn cadw tystiolaeth ddogfennol o'u cymwysterau a'u profiad, na fyddant o bosibl yn gallu dangos i'w cyflogwr fod ganddynt y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol i'w cyflogi ar radd benodol.

**Craffu ar Rinweddau**

**Pwynt 4: Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant mewn perthynas â'r Gorchymyn a chafodd ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Integredig. Ni roddwyd unrhyw sylw penodol i erthyglau 29, 30 na 31, gan fod yr erthyglau hyn yn adlewyrchu'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â seibiannau gorffwys a geir yn Rheoliadau Amser Gwaith 1998, ac sydd felly eisoes yn gymwys i gyflogeion amaethyddol yng Nghymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Awst 2022**

# SL(6)243 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) 2022

## Cefndir a diben

Pan ddaw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") i rym, bydd y rhan fwyaf o'r tenantiaethau presennol yn cael eu trosi'n gontractau meddiannaeth yn rhinwedd adran 240.

Ar hyn o bryd, pan nad yw tenantiaeth sicr neu fyrddaliadol sicr bresennol yn cynnwys cyfnod amrywio rhent, mae adran 13 o Ddeddf Tai 1988 ("Deddf 1988") yn caniatáu i'r landlord amrywio'r rhent drwy gyflwyno hysbysiad i'r tenant. Os yw'r tenant yn anfodlon ar yr hysbysiad amrywio, caiff wneud cais i bwyllgor asesu rhenti bennnu'r rhent ar gyfer yr annedd. Bydd y pwyllgor asesu rhent yn pennu'r rhent yn unol ag adran 14 o Ddeddf 1988, a hwn fydd y rhent ar gyfer yr annedd, oni bai bod y landlord a'r tenant yn cytuno fel arall.

Mae adrannau 104 a 123 o Ddeddf 2016 yn caniatáu i'r landlord, o dan gontract diogel neu gontract safonol cyfnodol yn y drefn honno, roi hysbysiad i ddeiliad y contract yn amrywio'r rhent. Nid yw Deddf 2016 yn cynnwys mecanwaith i ddeiliad y contract geisio penderfyniad ar rent gan bwyllgor asesu rhenti.

Mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") yn ceisio ailadrodd y darpariaethau presennol o dan adrannau 13 a 14 o Ddeddf 1988 mewn perthynas â chontractau perthnasol wedi eu trosi.

Mae contract meddiannaeth yn "gontract wedi ei drosi perthnasol" os oedd, yn union cyn i adran 239 o Ddeddf 2016 ddod i rym, yn denantiaeth yr oedd adran 13 o Ddeddf 1988 yn gymwys iddi. Bydd deiliad contract o dan gontract wedi ei drosi perthnasol yn parhau i fod â'r hawl i wneud cais i bwyllgor asesu rhenti am benderfyniad ar y rhent, yn dilyn hysbysiad amrywio rhent gan y landlord.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y naw pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod anghysondebau rhwng testunau Cymraeg a Saesneg y Rheoliadau.

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "gwelliant perthnasol", ym mharagraff (a), mae'r geiriau sy'n cyfateb i "of the Act" ar goll o'r testun Cymraeg.

Mae dau wall gramadegol yn rheoliad 6 o'r testun Cymraeg, sy'n creu dryswch o ran dehongli'r geiriau agoriadol cyn paragraff (a):

- Mae'r geiriau "gael ei osod" ("to be let") yn cynnwys ffurf wrywaidd y rhagenw "ei", gan achosi i "gosod" ("let") dreiglo'n feddal. Gan fod y rhagenw hwn yn cyfeirio'n ôl at "annedd" ("dwelling"), enw benywaidd yn y Gymraeg, dylai'r ymadrodd fod "gael ei *gosod*", oherwydd nid oes treiglad meddal ar ôl y ffurf fenywaidd ar "ei". Mae'r treiglad meddal yn dangos bod yr "ei" yn wrywaidd, sy'n creu dryswch ynghylch pa enw y mae'r rhagenw hwnnw'n ei ddisodli.
- Defnyddir y rhagenw benywaidd "hi" yn "ymwneud â hi" fel y cyfieithiad ar gyfer "relates" wrth gyfeirio'n ôl at "...yr un math o gontract wedi ei drosi perthnasol" ("...the same type of relevant converted contract"). Mae'r defnydd o'r ffurf wrywaidd "math" (yn hytrach na'r ffurf fenywaidd "yr un *fath*") yn awgrymu y dylid defnyddio'r rhagenw gwrywaidd ar gyfer "relates", fel ei fod yn darllen "ymwneud *ag ef*". Mae defnyddio'r rhagenw benywaidd felly yn peri dryswch ynghylch dehongliad y ddarpariaeth.

Yn y ffurf yn yr Atodlen, yng nghwestiwn a) o Ran 8, mae'r geiriau sy'n cyfateb i "or licence(s)" ac "or licence" ar goll o'r testun Cymraeg.

Atgoffir Llywodraeth Cymru bod gan destunau Cymraeg a Saesneg y Rheoliadau statws cyfartal, a bod yn rhaid cymryd gofal i sicrhau cysondeb.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 2 yn darparu bod i "contract wedi ei drosi perthnasol" yr ystyr a roddir gan baragraff 15(3) o Atodlen 12 i Ddeddf 2016, sydd fel a ganlyn:

> *Mae contract yn gontract wedi ei drosi perthnasol os oedd, yn union cyn y diwrnod penodedig, yn denantiaeth yr oedd adran 13 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50) (codiadau rhent o dan denantiaethau cyfnodol sicr) yn gymwys iddi.*

Mae rheoliad 2 wedyn yn diffinio "tenantiaeth neu drwydded flaenorol berthnasol" drwy gyfeirio at y diffiniad o "contract wedi ei drosi perthnasol", a "tenant neu drwyddedai perthnasol" drwy gyfeirio at y diffiniad o "tenantiaeth neu drwydded flaenorol berthnasol".

Mae cyfeiriadau eraill at "trwydded" a "trwyddedai" mewn diffiniadau eraill yn rheoliad 2, yn rheoliadau 6 ac 8 ac ar y ffurf ragnodedig yn yr Atodlen.

Dim ond os oedd yn flaenorol yn *denantiaeth* yr oedd adran 13 o Ddeddf 1988 yn gymwys iddi y mae contract wedi ei drosi yn "contract wedi ei drosi perthnasol". Mae'n aneglur felly sut y gallai *trwydded* sydd wedi ei throsi i gontract meddiannaeth gan Ddeddf 2016 byth fod yn gontract wedi ei drosi *perthnasol*.

Nid yw'r Nodyn Esboniadol na'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio o gwbl at y Rheoliadau sy'n gymwys mewn perthynas â thrwyddedau neu drwyddedeion.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio'r sail ar gyfer cynnwys y termau "trwydded" a "trwyddedai" drwy'r Rheoliadau ac ar y ffurf ragnodedig.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae'n ymddangos bod y diffiniad o "gwelliant perthnasol" yn rheoliad 2 yn seiliedig ar y diffiniad a nodir yn adran 14(3) o Ddeddf 1988 ("diffiniad Deddf 1988"). Mae diffiniad Deddf 1988 yn cyfeirio at welliant a wnaed yn ystod y denantiaeth. Mewn cyferbyniad, mae paragraff (a) o'r diffiniad yn rheoliad 2 yn cyfeirio at welliant "a wnaed mewn perthynas â'r contract wedi ei drosi perthnasol". Mae'r gwaith drafftio hwn yn awgrymu bod y gwelliant, o dan y Rheoliadau, i delerau'r contract, yn hytrach nag i'r annedd.

Gan fod y Rheoliadau'n ceisio parhau i gymhwyso adran 14 o Ddeddf 1988 i gontractau wedi eu trosi perthnasol, mae'n ymddangos bod gwaith drafftio paragraff (a) o'r diffiniad yn rheoliad 2 yn ddiffygiol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam y mae paragraff (a) o'r diffiniad yn y Rheoliadau yn wahanol i ddiffiniad Deddf 1988.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff (b) o'r diffiniad o "gwelliant perthnasol" yn rheoliad 2 yn aneglur.

Mae diffiniad Deddf 1988 yn darparu bod gwelliant perthnasol yn un a oedd naill ai:

- Wedi ei wneud yn ystod y denantiaeth y mae'r amrywiad rhent yn ymwneud â hi, neu
- Wedi ei wneud yn ystod tenantiaeth sicr neu denantiaeth fyrddaliadol sicr flaenorol o fewn y cyfnod o 21 mlynedd cyn dyddiad cyflwyno'r hysbysiad.

Nid yw'n ymddangos bod paragraff (b) o'r diffiniad yn rheoliad 2 yn cael yr un effaith â'r ail linyn o ddiffiniad Deddf 1988. Yn benodol, mae'r defnydd o'r term diffiniedig "[t]enantiaeth… flaenorol berthnasol" ym mharagraff (b)(ii) a (iii) o'r diffiniad yn rheoliad 2 yn peri dryswch. Dim ond os oedd yn bodoli cyn i adran 239 o Ddeddf 2016 ddod i rym <u>ac</u> os daeth yn gontract wedi ei drosi perthnasol pan ddaeth adran 239 i rym neu ar ôl hynny y caiff tenantiaeth flaenorol fod yn "tenantiaeth flaenorol berthnasol". Mae hyn yn golygu nad yw

gwelliannau a wnaed gan ddeiliad y contract yn ystod tenantiaethau blaenorol o fewn cwmpas paragraff (b), ond gallai'r rhain fod wedi bod o fewn cwmpas y rhan gyfatebol o ddiffiniad Deddf 1988.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam y mae'r diffiniad o "gwelliant perthnasol" yn rheoliad 2 yn wahanol i ddiffiniad Deddf 1988.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru hefyd egluro'r gwahaniaeth rhwng paragraffau (a) a (b) o'r diffiniad yn rheoliad 2. Mae'n ymddangos bod y paragraffau hyn yn cwmpasu'r un amgylchiadau, yn wahanol i ddiffiniad Deddf 1988 a oedd yn amlwg yn rhagweld dwy set o amgylchiadau ar wahân.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 6 yn nodi'r tybiaethau sydd i'w gwneud gan bwyllgor asesu rhenti wrth wneud penderfyniad ar rent ar gyfer annedd o dan gontract wedi ei drosi perthnasol. Mae dwy agwedd ar y rheoliad hwn yn aneglur:

- Mae'r geiriau cyn paragraff (a) yn cyfeirio at yr annedd sy'n cael ei gosod ar y farchnad agored "o dan yr un math o gontract wedi ei drosi perthnasol". Nid yw defnyddio'r term diffiniedig "contract wedi ei drosi perthnasol" yn gwneud synnwyr yn y cyd-destun hwn. Mae'n ymddangos mai'r hyn a olygir yma (ac ym mharagraff (a) ei hun) yw "contract meddiannaeth o'r un math â'r contract wedi ei drosi perthnasol".
- Mae paragraff (c) yn nodi tybiaeth yn ymwneud â gwelliannau perthnasol. Mae diffyg eglurder o ran yr hyn y caniateir ei gynnwys yn y dybiaeth hon, yn enwedig pan ddarllenir paragraff (c) ochr yn ochr â'r diffiniadau o "gwelliant perthnasol" a "tenant… perthnasol" yn rheoliad 2, a'r cwestiynau yn Rhan 8 o'r ffurf ragnodedig yn yr Atodlen.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro ei bwriadau mewn perthynas â'r tybiaethau hyn. Gofynnir i Lywodraeth Cymru hefyd a yw o'r farn bod gwaith drafftio rheoliad 6 yn ddigon clir i alluogi'r darllenydd i ddeall ystyr y ddeddfwriaeth.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 8(2) yn diwygio "rheoliad 2" o Reoliadau Pwyllgorau Asesu Rhenti (Cymru a Lloegr) 1971 ("Rheoliadau 1971"). Yn lle hynny, dylai gyfeirio at "rheoliad 2(2)", i nodi'n glir y paragraff o reoliad 2 sy'n cael ei ddiwygio.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 8(2)(b) yn mewnosod diffiniadau yn Rheoliadau 1971. Mae'r diffiniad a fewnosodir o denantiaeth neu drwydded flaenorol berthnasol fel a ganlyn:

> *"relevant preceding tenancy or licence" means a tenancy or licence which existed before the appointed day and which on or after the appointed day became a relevant converted contract;*

Fodd bynnag, nid yw'r diffiniad o'r diwrnod penodedig yn y cyd-destun hwn, a nodir yn adran 242 o Ddeddf 2016, wedi ei fewnosod yn Rheoliadau 1971.

**8. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 3(3) o Reoliadau 1971 yn ymwneud â rhoi hysbysiad o wrandawiad. Mae is-baragraffau (a) a (b) yn nodi'r gofynion mewn perthynas â dau amgylchiad penodol, ac mae is-baragraff (c) yn ddarpariaeth dal popeth sy'n gymwys "ym mhob achos arall".

Mae rheoliad 8(4) o'r Rheoliadau yn mewnosod y geiriau "relevant tenant or licensee, or relevant contract-holder" yn rheoliad 3(3)(c) o Reoliadau 1971. Mae hyn yn gwneud y ddarpariaeth dal popeth yn rhy gymhleth ac anodd ei deall.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru a ystyriodd, yn lle hynny, fewnosod darpariaeth rhwng is-baragraffau (b) ac (c) o reoliad 3(3), i sicrhau bod gofynion rhybudd Rheoliadau 1971 mewn perthynas â chontractau wedi eu trosi perthnasol yn glir.

**9. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 8(5)(a) yn honni ei fod yn disodli'r geiriau "assured tenancies or agricultural occupancies" yn rheoliad 5(1)(b) o Reoliadau 1971. Fodd bynnag, y geiriad presennol yn rheoliad 5(1)(b) yw "assured tenancies or *assured* agricultural occupancies" (pwyslais wedi ei ychwanegu). Mae'n anglur felly sut y gallai'r diwygiad fel y'i drafftiwyd ddod i rym.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**10. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau gweddol gymhleth a fydd o ddiddordeb i ddeiliaid contract sydd am herio hysbysiad amrywio rhent. Gofynnir i Lywodraeth Cymru a fydd canllawiau ar gael i helpu deiliaid contract i ddeall eu hawliau o dan y Rheoliadau.

Mae'r ffurf ragnodedig a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau yn gofyn am wybodaeth y mae'n amlwg ei bod yn hynod berthnasol i benderfyniad gan bwyllgor asesu rhenti. Fodd bynnag, mae'r ffurf yn cynnwys ychydig iawn o ganllawiau i ddeiliaid contract, a all gael trafferth ateb y cwestiynau'n ddigon manwl (er enghraifft, mewn ymateb i Ran 8, mae'n bosibl nad yw deiliad y contract yn ymwybodol o weithredoedd unrhyw gyn-denant arall). Gofynnir i Lywodraeth Cymru a fydd canllawiau i gyd-fynd â'r ffurf ragnodedig.

**11. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi'r esboniad a ganlyn:

> *O ystyried natur gul a thechnegol y rheoliadau hyn, y diben syml i gadw'r rheoliadau presennol, penderfynwyd nad oedd angen cynnal ymgynghoriad traddodiadol. Yn hytrach, rhannwyd yr Offeryn Statudol drafft â grŵp o randdeiliaid allweddol a chanddynt ddiddordeb yn y materion hyn, a chafodd eu safbwyntiau eu hystyried wrth lunio'r rheoliadau terfynol.*

Gofynnir i Lywodraeth Cymru a oedd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy ar y Rheoliadau drafft yn cynnwys cynrychiolwyr landlordiaid a thenantiaid.

**12. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mewn nifer o leoedd, nid yw'r Rheoliadau'n dilyn y canllawiau drafftio a nodir yn Drafftio Deddfau i Gymru. Er enghraifft:

- Yn rheoliad 2, yn y testun Cymraeg, nid yw rhai o'r diffiniadau yn y rhestr wedi'u trefnu'n gywir yn ôl yr wyddor Gymraeg (Drafftio Deddfau i Gymru 4.15(2)).
- Yn rheoliad 8(2)(a) ac (c) dylai ffurf y geiriau yn y testun Saesneg fod "for X substitute Y" yn lle "replace X with Y" (Drafftio Deddfau i Gymru 7.3(2)).
- Yn y troednodiadau, dylid cyfeirio at offerynnau statudol drwy ddyfynnu yn hytrach na theitl llawn (Drafftio Deddfau i Gymru 6.10(6) ac nid oes angen ailadrodd dyfyniadau mewn troednodiadau dilynol (Drafftio Deddfau i Gymru 6.10(2))).

Atgoffir Llywodraeth Cymru o'r angen i ddilyn canllawiau drafftio perthnasol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor am godi'r pwyntiau hyn a bydd yn gwneud y diwygiadau priodol cyn i'r Rheoliadau ddod i rym.

**Pwynt Craffu Technegol 2:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried pwynt craffu technegol 2 ac yn atgyfeirio'r Pwyllgor â pharch i baragraff 15(3) o Atodlen 12, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (Diwygio Atodlen 12) 2022/795, sy'n darparu:

(3) Mae contract wedi ei drosi yn gontract wedi ei drosi perthnasol—

(a) os oedd, yn union cyn y diwrnod penodedig, yn denantiaeth neu'n drwydded yr oedd adran 13 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50) (codiadau rhent o dan denantiaethau cyfnodol sicr) yn gymwys iddi.

Felly nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod diwygiad yn angenrheidiol i gyflawni'r effaith gyfreithiol a fwriedir.

**Pwynt Craffu Technegol 3:**

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor am godi'r pwynt hwn. Tra bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y drafftio presennol yn cyflawni'r effaith gyfreithiol gywir yn ddigonol, gwneir diwygiadau i egluro mai'r gwelliannau y cyfeirir atynt yw'r rheini a gyflawnir mewn perthynas â'r annedd sy'n destun y contract wedi ei drosi.

**Pwynt Craffu Technegol 4:**

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor am godi'r pwynt hwn a bydd yn gwneud y diwygiadau priodol cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Bydd y diwygiad yn cynnwys ail-weithio'r diffiniad o "gwelliant perthnasol" felly nid oes angen unrhyw eglurhad pellach mewn ymateb i'r pwynt hwn.

**Pwynt Craffu Technegol 5:**

Wrth ymateb i'r pwynt bwled cyntaf ym mhwynt craffu technegol 5 mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor am godi'r pwynt hwn a bydd yn gwneud diwygiadau priodol cyn i'r Rheoliadau ddod i rym i egluro ystyr y ddeddfwriaeth.

Mewn perthynas â'r ail bwynt bwled ym mhwynt craffu technegol 5, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod yr effaith a fwriedir yn glir, sef os nad yw unrhyw welliant yn cael ei gyflawni yn unol â rhwymedigaeth, neu pan fo rhwymedigaeth yn codi ond nid yw'n ymwneud â'r gwelliant penodol o dan sylw, yna mae'r gwelliant hwnnw yn cael ei ddisgowntio at ddibenion pennu rhent.

**Pwynt Craffu Technegol 6:**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried, yn ymarferol, fod y diwygiadau yn gweithio gan ei bod yn glir pa ddiwygiadau sydd eu hangen ar sail cyd-destun rheoliad 8 a'r cyfeiriad penodol at y darpariaethau yn rheoliad 2 o Reoliadau 1971 sydd angen eu diwygio, felly mae Llywodraeth Cymru yn ystyried nad oes angen unrhyw ddiwygiadau pellach.

**Pwynt Craffu Technegol 7:**

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor am godi'r pwynt hwn a bydd yn gwneud y diwygiadau priodol cyn i'r Rheoliadau ddod i rym.

**Pwynt Craffu Technegol 8:**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol mewnosod darpariaeth rhwng is-baragraffau (b) ac (c) o reoliad 3(3), er mwyn sicrhau bod gofynion hysbysu Rheoliadau 1971

mewn perthynas â chontractau wedi eu trosi perthnasol yn glir. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod y mewnosodiad fel y'i drafftiwyd yn or-gymhleth nac yn aneglur.

**Pwynt Craffu Technegol 9:**

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor am godi'r pwynt hwn a bydd yn gwneud y diwygiadau priodol cyn i'r Rheoliadau ddod i rym.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 10:**

Ar y cyfan mae'r ffurflen ragnodedig yn atgynhyrchu'r ffurflen bresennol a ddefnyddir gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl (TEP). Mae'r TEP yn darparu llyfryn canllaw i fynd gyda'r ffurflen hon a bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r TEP i wneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r llyfryn canllaw hwn.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 11:**

Oeddent, roedd rhanddeiliaid sy'n cynrychioli landlordiaid a thenantiaid yn rhan o'r grŵp ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl, Urdd Landlordiaid Preswyl, Shelter Cymru, Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid, Cyngor ar Bopeth ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Awst 2022**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016: rhagor o Is-ddeddfwriaeth** |
| **DYDDIAD** | **15 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Julie James, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Yn gynharach yr wythnos hon, cymeradwyodd y Senedd y darnau a ganlyn o is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn llawn, sef:

- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithasau Tai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022;***

- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022; a***

- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022.***

Dydd Llun, byddaf yn gosod ***Reoliadau Rhentu Cartrefi (Penderfynu ar Rent) (Contractau wedi'u Trosi) (Cymru) 2022*** (nad yw'n ofynnol iddynt gael cymeradwyaeth y Senedd mewn Cyfarfod Llawn).

Diben y rheoliadau hyn yw cadw hawl sydd ar gael ar hyn o bryd i denantiaid penodol sydd â thenantiaeth sicr neu fyrddaliadol sicr: sef y gallu i gyfeirio hysbysiad amrywio rhent oddi wrth eu landlord at Bwyllgor Asesu Rhenti i geisio penderfyniad ar rent.

Bydd y rheoliadau hyn yn darparu, pan fydd tenantiaethau presennol sy'n cynnwys darpariaeth o'r fath yn trosi'n gontractau meddiannaeth, y bydd yr hawl honno'n parhau, ac, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, y bydd Pwyllgor Asesu Rhenti yn gallu ystyried amrywiaeth o ffactorau i benderfynu beth, yn eu barn hwy, sy'n rhent priodol ar gyfer yr annedd. Fel sy'n wir am y trefniadau presennol, oni bai bod y landlord a'r tenant yn cytuno fel arall, y rhent a bennir gan y Pwyllgor Asesu Rhenti fydd y rhent sy'n daladwy o dan y contract.

Rwyf hefyd heddiw wedi ailosod fersiwn ddiwygiedig o ***Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022*** sy'n ystyried pwyntiau yn adroddiad Pwyllgor y Senedd ar Ddeddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ac sydd hefyd yn cynnwys diwygiad i Ddeddf Ynni 2011 a gafodd ei hepgor o'r fersiwn wreiddiol a

osodwyd ar 21 Mehefin 2022. Mae'r Offeryn Statudol hwn yn dod o dan weithdrefn gadarnhaol y Senedd, sy'n golygu y bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn cyn y gellir ei wneud. Mae dadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei threfnu cyn gynted â phosibl ar ôl toriad yr haf, a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig arall ar ôl i'r cyfarfod hwnnw gael ei gynnal er mwyn cadarnhau canlyniad y ddadl.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi heddiw – ar ffurf ddrafft – ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Throsiannol) 2022***.

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau arbed a throsiannol mewn perthynas â Deddf 2016. Mae diben y rheoliadau hyn fel a ganlyn:

- sicrhau, pan fo prosesau penodol sy'n ymwneud â thenantiaethau a thrwyddedau presennol (er enghraifft achosion meddiannu) eisoes wedi'u cychwyn ar y dyddiad y daw Deddf 2016 i rym, y ceir cwblhau'r prosesau hynny yn unol â darpariaethau'r fframwaith deddfwriaethol y cawsant eu cychwyn oddi tanynt;

- sicrhau bod hawliau penodol sy'n bodoli mewn mathau penodol o denantiaethau sydd eisoes yn bod (er enghraifft cais am welliant) yn cael eu cadw fel bod y partïon i'r tenantiaethau hynny sydd eisoes yn bod yn cael eu trin yn deg pan fydd eu tenantiaeth yn cael ei throsi'n gontract meddiannaeth, gan daro'r cydbwysedd cywir mewn perthynas â hawliau a rhwymedigaethau'r ddau barti;

- cadarnhau na fydd darpariaethau penodol sy'n ymwneud â llety dros dro yn gymwys tan 12 mis ar ôl i Ddeddf 2016 ddod i rym.

Er nad oes angen i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau hyn yn y Cyfarfod Llawn, maent yn cael eu cyhoeddi ar ffurf ddrafft heddiw fel eu bod ar gael i randdeiliaid mewn da bryd cyn y dyddiad dod i rym ar 1 Rhagfyr. Ni fyddant yn cael eu gwneud ar eu ffurf derfynol tan yr hydref oherwydd y bydd y fersiynau terfynol yn cynnwys cyfeiriadau at y ddau Offeryn Statudol sy'n ymdrin â Diwygiadau Canlyniadol, nad ydynt wedi cael eu gwneud eto: ni ragwelir unrhyw newidiadau eraill i'r rheoliadau hyn. Unwaith eto, byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig arall pan fydd yr OS hwn wedi cael ei wneud yn ffurfiol yn yr hydref.

Ym mis Awst, byddaf yn gwneud ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022***. Maent yn dod o dan weithdrefn negyddol y Senedd, sy'n golygu nad oes yn rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn. Unwaith eto, bydd datganiad ysgrifenedig arall yn cael ei gyhoeddi i roi gwybod i'r aelodau pan fydd y rheoliadau hynny wedi'u gwneud.

Yn olaf, byddaf hefyd, gyda hyn, yn gwneud y ddau Orchymyn Cychwyn sydd eu hangen er mwyn dod â darpariaethau Deddf 2016 i lawn rym ar 1 Rhagfyr 2022. Unwaith eto, byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig arall i roi gwybod i'r Aelodau pan fydd y Gorchmynion hynny wedi'u gwneud.

Mae'r holl offerynnau statudol a wnaed yr wythnos hon i'w gweld yma.

Mae canllawiau, ac adnoddau eraill i landlordiaid a thenantiaid ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) ac is-ddeddfwriaeth i'w gweld drwy wefan Rhentu Cartrefi Cymru:
Mae cyfraith tai yn newid: Rhentu Cartrefi Cymru | LLYW.CYMRU

Eitem 4.5

# SL(6)247 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022 ("y Rheoliadau") yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Yn gyffredinol, mae'r diwygiadau hyn naill ai:

(a) yn sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol mewn deddfwriaeth sylfaenol yn parhau i gael effaith briodol drwy gyfeirio at y contractau meddiannaeth perthnasol ochr yn ochr â chyfeiriadau at fathau presennol o denantiaethau, neu drwy gynnwys y derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 2016; neu

(b) lle bwriedir i ddarpariaethau Deddf 2016 ddisodli elfennau o'r gyfraith bresennol neu mae'r gyfraith bresennol yn anghydnaws â'r hyn a nodir yn Neddf 2016, drwy ddatgymhwyso'r gyfraith honno.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi bod y diwygiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn gweithredu Deddf 2016, darparu cydlyniad, eglurder a sicrhau cysondeb o ran y gyfraith.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y chwe phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau, yn Atodlen 1, ym mhennawd paragraff 3, mae'r gair "Rheoliadau" ar goll o'r cyfieithiad o enw'r offeryn statudol, er ei fod yn gywir yn y paragraff ei hun.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 17(b)(iii)(aa) a (bb), mae'r disgrifiadau'n gamarweiniol drwy ddechrau â'r geiriau "ym mharagraff (a), yn y diffiniad o [X]." Mae'r drafftio yn awgrymu bod y ddau ddiffiniad yn ymddangos "ym mharagraff (a)" sy'n is-adran o "baragraff 4(1)" (h.y. "paragraff 4(1)(a)").

Fodd bynnag, mae mwy nag un paragraff (a) ym mharagraff 4(1) gan fod pob diffiniad yn cynnwys "paragraff (a)". Felly, dylid drafftio'r geiriau mewn trefn wahanol, "yn y diffiniad o X, ym mharagraff (a)".

Mae'r un mater yn codi ym mharagraff 17(b)(ix)(aa) a (bb), ac 17(b)(xvii)(aa) a (bb).

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn Atodlen 1, ym mharagraffau 19(b)(ii) a (iii) mae'r testun yn darparu y dylai'r testun a fewnosodwyd fod "...ar ôl "assured **monthly** periodic tenancy"...".

Ond nid yw'r gair "monthly" yn ymddangos yn rheoliad 3(d) ac (e) o Reoliadau 1997, dim ond "assured periodic tenancy".

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 19(c)(iv)(ii), dywed y disgrifiad "yn y geiriau o flaen paragraff (a)". Ond mae mwy nag un "paragraff (a)" yn Nodyn 3, felly dylid disgrifio'r disgrifiad mewn modd mwy penodol, fel y gwneir mewn man arall ym mharagraff 19(c)(iv)(jj) a pharagraffau eraill sy'n defnyddio'r geiriau "paragraff cyntaf" bob tro os oes mwy nag un paragraff (a) neu (b) yn y Nodyn.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 20(a), cyfeirir at leoliad y diwygiad fel "**paragraff** (a)", fodd bynnag "**is-baragraff** (a)" sy'n gywir. Mae paragraff 20(b), yn cyfeirio'n gywir at "is-baragraff (b)" sy'n dangos anghysondeb yma.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 21(a), yn y ddwy iaith, dylid cynnwys y diffiniad cyfatebol mewn cromfachau ar ôl y diffiniad newydd "contract diogel", fel sy'n ofynnol gan y canllawiau ym mharagraff 4.15(6) yn Drafftio deddfau i Gymru.

Yn ail, yn Rheoliadau 2003 yr iaith Saesneg, mae'r gair "and" yn ymddangos ar ôl y diffiniad olaf ond un, "the Common Travel Area". Os mewnosodir y diffiniad newydd "secure contract" "yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor" bydd yn ymddangos ar ddiwedd y rhestr bresennol o

ddiffiniadau. Felly mae angen darpariaeth arall i ddileu'r gair "and" yn y testun Saesneg, ac mae angen atalnod llawn yn lle hanner colon ar ddiwedd y diffiniad o "secure contract".

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am godi'r pwynt hwn a bydd yn gwneud y diwygiad priodol cyn y daw'r Rheoliadau i rym.

**Pwynt Craffu Technegol 2:**

**Ymateb**

Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod y disgrifiadau yn gamarweiniol. Gan fod y diffiniadau perthnasol wedi'u cyfeirio'n briodol, mae'n amlwg lle y mae angen gwneud y diwygiadau. Yn ein barn ni, mae'r diwygiad yn cyflawni'r effaith gyfreithiol angenrheidiol felly nid oes angen diwygio.

**Pwynt Craffu Technegol 3:**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am godi'r pwynt hwn a bydd yn gwneud y diwygiad priodol cyn y daw'r Rheoliadau i rym.

**Pwynt Craffu Technegol 4:**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gellid bod wedi defnyddio'r geiriau "paragraff cyntaf" er cysondeb. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod paragraff 19(c)(iv)(ii) o Atodlen 1 yn glir fel y mae wedi'i ddrafftio. Er bod ail baragraff (a) yn Nodyn 3, dim ond yn y geiriau o flaen y paragraff (a) cyntaf y mae'r geiriau "assured monthly periodic tenancy" yn ymddangos felly ni fyddai amheuaeth o ran lle y mae angen gwneud y mewnosodiad. Yn ein barn ni, nid oes angen diwygiad.

**Pwynt Craffu Technegol 5:**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn glir lle y mae angen gwneud y diwygiad. Fodd bynnag, er mwyn gwella cysondeb, bydd y diwygiad priodol yn cael ei wneud cyn y daw'r Rheoliadau i rym.

**Pwynt Craffu Technegol 6:**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y diwygiad yn glir a'i fod yn cyflawni'r effaith gyfreithiol angenrheidiol. Fodd bynnag, bydd y diwygiad priodol yn cael ei wneud cyn y daw'r Rheoliadau i rym.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Awst 2022**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016: rhagor o Is-ddeddfwriaeth** |
| **DYDDIAD** | **15 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Julie James, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Yn gynharach yr wythnos hon, cymeradwyodd y Senedd y darnau a ganlyn o is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn llawn, sef:

- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithasau Tai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022;***
- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022; a***
- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022.***

Dydd Llun, byddaf yn gosod ***Reoliadau Rhentu Cartrefi (Penderfynu ar Rent) (Contractau wedi'u Trosi) (Cymru) 2022*** (nad yw’n ofynnol iddynt gael cymeradwyaeth y Senedd mewn Cyfarfod Llawn).

Diben y rheoliadau hyn yw cadw hawl sydd ar gael ar hyn o bryd i denantiaid penodol sydd â thenantiaeth sicr neu fyrddaliadol sicr: sef y gallu i gyfeirio hysbysiad amrywio rhent oddi wrth eu landlord at Bwyllgor Asesu Rhenti i geisio penderfyniad ar rent.

Bydd y rheoliadau hyn yn darparu, pan fydd tenantiaethau presennol sy'n cynnwys darpariaeth o'r fath yn trosi'n gontractau meddiannaeth, y bydd yr hawl honno’n parhau, ac, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, y bydd Pwyllgor Asesu Rhenti yn gallu ystyried amrywiaeth o ffactorau i benderfynu beth, yn eu barn hwy, sy'n rhent priodol ar gyfer yr annedd. Fel sy'n wir am y trefniadau presennol, oni bai bod y landlord a'r tenant yn cytuno fel arall, y rhent a bennir gan y Pwyllgor Asesu Rhenti fydd y rhent sy'n daladwy o dan y contract.

Rwyf hefyd heddiw wedi ailosod fersiwn ddiwygiedig o ***Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022*** sy'n ystyried pwyntiau yn adroddiad Pwyllgor y Senedd ar Ddeddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ac sydd hefyd yn cynnwys diwygiad i Ddeddf Ynni 2011 a gafodd ei hepgor o'r fersiwn wreiddiol a

osodwyd ar 21 Mehefin 2022. Mae'r Offeryn Statudol hwn yn dod o dan weithdrefn gadarnhaol y Senedd, sy'n golygu y bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn cyn y gellir ei wneud. Mae dadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei threfnu cyn gynted â phosibl ar ôl toriad yr haf, a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig arall ar ôl i'r cyfarfod hwnnw gael ei gynnal er mwyn cadarnhau canlyniad y ddadl.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi heddiw – ar ffurf ddrafft – ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Throsiannol) 2022***.

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau arbed a throsiannol mewn perthynas â Deddf 2016. Mae diben y rheoliadau hyn fel a ganlyn:

- sicrhau, pan fo prosesau penodol sy'n ymwneud â thenantiaethau a thrwyddedau presennol (er enghraifft achosion meddiannu) eisoes wedi'u cychwyn ar y dyddiad y daw Deddf 2016 i rym, y ceir cwblhau'r prosesau hynny yn unol â darpariaethau'r fframwaith deddfwriaethol y cawsant eu cychwyn oddi tanynt;

- sicrhau bod hawliau penodol sy'n bodoli mewn mathau penodol o denantiaethau sydd eisoes yn bod (er enghraifft cais am welliant) yn cael eu cadw fel bod y partïon i'r tenantiaethau hynny sydd eisoes yn bod yn cael eu trin yn deg pan fydd eu tenantiaeth yn cael ei throsi'n gontract meddiannaeth, gan daro'r cydbwysedd cywir mewn perthynas â hawliau a rhwymedigaethau'r ddau barti;

- cadarnhau na fydd darpariaethau penodol sy'n ymwneud â llety dros dro yn gymwys tan 12 mis ar ôl i Ddeddf 2016 ddod i rym.

Er nad oes angen i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau hyn yn y Cyfarfod Llawn, maent yn cael eu cyhoeddi ar ffurf ddrafft heddiw fel eu bod ar gael i randdeiliaid mewn da bryd cyn y dyddiad dod i rym ar 1 Rhagfyr. Ni fyddant yn cael eu gwneud ar eu ffurf derfynol tan yr hydref oherwydd y bydd y fersiynau terfynol yn cynnwys cyfeiriadau at y ddau Offeryn Statudol sy'n ymdrin â Diwygiadau Canlyniadol, nad ydynt wedi cael eu gwneud eto: ni ragwelir unrhyw newidiadau eraill i'r rheoliadau hyn. Unwaith eto, byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig arall pan fydd yr OS hwn wedi cael ei wneud yn ffurfiol yn yr hydref.

Ym mis Awst, byddaf yn gwneud ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022***. Maent yn dod o dan weithdrefn negyddol y Senedd, sy'n golygu nad oes yn rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn. Unwaith eto, bydd datganiad ysgrifenedig arall yn cael ei gyhoeddi i roi gwybod i'r aelodau pan fydd y rheoliadau hynny wedi'u gwneud.

Yn olaf, byddaf hefyd, gyda hyn, yn gwneud y ddau Orchymyn Cychwyn sydd eu hangen er mwyn dod â darpariaethau Deddf 2016 i lawn rym ar 1 Rhagfyr 2022. Unwaith eto, byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig arall i roi gwybod i'r Aelodau pan fydd y Gorchmynion hynny wedi'u gwneud.

Mae'r holl offerynnau statudol a wnaed yr wythnos hon i'w gweld yma.

Mae canllawiau, ac adnoddau eraill i landlordiaid a thenantiaid ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) ac is-ddeddfwriaeth i'w gweld drwy wefan Rhentu Cartrefi Cymru:
Mae cyfraith tai yn newid: Rhentu Cartrefi Cymru | LLYW.CYMRU

# SL(6)256 – Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2022

## Cefndir a diben

Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2019") yn diwygio'r gyfraith ar addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn ailenwi Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn Dribiwnlys Addysg Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r setiau a ganlyn o reoliadau wrth i elfennau penodol o Ddeddf 2018 ddod i rym:

- (i) Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002
- (ii) Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003
- (iii) Rheoliadau Cynghorau Ysgolion (Cymru) 2005
- (iv) Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2022
- (v) Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012
- (vi) Rheoliadau Dethol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 2017

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 3(2)(b), nid yw geiriad y ddarpariaeth yn nodi â sicrwydd ble yn y diffiniad o "cynorthwyydd cymorth dysgu"[1] y dylid mewnosod y testun newydd.

[1] Yn Rheoliad 2(1) o Reoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002.

Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith bod "with" yn digwydd mewn dau le yn y diffiniad hwnnw ac felly nid yw dweud bod y testun wedi'i fewnosod ar ôl "with" yn ddigon i wahaniaethu rhyngddynt a nodi'n ble yn union y mae angen mewnosod y testun.

Nid yw'r gwall yn ymddangos yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 5(2)(a) yn darparu y dylid mewnosod y diffiniadau newydd "*yn y lleoedd priodol*".

Fodd bynnag, nid yw'r diffiniadau presennol yn rheoliad 2 o Reoliadau 2005[2] wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor. Gan hynny nid yw'r lle "priodol" i fewnosod y diffiniadau newydd yn y rhestr bresennol o ddiffiniadau'n ddigon clir.

Nid yw'r gwall yn ymddangos yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Craffu Technegol**

**Pwynt 1: Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ac yn derbyn y pwynt a godwyd yn yr adroddiad. Caiff camau gweithredu eu cymryd i ddiwygio'r ddarpariaeth berthnasol ar y cyfle cyntaf fel rhan o raglen barhaus yr is-ddeddfwriaeth a gynhelir er mwyn gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn llawn.

**Pwynt 2: Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd yn yr adroddiad. Caiff camau gweithredu eu cymryd i ddiwygio'r ddarpariaeth berthnasol ar y cyfle cyntaf fel rhan o raglen barhaus yr is-ddeddfwriaeth a gynhelir er mwyn gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn llawn.

[2] Rheoliadau Cynghorau Ysgolion (Cymru) 2005

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Medi 2022**

Eitem 4.7

# SL(6)257 – Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2022

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") yn ymestyn y cyfnod pontio ar gyfer newidiadau penodol i labeli bwyd o ganlyniad i ymadael â'r UE. Yr effaith yw y bydd rhai termau labeli yr UE a chyfeiriadau yr UE yn cael eu caniatáu ar y farchnad yng Nghymru am 15 mis ychwanegol.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth ddomestig Cymru a chyfraith yr UE a ddargedwir fel y mae'n gymwys yng Nghymru. Daw'r cyfnod pontio presennol ar gyfer y newidiadau hyni labeli bwyd i ben ar 30 Medi 2022. Mae'r Rheoliadau'n ymestyn diwedd y cyfnod pontio hyd at 31 Rhagfyr 2023 (ac yn cynnwys y dyddiad hwn).

O ganlyniad, bydd y gofyniad a gorfodaeth newidiadau labelu penodol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE yn gymwys o 1 Ionawr 2024.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r canlynol:

- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006;
- Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011;
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1825/2000 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cygnor mewn perthynas â labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â safonau marchnata ar gyfer wyau;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â'r sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 29/2012 ar safonau marchnata ar gyfer olew olewydd, a
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/33 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cygnor o ran ceisiadau i ddiogelu dynodiadau tarddiad,

dynodiadau daearyddol a thermau traddodiadol yn y sector gwin, y weithdrefn wrthwynebu, cyfyngiadau defnydd, diwygiadau i fanylebau cynnyrch, canslo amddiffyniad, a labelu a chyflwyniad.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 3 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 2 yn nodi ei fod yn diwygio paragraff (9)(b)(ii) yn rheoliad 17 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, ond nid yw is-baragraff (b) yn cynnwys paragraff (ii).

**2. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 3, sy'n diwygio rheoliad 12 o Reoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007, yn cyfeirio at 'is-baragraff (a)', ond dylai ddarllen 'paragraff (a)' gan nad oes unrhyw adrannau blaenorol yn y rheoliad. .

**3. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 5, sy'n diwygio Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011, mae paragraff (2) yn cyfeirio'n anghywir at deitl rheoliad 4 fel '(tramgwyddau o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd)'. Y teitl cywir i'r rheoliad hwnnw yw '(tramgwyddau o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir)'.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Medi 2022**

# SL(6)258 – Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir er mwyn caniatáu i brawf titr gwrthgorff y gynddaredd arall gael ei ddefnyddio ar anifeiliaid anwes sy'n dod i Gymru o'r tu allan i'r DU.

Roedd Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022 (y "Rheoliadau Cyntaf") yn caniatáu defnyddio prawf titr gwrthgorff y gynddaredd arall ar anifeiliaid anwes sy'n dod i Gymru o drydedd wlad tan 1 Hydref 2022. Mae'r Rheoliadau hyn yn awdurdodi'r prawf hwnnw am gyfnod pellach o chwe mis gan ddechrau ar 1 Hydref 2022.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu'r Rheoliadau Cyntaf o 1 Hydref 2022 ymlaen.

Sail resymegol Llywodraeth Cymru o ran y polisi, fel yr esbonir yn y Memorandwm Esboniadol, yw, "*Bydd caniatáu defnyddio prawf ychwanegol yn cyflymu'n sylweddol y broses o brofi am y gynddaredd mewn anifeiliaid anwes sy'n dod i mewn i Gymru, ar adeg pan fydd y system yn ymdrin ag ôl-groniad sylweddol oherwydd bod pobl sy'n dianc o Wcráin yn dod â'u hanifeiliaid anwes i mewn. Bydd hyn yn lleihau'r baich cyffredinol ar leoedd cwarantin ac yn galluogi pobl i gael eu hanifeiliaid anwes yn ôl ynghynt, wrth hefyd gynnal bioddiogelwch Prydain Fawr, gan ddiogelu rhag risgiau sy'n gysylltiedig ag iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd.*"

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *"Roedd swyddogion o'r farn bod hon yn sefyllfa eithriadol a bod angen gweithredu fel mater o frys. Mae angen i'r diwygiadau fod ar waith cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU, ac maent am gyfnod dros dro. Mae DEFRA wedi gwneud rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr, a ddaw i rym ar 1 Hydref 2022, ac mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn gwneud rheoliadau cyfatebol, felly bydd y rheoliadau hyn yn sicrhau cysondeb ledled Prydain Fawr."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r nodyn esboniadol i destun Saesneg y Rheoliadau yn cadarnhau, ym mharagraff 2, fod y prawf a awdurdodir gan reoliad 3 yn ymwneud ag anifeiliaid anwes sy'n dod i Gymru,

> *"…from a third country, for a further period of 6 months following the expiry and revocation of The Non-Commercial Movement of Pet Animals (Amendment) (Wales) Regulations 2022".*

Nid yw'r testun a ddyfynnir yn ymddangos yn fersiwn Gymraeg y nodyn esboniadol. Er y cydnabyddir nad yw'r testun a adawyd allan yn rhan o'r Rheoliadau, gallai ei absenoldeb arwain at ddryswch i'r sawl sy'n darllen y testun Cymraeg.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ail bwynt adrodd technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Medi 2022**

# SL(6)242 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Yn gyffredinol, mae'r diwygiadau hyn naill ai:

(a) yn sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol mewn deddfwriaeth sylfaenol yn parhau i gael effaith briodol drwy gyfeirio at y contractau meddiannaeth perthnasol ochr yn ochr â chyfeiriadau at fathau presennol o denantiaethau, neu drwy gynnwys y derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 2016; neu

(b) lle bwriedir i ddarpariaethau Deddf 2016 ddisodli elfennau o'r gyfraith bresennol neu mae'r gyfraith bresennol yn anghydnaws â'r hyn a nodir yn Neddf 2016, drwy ddatgymhwyso'r gyfraith honno.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi bod y diwygiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn gweithredu Deddf 2016, darparu cydlyniad, eglurder a sicrhau cysondeb o ran y gyfraith.

Gosodwyd fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar 21 Mehefin 2022 ond fe'u tynnwyd yn ôl wedi hynny ar 11 Gorffennaf 2022, yn dilyn adroddiad y Pwyllgor hwn. Gosodwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Rheoliadau drafft gerbron y Senedd ar 15 Gorffennaf 2022.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y 7 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 16(2) yn mewnosod y geiriau "in England" ar ôl "dwelling-house" yn adran 1(1) o Ddeddf Tai 1988. Fodd bynnag, mae'r ymadrodd "dwelling-house" yn ymddangos mewn dau achos yn adran 1(1) ac nid yw'n glir a ddylid mewnosod y geiriad "in England" ar ôl un

neu'r ddau o'r achosion hynny.

Adroddwyd ar y pwynt hwn yn flaenorol mewn perthynas â drafft cynharach y Rheoliadau hyn. Yn ei hymateb ar 18 Gorffennaf 2022, esboniodd Llywodraeth Cymru fod y Rheoliadau wedi'u tynnu'n ôl a'u cywiro, gan gynnwys mewn perthynas â'r pwynt penodol hwn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'r pwynt hwn wedi'i unioni.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 18(5)(c)(iv), cyfeirir at "Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru). **2106**" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Yn lle hynny, dylai hyn gyfeirio at "Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) **2016**" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 18(5)(i)(i) yn hepgor ac yn mewnosod geiriad ym mharagraff 12(2) o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Fodd bynnag, nid yw geiriad y diwygiad yn glir p'un a yw'r geiriad sy'n cael ei fewnosod yn disodli'r geiriad a hepgorwyd. Nid yw o reidrwydd yn dilyn y bydd testun newydd yn cael ei fewnosod yn yr un lle â hen destun sydd wedi'i hepgor.

Yn dilyn canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn "Drafftio Deddfau i Gymru", gallai'r diwygiad fod wedi'i ddrafftio fel "yn lle "*[testun wedi'i hepgor]*" rhodder "*[testun newydd]*"".

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 25(9) yn hepgor geiriad penodol o adran 143E o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996"). Mae'n ymddangos bod paragraff 9(b) o Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 (fel y'i diwygiwyd) ("Deddf 2020") ond yn ei gwneud yn ofynnol i'r darpariaethau hynny *gael eu darllen* yn y ffordd a awgrymir gan reoliad 25(9), yn hytrach na mewnosod y geiriad y mae rheoliad 25(9) yn ceisio ei hepgor. Serch hynny, daeth y ddarpariaeth honno yn Neddf 2020 i ben ar 25 Mawrth 2022. Gofynnir am eglurhad ynghylch pam yr ystyriwyd bod rheoliad 25(9) yn angenrheidiol.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 29(3) yn mewnosod cyfeiriadau at ddeiliaid contract ochr yn ochr â thenantiaid mewn dau le yn adran 153 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008. Mae trydydd cyfeiriad at denantiaid yn is-adran (7) nad yw wedi'i ddiwygio. Mae is-adran (3), sydd wedi'i diwygio, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol wneud trefniadau ar gyfer dwyn cynigion penodol i sylw ei denantiaid. Gan fod is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol hefyd wneud trefniadau ar gyfer dod â chynigion y cytunwyd arnynt i sylw ei denantiaid, mae'n ymddangos bod angen diwygio is-adran (7) hefyd i'w gwneud yn ofynnol i gynigion y cytunwyd arnynt gael eu dwyn i sylw ei ddeiliaid contract.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 32(3) yn diwygio Deddf Ynni 2011 i eithrio eiddo pan fo'r landlord yn landlord cymunedol o'r hyn sy'n "eiddo rhentu preifat domestig" o dan adran 42 o'r Ddeddf honno. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn cyfeirio at landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Gan fod y diffiniad o landlord cymunedol o dan adran 9 o Ddeddf 2016 yn cynnwys cyrff ychwanegol megis awdurdodau lleol, mae'n ymddangos bod y ddarpariaeth wedi'i hymestyn i gyrff heblaw landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Gofynnir am eglurhad ynghylch ai dyma yw bwriad y diwygiad.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 34, yn y testun Cymraeg, mae'r rhifo'n anghywir rhwng paragraffau (8) i (12) sydd wedi'u rhifo'n anghywir fel paragraffau (7) i (11).

Yn ogystal, yn y testun Cymraeg, mae'r paragraff cynharach sydd wedi'i rifo'n gywir (7) wedi'i fewnoli'n anghywir o ran ei fformatio, ynghyd ag is-baragraffau (a) a (b) o'r paragraff hwnnw. Mae is-baragraffau (c) a (d) o'r paragraff hwnnw (7) hefyd wedi'u rhifo'n anghywir fel pâr pellach o is-baragraffau (a) a (d) yn y paragraff hwnnw.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliad 1 yn darparu y nodir bod rhannau amrywiol o reoliad 25 yn dod i rym unwaith y daw adran 120 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 i rym, a pharagraffau amrywiol o Atodlen 8 iddi. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol na'r Nodiadau Esboniadol yn rhoi unrhyw arwydd o ba bryd y disgwylir i'r darpariaethau hyn ddod i rym.

Adroddwyd ar y pwynt hwn yn flaenorol mewn perthynas â drafft cynharach y Rheoliadau hyn. Yn ei hymateb ar 18 Gorffennaf 2022, esboniodd Llywodraeth Cymru nad oes ganddi unrhyw wybodaeth ynghylch pryd y bydd darpariaethau perthnasol Deddf Tai a Chynllunio 2016 yn dod i rym.

**9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Wrth adolygu'r diwygiadau hyn, mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru, mewn sawl achos, wedi cadw at ei chanllawiau drafftio ei hun, fel y'u nodir yn "Drafftio

Deddfau i Gymru". Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gadw at ei safonau ei hun wrth ddrafftio deddfwriaeth.

**10. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi:

> *"Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol oherwydd mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae'r Rheoliadau hyn yn eu gwneud."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau 1-7 uchod yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Medi 2022**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/2385/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

18 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 drafft.

Yn dilyn adroddiad defnyddiol y Pwyllgor ar y Rheoliadau, tynnodd y Llywodraeth yn ôl ac ymrwymodd i ail-osod set ddiwygiedig o Reoliadau, a oedd yn ystyried sylwadau'r Pwyllgor. Gosodwyd y Rheoliadau diwygiedig ar 15 Gorffennaf i alluogi rhanddeiliaid allanol gymaint o amser â phosibl i ystyried y drafft cyn y dyddiad gweithredu, sef 1 Rhagfyr.

Er mwyn rhoi eglurder i'r sector a chefnogi eu paratoadau ar gyfer gweithredu, byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor yn hwyluso eu gwaith craffu ar y Rheoliadau diwygiedig er mwyn galluogi'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn i gael ei chynnal ar 20 Medi.

Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor hefyd at Ddatganiad Ysgrifenedig a gyhoeddais ar 15 Gorffennaf sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau a rhanddeiliaid ehangach am y trefniadau ar gyfer gwneud yr OSau Rhentu Cartrefi sy'n weddill. Roedd hyn yn cynnwys gosod ar 18 Gorffennaf Reoliadau Rhentu Cartrefi (Penderfynu ar Rent) (Contractau wedi'u Trosi) (Cymru) 2022 a chyhoeddi – ar ffurf ddrafft - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022. Rwyf hefyd yn bwriadu gosod Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022 ym mis Awst, a gwneud y ddau Orchymyn Cychwyn sy'n ofynnol i ddod â'r ddeddfwriaeth i rym yn llawn ar 1 Rhagfyr 2022. Mae copi o'r Datganiad hwnnw ar gael yma.

Yours sincerely

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016: rhagor o Is-ddeddfwriaeth** |
| **DYDDIAD** | **15 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Julie James, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Yn gynharach yr wythnos hon, cymeradwyodd y Senedd y darnau a ganlyn o is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn llawn, sef:

- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithasau Tai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022;***
- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022; a***
- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022.***

Dydd Llun, byddaf yn gosod ***Reoliadau Rhentu Cartrefi (Penderfynu ar Rent) (Contractau wedi'u Trosi) (Cymru) 2022*** (nad yw'n ofynnol iddynt gael cymeradwyaeth y Senedd mewn Cyfarfod Llawn).

Diben y rheoliadau hyn yw cadw hawl sydd ar gael ar hyn o bryd i denantiaid penodol sydd â thenantiaeth sicr neu fyrddaliadol sicr: sef y gallu i gyfeirio hysbysiad amrywio rhent oddi wrth eu landlord at Bwyllgor Asesu Rhenti i geisio penderfyniad ar rent.

Bydd y rheoliadau hyn yn darparu, pan fydd tenantiaethau presennol sy'n cynnwys darpariaeth o'r fath yn trosi'n gontractau meddiannaeth, y bydd yr hawl honno'n parhau, ac, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, y bydd Pwyllgor Asesu Rhenti yn gallu ystyried amrywiaeth o ffactorau i benderfynu beth, yn eu barn hwy, sy'n rhent priodol ar gyfer yr annedd. Fel sy'n wir am y trefniadau presennol, oni bai bod y landlord a'r tenant yn cytuno fel arall, y rhent a bennir gan y Pwyllgor Asesu Rhenti fydd y rhent sy'n daladwy o dan y contract.

Rwyf hefyd heddiw wedi ailosod fersiwn ddiwygiedig o ***Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022*** sy'n ystyried pwyntiau yn adroddiad Pwyllgor y Senedd ar Ddeddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ac sydd hefyd yn cynnwys diwygiad i Ddeddf Ynni 2011 a gafodd ei hepgor o'r fersiwn wreiddiol a

osodwyd ar 21 Mehefin 2022. Mae'r Offeryn Statudol hwn yn dod o dan weithdrefn gadarnhaol y Senedd, sy'n golygu y bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn cyn y gellir ei wneud. Mae dadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei threfnu cyn gynted â phosibl ar ôl toriad yr haf, a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig arall ar ôl i'r cyfarfod hwnnw gael ei gynnal er mwyn cadarnhau canlyniad y ddadl.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi heddiw – ar ffurf ddrafft – ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Throsiannol) 2022***.

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau arbed a throsiannol mewn perthynas â Deddf 2016. Mae diben y rheoliadau hyn fel a ganlyn:

- sicrhau, pan fo prosesau penodol sy'n ymwneud â thenantiaethau a thrwyddedau presennol (er enghraifft achosion meddiannu) eisoes wedi'u cychwyn ar y dyddiad y daw Deddf 2016 i rym, y ceir cwblhau'r prosesau hynny yn unol â darpariaethau'r fframwaith deddfwriaethol y cawsant eu cychwyn oddi tanynt;

- sicrhau bod hawliau penodol sy'n bodoli mewn mathau penodol o denantiaethau sydd eisoes yn bod (er enghraifft cais am welliant) yn cael eu cadw fel bod y partïon i'r tenantiaethau hynny sydd eisoes yn bod yn cael eu trin yn deg pan fydd eu tenantiaeth yn cael ei throsi'n gontract meddiannaeth, gan daro'r cydbwysedd cywir mewn perthynas â hawliau a rhwymedigaethau'r ddau barti;

- cadarnhau na fydd darpariaethau penodol sy'n ymwneud â llety dros dro yn gymwys tan 12 mis ar ôl i Ddeddf 2016 ddod i rym.

Er nad oes angen i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau hyn yn y Cyfarfod Llawn, maent yn cael eu cyhoeddi ar ffurf ddrafft heddiw fel eu bod ar gael i randdeiliaid mewn da bryd cyn y dyddiad dod i rym ar 1 Rhagfyr. Ni fyddant yn cael eu gwneud ar eu ffurf derfynol tan yr hydref oherwydd y bydd y fersiynau terfynol yn cynnwys cyfeiriadau at y ddau Offeryn Statudol sy'n ymdrin â Diwygiadau Canlyniadol, nad ydynt wedi cael eu gwneud eto: ni ragwelir unrhyw newidiadau eraill i'r rheoliadau hyn. Unwaith eto, byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig arall pan fydd yr OS hwn wedi cael ei wneud yn ffurfiol yn yr hydref.

Ym mis Awst, byddaf yn gwneud ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022***. Maent yn dod o dan weithdrefn negyddol y Senedd, sy'n golygu nad oes yn rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn. Unwaith eto, bydd datganiad ysgrifenedig arall yn cael ei gyhoeddi i roi gwybod i'r aelodau pan fydd y rheoliadau hynny wedi'u gwneud.

Yn olaf, byddaf hefyd, gyda hyn, yn gwneud y ddau Orchymyn Cychwyn sydd eu hangen er mwyn dod â darpariaethau Deddf 2016 i lawn rym ar 1 Rhagfyr 2022. Unwaith eto, byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig arall i roi gwybod i'r Aelodau pan fydd y Gorchmynion hynny wedi'u gwneud.

Mae'r holl offerynnau statudol a wnaed yr wythnos hon i'w gweld yma.

Mae canllawiau, ac adnoddau eraill i landlordiaid a thenantiaid ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) ac is-ddeddfwriaeth i'w gweld drwy wefan Rhentu Cartrefi Cymru:
Mae cyfraith tai yn newid: Rhentu Cartrefi Cymru | LLYW.CYMRU

# SL(6)244 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 (“y Prif Reoliadau) sy'n darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr sy'n amodol ar incwm yng Nghymru a Lloegr.

Mae Rheoliad 3(2) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gostyngiad dros dro yn y gyfradd llog ar fenthyciadau i fyfyrwyr israddedig a bennir yn rheoliad 21A o'r Prif Reoliadau; mae Rheoliad 3(3) yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â benthyciadau gradd ôl-raddedig a bennir yn Rheoliad 21B o'r Prif Reoliadau.

Pennir y gyfradd llog ar 6.3% ar gyfer y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Medi 2022 ac sy’n gorffen ar 30 Tachwedd 2022. Ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd y gyfradd llog yn dychwelyd i'r gyfradd wreiddiol a bennir yn y Prif Reoliadau.

## Gweithdrefn

Negyddol Cyfansawdd

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y Deyrnas Unedig.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd. Gall Senedd y Deyrnas Unedig hefyd ddirymu'r Rheoliadau, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i Senedd y Deyrnas Unedig.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi’i wneud neu i’w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Mae’r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, felly mae’r Rheoliadau: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a’r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y DU. O ganlyniad, gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig.

Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi’r canlynol:

*"The 2022 Regulations are composite regulations. As this instrument will be subject to UK Parliamentary scrutiny, it is not considered reasonably practicable for it to be made or laid bilingually. Therefore, the 2022 Regulations are made in English only."*

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Awst 2022**

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir o dan Reol Sefydlog 21.7
# 26 Medi 2022

## SL(6)234 - Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ar gyfer Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991

### Gweithdrefn: Drafft negyddol

O dan adran 2B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2014), gall Gweinidogion Cymru o bryd i'w gilydd gyhoeddi datganiad yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion strategol i Ofwat eu dilyn wrth gyflawni ei swyddogaethau perthnasol yn ymwneud â chwmnïau sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Rhaid i Ofwat gyflawni'r swyddogaethau hyn, sy'n cynnwys y penderfyniadau prisiau 5 mlynedd yn unol â'r SPS. Mae'r rhain yn cynnwys y disgwyliadau ar gyfer cynlluniau busnes cwmnïau dŵr (methodoleg) sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer blaenoriaethau buddsoddi a lefel gwasanaeth ac yn pennu taliadau dŵr. Bydd y penderfyniad nesaf ar yr adolygiad o brisiau yn 2024 ar gyfer y cyfnod 2025-2030.

Mae'r offeryn hwn yn creu'r SPS ac yn cymryd lle'r fersiwn gyfredol a gyhoeddwyd yn 2017. Mae'r SPS yn nodi

nifer o uchelgeisiau ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, y Strategaeth Ddŵr i Gymru a blaenoriaethau a deddfwriaeth benodol Llywodraeth Cymru. Daw'r rhain o dan 5 thema allweddol – Argyfyngau Hinsawdd a Natur, yr Amgylchedd, Cydnerthedd, Iechyd Asedau a Chwsmeriaid a Chymunedau.

Rhwng mis Mehefin 2021 a mis Chwefror 2022, yn unol ag adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod yr ymgyngoreion yn gefnogol ar y cyfan i'r SPS drafft.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf y Diwydiant Dŵr 1991
**Fe'u gwnaed ar:** Heb ei nodi
**Fe'u gosodwyd ar:** 6 Gorffennaf 2022
**Yn dod i rym ar:** Heb ei nodi

Eitem 6.1

# SL(6)227 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlenni 2, 3, 8A, 9, 9B a 9C i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Mewnfudo 2016 a Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021.

At ddibenion y Rheoliadau hyn:

- Mae Atodlen 2 i'r Ddeddf yn rhestru'r tenantiaethau a'r trwyddedau hynny na allant fyth fod yn gontractau meddiannaeth o dan y Ddeddf, er eu bod yn dod o fewn y rheol gyffredinol a nodir yn adran 7 o'r Ddeddf, sy'n penderfynu a yw tenantiaeth neu drwydded yn gontract meddiannaeth ac felly'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf.
- Mae Atodlen 3 i'r Ddeddf yn rhestru ystod o gontractau meddiannaeth sydd wedi'u heithrio o'r rheol gyffredinol o dan adrannau 11 a 12 o'r Ddeddf bod landlordiaid cymunedol yn darparu contractau diogel.
- Mae Atodlen 8A i'r Ddeddf yn rhestru'r mathau hynny o gontractau safonol y gellir eu terfynu heb lai na dau fis o rybudd o dan hysbysiad neu gymal terfynu landlord (yn hytrach na'r cyfnod rhybudd o chwe mis sy'n gymwys mewn perthynas â phob contract meddiannaeth safonol arall).
- Mae Atodlen 9 yn rhestru'r mathau hynny o gontractau y gellir eu terfynu o fewn chwe mis cyntaf y dyddiad meddiannu.
- Mae Atodlen 9B yn rhestru'r mathau hynny o gontractau safonol cyfnod penodol y caniateir eu terfynu ar ddiwedd y cyfnod penodol gyda dau fis o rybudd drwy hysbysiad landlord.
- Mae Atodlen 9C yn rhestru'r contractau safonol cyfnod penodol hynny a all gynnwys cymal terfynu landlord, nad yw'r Ddeddf yn gyffredinol yn ei ganiatáu.

Mae rheoliad 2 yn ychwanegu tenantiaethau a thrwyddedau sy'n ymwneud â llety mechnïaeth a phrawf yn ogystal â llety lloches a mewnfudo i'r rhestr yn Rhan 3 o Atodlen 2, sy'n golygu na fyddant fel arfer yn gontractau meddiannaeth o dan y Ddeddf.

Mae rheoliadau 3 i 7 yn diwygio Atodlenni 3, 8A, 9, 9B a 9C i'r Ddeddf i ddileu'r cyfeiriad at fathau penodol o lety a ddarperir ar gyfer ceiswyr lloches etc. o'r rhestr o esemptiadau ym mhob un o'r Atodlenni hynny.

Mae rheoliad 8 yn gwneud diwygiad canlyniadol i Ddeddf Mewnfudo 2016 i sicrhau, na fydd paragraff 7(3)(k)(i) o Atodlen 2 (fel y'i mewnosodir gan reoliad 2 o'r Offeryn hwn) yn cyfeirio mwyach at adran 4 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, pan gaiff byr adran honno ei diddymu,
.

Mae rheoliad 9 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlen 6 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth yn rheoliadau 3 a 5.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Mewnfudo 2016 a Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) Cymru 2021 gan ddibynnu ar bwerau galluogi a gynhwysir yn adran 255 o'r Ddeddf.

Mae'r testun italig ar ben y Rheoliadau hyn a'r rhagarweiniad yn cyfeirio at adrannau 256(3) a (4)(h), (i), (la), (m), (mb) a (mc) o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod rheoliadau sy'n diwygio Atodlenni 2, 3, 8A, 9, 9B a 9C i'r Ddeddf yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae adran 256(5) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol pan gânt eu gwneud o dan y Ddeddf a diwygio, addasu neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf yn y Senedd. Ymddengys felly y dylai'r testun italig ar ben y Rheoliadau hyn a'r rhagarweiniad hefyd gyfeirio at adran 256(5) o'r Ddeddf.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.  Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn (sydd hefyd yn cwmpasu Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022) yn nodi:

> *"Oherwydd natur dechnegol y ddau Offeryn Statudol hyn a'r ffaith nad oes yr un o'r gwelliannau y maent yn eu cynnwys yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i safbwyntiau polisi a nodir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal.*

*Fodd bynnag, codwyd nifer o'r materion y rhoddwyd sylw iddynt yn y gwelliannau hyn gyda Llywodraeth Cymru gan randdeiliaid allanol yn ceisio eglurhad ar gymhwyso'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â mathau penodol o lety. Mae trafodaethau manwl wedi'u cynnal gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio'r materion hyn ac maent wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r gwelliannau."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, sef Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Deddf Mewnfudo 2016 a Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bumed Senedd wedi cyflwyno adroddiad ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yn ystod trafodion Cyfnod 1. Mae'r Adroddiad yn cyfeirio at fodolaeth pwerau Harri VIII a'r eglurhad a geisir ar y pryd gan y Gweinidog mewn perthynas â'r cyfiawnhad fod pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau penodol yn y Bil hwnnw yn bŵer Harri VIII. Ymateb y Gweinidog oedd:

*"Mae'r Atodlenni i Ddeddf 2016 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru eu diwygio, am y bydd angen i ni adolygu'r materion sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodlenni hyn wrth i'r tirlun tai esblygu dros amser. Mae angen i ni gael yr hyblygrwydd i ymateb i'r newidiadau hynny a gwneud darpariaethau priodol o fewn yr Atodlenni amrywiol, yn ôl yr angen. Mae'r Bil hwn felly yn mabwysiadu'r un dull gweithredu. Ymddengys mai'r dewis amgen fyddai rheoliadau a fyddai hefyd yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol neu, fel arall, byddai angen eu darllen ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth sylfaenol, gan olygu y byddai rhai o'r manylion yn syrthio y tu allan i'r ddeddfwriaeth sylfaenol, yn yr is-ddeddfwriaeth, a all, ynddo'i hun, ddenu beirniadaeth o ran materion yn ymwneud â chraffu a hygyrchedd y gyfraith."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar y pwynt craffu technegol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022***

Pwynt Craffu Technegol 1:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid cynnwys adran 256(5) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn y testun italig ar ben y Rheoliadau hyn ac yn y rhagymadrodd. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am godi'r amryfusedd hwn y bwriadwn ei gywiro wrth ei wneud.

Eitem 6.2

# SL(6)229 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Yn gyffredinol, mae'r diwygiadau hyn naill ai:

(a) yn sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol mewn deddfwriaeth sylfaenol yn parhau i gael effaith briodol drwy gyfeirio at y contractau meddiannaeth perthnasol ochr yn ochr â chyfeiriadau at fathau presennol o denantiaethau neu drwy gynnwys y derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 2016; neu
(b) lle bwriedir i ddarpariaethau Deddf 2016 ddisodli elfennau o'r gyfraith bresennol neu bod y gyfraith bresennol yn anghydnaws â'r hyn a nodir yn Neddf 2016, yn datgymhwyso'r gyfraith honno.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi bod y diwygiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn rhoi Deddf 2016 ar waith, sicrhau cydlyniad ac eglurder, a sicrhau cysondeb yn y gyfraith.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 31 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 10 yn mewnosod geiriau yn adran 60A o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984 ("Deddf 1984"). Nid yw adran 60A mewn grym eto, bydd yn dod i rym pan ddaw adran 191 o Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i rym. Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad yw rheoliad 2 yn datgan bod rheoliad 10 i ddod i rym yn union ar ôl i adran 191 o Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 ddod i rym.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn ogystal, mewn perthynas â rheoliad 10, mae geiriad presennol adran 60A(3) o Ddeddf 1984 yn cyfeirio ym mharagraff (a) at Ddeddf Tai 1985 ("Deddf 1985"), wedyn ym mharagraff (b) yn cyfeirio at "that Act", sy'n golygu Deddf 1985 y cyfeiriwyd ati yn y paragraff blaenorol (a). Fodd bynnag, mae rheoliad 10(2)(a)(i) yn mewnosod paragraff (aa) newydd a fydd yn eistedd rhwng y paragraffau (a) a (b) presennol. Mae'r paragraff (aa) newydd yn cyfeirio at Ddeddf 2016. Pan fewnosodir y geiriad newydd hwn, mae'n debygol iawn y bydd y sawl sy'n ei ddarllen am y tro cyntaf o dan yr argraff mai'r Ddeddf y cyfeirir ati mharagraff (b) yw Deddf 2016, ac nid Deddf 1985 fel y dylai fod. Gofynnir i Lywodraeth Cymru roi ei barn yn hyn o beth a chadarnhau a fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd i unioni hyn.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 16(2) yn mewnosod y geiriau "in England" ar ôl "dwelling-house" yn adran 1(1) o Ddeddf Tai 1988. Fodd bynnag, mae'r ymadrodd "dwelling-house" yn ymddangos mewn dau achos yn adran 1(1) ac nid yw'n glir a ddylid mewnosod y geiriad "in England" ar ôl un o'r achosion hynny neu'r ddau.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae nifer o faterion yn codi yn y Rheoliadau hyn wrth groesgyfeirio at ddeddfwriaeth bresennol:

a. Mae rheoliad 6(2) yn cyfeirio at Atodlen 1 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956 ("Deddf 1956"). Fodd bynnag, mae gan Ddeddf 1956 Atodlen Gyntaf neu "First Schedule" yn hytrach nag Atodlen 1 (*Schedule 1*);

b. Mae rheoliad 7 yn mewnosod geiriau newydd yn Neddf Deddf DigolledIad Tir 1984 ("Deddf 1984"). Mae nifer o wallau croesgyfeirio yn y rheoliad hwn:

    i. Mae rheoliad 7(2)(a)(ii) yn nodi "yn is-baragraff (v)" ond dylai hwn nodi "ym mharagraff (v)";

    ii. Mae gwall teipograffyddol hefyd yn rheoliad 7(2)(a)(ii). Y geiriau y dylid eu mewnosod yn Neddf 1973 yw "or (f)" ac nid "of (f);

    iii. Yn rheoliad 7(2)(b)(i), ceir cyfeiriad at "is-baragraff (e)(iii)"; dylai hwn fod yn gfeiriad at "paragraff (e)(iii)";

    iv. Mae rheoliad 7(2)(b)(ii) yn mewnosod geiriau newydd yn adran 29(4) o Ddeddf 1973. Nodir bod y geiriau newydd i'w mewnosod ar ôl is-baragraff (iv), ond nid yw'n nodi at ba baragraff y mae'n cyfeirio. Y cyfeiriad cywir yw paragraff (e)(iv), ac nid is-baragraff (iv).

c. Mae rheoliad 10 yn mewnosod geiriau newydd yn Neddf 1984. Mae dau wall croesgyfeirio yn y rheoliad hwn:

    i. Mae rheoliad 10(2)(a) yn mewnosod geiriau newydd yn adran 60A o Ddeddf 1984. Mae'n cyfeirio at "ym mharagraff (3)", ond dylai hwn fod yn "yn is-adran (3)".

    ii. Mae rheoliad 10(2)(b) yn mewnosod diffiniadau newydd yn adran 60A o Ddeddf 1984. Mae'r geiriau agoriadol yn cyfeirio at "ym mharagraff (7)", ond dylai hwn fod yn "yn is-adran (7)". Yn y diffiniad o "prohibited conduct standard contract" mae'r geiriau "of the" yn cael eu hailadrodd. Dylai fod hanner colon ar ddiwedd pob diffiniad hefyd.

d. Mae rheoliad 11(5) yn mewnosod geiriau newydd yn adran 32 o Ddeddf 1985. Mae dau wall croesgyfeirio yn y rheoliad hwn:

    i. Cyfeirir at bennawd adran 32 o Ddeddf 1985 fel "pŵer i waredu tir a ddelir at ddibenion y Ddeddf hon", ond dylid newid "y Ddeddf hon" i "y Rhan hwn".

    ii. Yn yr is-adran (3A)(d)(ii) newydd, cyfeirir at Atodlen 3 i Ddeddf 2016 ac nid yw'n glir a fwriedir i'r geiriad mewn cromfachau fod yn grynodeb o'r hyn y mae Atodlen 3 yn ei wneud neu ai hwn yw teitl Atodlen 3. Y geiriad a ddefnyddir yw "various forms of occupation contract made with community landlords which may be standard contracts", ond pennawd Atodlen 3 yw "occupation contracts made with or adopted by community landlords which may be standard contracts".

e. Mae rheoliad 11(19) yn cyfeirio at bennawd adran 247 o Ddeddf 1985 fel "yr awdurdod tai lleol i'w hysbysu am newid perchnogaeth tir" neu "changes of ownership of land to be notified to local housing authority" yn y Ddeddf wreiddiol. Pennawd adran 247 o Ddeddf 1985 yw "changes of ownership **or occupation** of land to be notified to local housing authority" (ychwanegwyd pwyslais);

f. Mae rheoliad 14(2) yn diwygio adran 283(3A) o Ddeddf Ansolfedd 1986. Mae'r rheoliad yn cyfeirio at is-adran (3A) ond nid yw "3A" wedi ei osod mewn cromfachau;

g. Mae rheoliad 16(3) yn mewnosod adran 1A newydd yn Neddf Tai 1988 ("Deddf 1988"). Yn is-adrannau (2) a (4) o adran newydd 1A, cyfeirir at "paragraph (3)". Gan fod y cyfeiriadau hyn yn cael eu gwneud mewn perthynas ag is-raniad o adran o Ddeddf Seneddol, dylai'r cyfeiriadau hyn yn hytrach gyfeirio at is-adran neu "subsection (3)";

h. Mae rheoliad 18 yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989"). Mae'r gwallau croesgyfeirio a ganlyn wedi'u nodi yn y rheoliad hwnnw:

    i. Mae rheoliad 18(5)(c)(iii) yn cyfeirio at "is-baragraff 3" o baragraff 2 o Atodlen 10 i Ddeddf 1989. Dylid gosod cromfachau o amgylch y "3".

ii. Mae rheoliad 18(5)(d)(ii) yn cyfeirio at "is-baragraff 5(a)" o baragraff 4 o Atodlen 10 i Ddeddf 1989. Dylid gosod cromfachau o amgylch y "5".

iii. Mae rheoliad 18(5)(h)(iv) yn cyfeirio at "is-baragraff 3(c)" o baragraff 11 o Atodlen 10 i Ddeddf 1989. Dylid gosod cromfachau o amgylch y "3".

iv. Mae rheoliad 18(5)(i)(i) yn cyfeirio at "section 24 (incorporation and modification of supplementary terms)". Yn hytrach, y geiriad cywir yw "section 24 (incorporation and modification of supplementary **provisions**)" (ychwanegwyd pwyslais).

i. Mae rheoliad 19 yn diwygio Deddf Ymsuddiant Glofaol 1991 ("Deddf 1991"). Mae'r gwallau croesgyfeirio a ganlyn wedi'u nodi yn y rheoliad hwnnw:

i. Mae rheoliad 19(2)(a) yn mewnosod is-baragraff (4)(f) newydd ym mharagraff 1 o Atodlen 4 i Ddeddf 1991. Wrth wneud hynny, mae'r rheoliad yn datgan, "(a) yn is-baragraff (4), ar ôl (e), mewnosoder—". Dylai nodi, "(a) yn is-baragraff (4), ar ôl **paragraff** (d), mewnosoder–" (pwyslais wedi'i ychwanegu);

ii. Mae rheoliad 19(2)(b) yn mewnosod is-baragraff (7) newydd ym mharagraff 1 o Atodlen 4 i Ddeddf 1991. Fodd bynnag, mae'r rheoliad yn cyfeirio at fewnosod yr is-baragraff hwn ar ôl "paragraff (6)", yn hytrach nag "**is-b**aragraff (6)" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

j. Mae rheoliad 23(2) yn mewnosod adran 1(8) newydd yn Neddf Landlord a Thenant (Cyfamodau) 1995. Wrth wneud hynny, mae'r rheoliad yn darllen "Ar ôl is-adran 1(7)…". Dylai ddarllen, "Ar ôl **adran** 1(7)…" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

k. Mae yna enghreifftiau o rifau penodau anghywir yn cael eu dyfynnu wrth gyfeirio at Ddeddfau Seneddol yn y Rheoliadau:

i. Mae rheoliad 14(2)(a) yn cyfeirio at "the Rent Act 1977 (c. 47)". Y geiriad cywir fyddai "The Rent Act 1977 (**c. 42**)" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Byddai pennod. 47 yn mynd â darllenwyr i Ddeddf Awdurdodau Lleol (Pwerau Adfer Gwaith) 1977;

ii. Mae rheoliad 16(3) yn cyfeirio at "the Local Government and Housing Act 1989 (c. 49)". Y geiriad cywir fyddai "the Local Government and Housing Act 1989 (**c. 42**)" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Nid yw 1989, pennod 49 yn cyfateb i Ddeddf Seneddol.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 11(5)(b) yn mewnosod adran (3A) newydd yn adran 32 o Ddeddf 1985. Mae'r is-adran (3A) newydd yn cyfeirio at "supported standard contract". Fodd bynnag, nid oes diffiniad o "supported standard contract" ar gael yn Neddf 1985. Mae rheoliad 11 yn mynd ymlaen i

fewnosod diffiniad o "standard contract" yn Neddf 1985 ond nid "supported standard contract".

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 11(8) yn mewnosod geiriad newydd yn Neddf 1985 i nodi ble yn y Ddeddf honno y bydd y diffiniadau newydd a fewnosodir gan reoliad 11(7) yn ymddangos. Mae rheoliad 11(7) yn mewnosod diffiniad newydd ar gyfer "occupation contract" ond nid yw hwn wedi ei gynnwys yn rheoliad 11(8). Nid oes ychwaith unrhyw ddyfynodau agoriadol a chau o amgylch y geiriad sydd i'w fewnosod gan reoliad 11(8) (mae'r un mater yn codi mewn perthynas â rheoliadau 11(18) ac 11(25)).

**7. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 11(11)(b) yn hepgor y geiriau o adran 85ZA o Ddeddf 1985 a'r rheswm am hynny yw hepgor adran 85ZA(8) y rhoddir effaith iddo gan reoliad 11(11)(a). Mae rheoliad 11(11)(b) felly yn dileu'r geiriau "and (8)" o adran 85ZA(9), ond nid yw'n dileu'r lluosog "subsections" yn y geiriad blaenorol. Dylai'r gwelliant felly roi "subsection (7)" yn lle "subsections (7) and (8)" er mwyn i'r ddeddfwriaeth wneud synnwyr.

**8. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 11(23) yn diwygio adran 554 o Ddeddf 1985. Fodd bynnag, mae strwythur y diwygiadau a nodir yn rheoliad 11(23)(b) yn ei gwneud yn aneglur sut y bydd diwygiadau o'r fath yn dod i rym. Mae'n ymddangos y dylai rheoliad 11(23)(b)(i) fod yn rheoliad 11(23)(b) mewn gwirionedd ac y dylai rheoliad 11(23)(b)(ii) fod yn rheoliad 11(23)(c) mewn gwirionedd, a hynny er mwyn i'r rheoliad hwn wneud synnwyr.

**9. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 16(4) yn hepgor geiriau penodol o adran 8(4A)(a) a (4B) o Ddeddf 1988. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod paragraff 6(c) o Atodlen 29 i Ddeddf Coronafeirws 2020 (fel y'i diwygiwyd) ("Deddf 2020") ond yn ei gwneud yn ofynnol i'r darpariaethau hynny g*ael eu darllen* yn y ffordd a awgrymir gan reoliad 16(4), yn hytrach na mewnosod y geiriau y mae rheoliad 16(4) yn ceisio eu hepgor. Serch hynny, daeth y ddarpariaeth honno yn Neddf 2020 i ben ar 25 Mawrth 2022. Gofynnir am eglurhad ynghylch pam yr ystyriwyd bod rheoliad 16(4) yn angenrheidiol.

**10. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 16(9) yn mewnosod diffiniad o "secure contract" yn adran 45 o Ddeddf 1988 drwy gysylltu'r term â'i ystyr yn adran 8 o Ddeddf 2016. Ymddengys fod y gair "same" ar goll

o'r esboniad cysylltiedig. Dylai'r rheoliad ddarllen, ""secure contract" has the **same** meaning as in the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1) (see section 8 of that Act);" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

**11. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 18(5)(c)(iv) yn mewnosod diffiniad o "the 2016 Act" ym mharagraff 2(6) o Atodlen 10 i Ddeddf 1989. Ymddengys mai'r bwriad yw mewnosod y diffiniad hwn ar ôl y diffiniad o "Housing Act 1988," ond, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, mae'r rheoliad yn awgrymu bod y diffiniad o "the 2016 Act" i'w fewnosod yn union ar ôl y geiriau "Housing Act 1988,".

Dylai hanner colon hefyd ymddangos o fewn y term a ddyfynnwyd sy'n ymwneud â Deddf 1988, yn hytrach nag atalnod. Ar hyn o bryd mae'n darllen "Housing Act 1988**,**" (pwyslais wedi'i ychwanegu), ond dylai ddarllen "Housing Act 1988**;**".

**12. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 18(5)(d)(v) yn mewnosod y geiriau "or an occupation contract" ym mharagraff 4(7)(a) o Atodlen 10 i Ddeddf 1989. Yn y testun Saesneg, mae'r dyfynodau cau o amgylch y geiriau a fewnosodwyd ar goll. Nid yw'r gwall hwn i'w weld yn y testun Cymraeg.

**13. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 18(5)(e)(iv) yn mewnosod is-baragraff (3)(cc) newydd ym mharagraff 6 o Atodlen 10 i Ddeddf 1989. Yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau, ceir gwall teipograffyddol, wrth i baragraff (cc) newydd ddechrau gyda "**n** relation to…", yn hytrach na "**in** relation to…" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Nid yw'r gwall hwn yn digwydd yn y fersiwn Saesneg.

**14. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 18(5)(f)(v) yn diwygio paragraff 9(4) o Atodlen 10 i Ddeddf 1989 i fewnosod y geiriau ar ôl "assured periodic contract" yn y ddau le y mae'n digwydd. Fodd bynnag, nid yw "assured periodic contract" yn ymddangos ym mharagraff 9(4) o Atodlen 10. Mae'n ymddangos y dylai'r rheoliad gyfeirio at "assured periodic **tenancy**" (pwyslais wedi'i ychwanegu), sydd yn ymddangos ddwywaith yn y paragraff.

**15. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae'r dyfynodau cau o amgylch geiriau ar goll o rai darpariaethau:

a. Mae rheoliad 18(5)(h)(i) yn mewnosod y geiriau "or the periodic standard contract" ym mharagraff 11(1)(a) o Atodlen 10 i Ddeddf 1989.

b. Rheoliad 34(4)(a):

i. ym mharagraff (i), yn y testun Saesneg, mae set o ddyfynodau cau ar goll rhwng y 2 hanner colon ar ddiwedd y diffiniad o "contract-holder"; a

ii. ym mharagraff (ii), mae set o ddyfynodau cau ar goll ar ddiwedd "or an occupation contract".

**16. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 18(5)(h)(ix) yn mewnosod geiriau ym mharagraff 11(8)(c) o Atodlen 10 i Ddeddf 1989, ar ôl y geiriau "assured periodic tenancy". Fodd bynnag, mae "assured periodic tenancy" yn ymddangos yn y testun sy'n ymddangos ar ôl paragraff (c), yn hytrach nag o fewn y paragraff hwnnw. Felly, dylai'r rheoliad gyfeirio at baragraff 11(8) o Atodlen 10 i Ddeddf 1989, yn hytrach na pharagraff 11(8)(c).

Mae'r diffyg hwn yn cael effaith ganlyniadol mewn perthynas â rheoliad 18(5)(h)(x). Mae'r rheoliad hwnnw yn mewnosod paragraff (d) newydd ym mharagraff 11(8) o Atodlen 10 i Ddeddf 1989. Gan ei bod yn ymddangos bod y rheoliadau wedi bwriadu i'r geiriad sy'n ymddangos ar ôl paragraff 11(8)(c) i ffurfio rhan o baragraff (c), mae rheoliad 18(5)(h)(x) yn peri i'r geiriad sy'n ymddangos ar hyn o bryd ar ôl paragraff 11(8)(c) i ymddangos wedyn ar ôl y paragraff (d) newydd. Nid yw'n ymddangos mai dyna oedd bwriad rheoliad 18(5)(h)(ix) ac (x).

**17. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 22(4)(a) yn mewnosod geiriau yn adran 69(3)(c) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 ("Deddf 1993"). Wrth wneud hynny, cyfeirir at "that Act". Fodd bynnag, nid yw "that Act" wedi'i diffinio at ddibenion yr adran ac nid yw'n glir at ba Ddeddf Seneddol y mae'n cyfeirio. Cyn adran 69(3)(c), cyfeirir yn adran 69 at Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967, Deddf Tai 1996, a Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

**18. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 22(4)(b) yn mewnosod is-adran (3A) newydd yn adran 69 o Ddeddf 1993. Mae'n ymddangos bod paragraff (a) o'r is-adran newydd honno'n cynnwys gwall drafftio gan ei bod yn datgan "(see section 18 (see also section 19) [sic] of that Act)". Er bod y cyfeiriadau at adrannau 18 a 19 o Ddeddf 2016 yn ymddangos yn gywir, mae angen diwygio'r frawddeg honno.

**19. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 22(5)(h) yn mewnosod paragraff 5 newydd yn Atodlen 9 i Ddeddf 1993. Fodd bynnag, nid yw'r paragraff 5 newydd yn disodli'r paragraff 5 sy'n bodoli eisoes, ac nid yw'n

ymddangos mai dyna yw bwriad y rheoliad ychwaith. Felly, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, byddai Atodlen 9 i Ddeddf 1993 yn cynnwys dwy fersiwn o baragraff 5. Yn lle hynny, dylai'r rheoliad fewnosod y ddarpariaeth fel "paragraph 4A".

**20. Rheol Sefydlog 21.2(viii) – defnyddio iaith ryw-benodol.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys iaith ryw-benodol mewn dau le:

a. Mae rheoliad 24(3)(b)(ii), sy'n mewnosod is-baragraff (7) newydd ym mharagraff 7 o Atodlen 7 i Ddeddf Cyfraith Teulu 1996, yn cynnwys defnyddio "his" mewn tri lle; a

b. Mae rheoliad 25(15)(b), sy'n mewnosod testun yn adran 160A(8) o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996"), yn cynnwys y defnydd o "he".

**21. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 24(3)(b) yn mewnosod testun yn dilyn "Chapter 1 of Part V of the Housing Act 1996", ond ymddengys fod "or" ar goll o ddechrau'r testun a fewnosodir.

**22. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 25(4)(d) yn rhoi "Subsection (1)(A)" yn adran 124(3) o Ddeddf 1996, ond nid oes is-adran (1)(a). Ymddengys mai "Is-adran (1A)" ddylai hon fod.

**23. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 25, sy'n diwygio Deddf 1996, yn cynnwys nifer o hepgoriadau yr ymddengys eu bod yn anghywir:

- Mae rheoliad 25(9)(a) yn hepgor adran 143E(3)(a)(ii) o Ddeddf 1996, ond nid oes is-adran (3)(a)(ii) yn adran 143E. Nid yw'n glir pa ddarpariaeth y dylid ei hepgor.
- Mae rheoliad 25(11) yn hepgor y geiriau "or 143H" o adran 143I(1) o Ddeddf 1996, ond y geiriad yn yr adran honno yw "or 143H(3)".

**24. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 27(2)(b) yn cynnwys, ym mharagraff 3A(1) newydd, y testun "referred to in this Part as "the 2016 Act"", ond dim ond ym mharagraff 3A y defnyddir y diffiniad, ac nid oes unrhyw Rannau yn Atodlen 7 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002. Mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriad at "Part" fod yn gyfeiriad at "paragraph".

**25. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 32 yn diwygio Deddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013 i ychwanegu cyfeiriadau at "secure contract" ochr yn ochr â chyfeiriadau presennol at "assured tenancies". O fewn yr adrannau hynny a ddiwygir gan reoliad 32, ceir cyfeiriadau at "tenant" a "tenancy". Mae'n ymddangos y dylai'r ddeddfwriaeth gyfeirio at "contract-holder" ac "occupation contract" yn lle'r termau hynny. Nodir bod Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 wedi'i diwygio gan reoliad 34 i fewnosod cyfeiriadau at "contract-holder" ac "occupation contract" ochr yn ochr â "tenant" a "tenancy" yn y drefn honno.

**26. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 32(5)(d) yn darparu ar gyfer mewnosod testun, ond nid yw'n cynnwys cyfeiriad at yr is-adran sydd i'w diwygio. Nid yw'n glir sut y gallai'r diwygiad weithredu heb gyfeiriad at y ddarpariaeth y mae'n gymwys iddi.

**27. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 33(2) yn cynnwys cyfeiriad at "cyfran y tenant (o fewn yr ystyr a roddir gan yr adran honno)". Mae'n ymddangos y dylai'r testun gyfeirio at "**gyfanswm** cyfran y tenant (o fewn yr ystyr a roddir gan yr adran honno)" neu "total share" gan fod hwn yn derm a ddiffinnir yn adran 7(7) o Ddeddf 1993.

**28. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 34(4)(b) yn darparu ar gyfer rhoi testun newydd yn lle'r testun cyfredol o fewn y diffiniad o "long lease". Mae is-baragraff (ii) yn cyfeirio at "paragraph (a), ond yn dilyn diwygio'r paragraffau o fewn y diffiniad, mae'n ymddangos bod hyn yn anghywir, a dylai gyfeirio yn lle hynny at "sub-paragraph (i)".

**29. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 34(4)(b) yn darparu ar gyfer amnewid testun o fewn y diffiniad o "long lease", ac yn mewnosod yn benodol y testun "has the meaning given by paragraph 8 of Schedule 2 to the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1)". Mae paragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 2016 yn defnyddio'r term "tenantiaeth hir" ( neu "long tenancy"), ac mae'n ymddangos yn briodol cyfeirio at y term hwnnw yn y testun a fewnosodwyd.

**30. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Rheoliad 33(12)(a), mewnosodir y diffiniad o "contract meddiannaeth" ar ôl y diffiniad o "ceisydd". Mewn man arall yn y Rheoliadau hyn, mae'r ymadrodd "yn y lle priodol yn nhrefnyr wyddor, mewnosoder" wedi'i ddefnyddio wrth gyflwyno diffiniadau newydd. Byddai'n ymddangos yn fwy priodol yma i ddefnyddio'r dull olaf hwnnw, gan fod y testun Cymraeg a

Saesneg yn cyflwyno'r diffiniad newydd ar ôl gwahanol ddiffiniadau oherwydd trefn wahanol y diffiniadau yn nhestunau'r ddwy iaith.

**31. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Rheoliad 34(4)(b), mae'r diwygiad sy'n dechrau "yn y diffiniad o "long lease"..." wedi ei rifo'n anghywir fel is-baragraff (b). Ymddengys mai paragraff (iii) ddylai hwn fod, gan ei fod hefyd yn diwygio diffiniad a geir yn adran 88(1).

Yn sgil hyn, mae'n ymddangos bod is-baragraff (c) hefyd wedi'i rifo'n anghywir ac y dylai fod yn is-baragraff (b) (oherwydd y cyfeirnod anghywir cynharach).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**32. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliad 1 yn darparu y datgenir bod rhannau amrywiol o reoliad 25 yn dod i rym unwaith y daw adran 120 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 i rym, a pharagraffau amrywiol o Atodlen 8 iddi. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol na'r Nodiadau Esboniadol yn rhoi unrhyw arwydd o ba bryd y disgwylir i'r darpariaethau hyn ddod i rym. Gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth yn hyn o beth.

**33. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Er bod y Pwyllgor yn nodi nad ydynt yn rhan o'r Rheoliadau hyn eu hunain, canfuwyd dros 50 o wallau yn y troednodiadau i'r Rheoliadau hyn a rhoddwyd gwybod i swyddogion Llywodraeth Cymru am hyn mewn nodyn ar wahân. Mae troednodiadau yn ddefnyddiol i ddarllenwyr deddfwriaeth dim ond i'r graddau y maent yn gywir ac felly mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn gywir.

**34. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Wrth adolygu'r diwygiadau hyn, mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn ymddangos nad yw Llywodraeth Cymru, mewn sawl achos, wedi cadw at ei chanllawiau drafftio ei hun, fel y nodir yn "Drafftio Deddfau i Gymru". Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gadw at ei safonau ei hun wrth ddrafftio deddfwriaeth.

**35. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi:

*"Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol oherwydd mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae'r Rheoliadau hyn yn eu gwneud."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r holl bwyntiau adrodd ar wahan i bwynt 35.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022***

Pwyntiau Craffu Technegol 1, 2, 4, 5, 6 (ond gweler yr ymateb isod), 7 i 17, 19, 20 i 24, 26, 28 i 31:

*Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei ddiwydrwydd ac mae wedi ystyried y pwyntiau a godwyd. Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol wedi'u tynnu'n ôl, eu cywiro (mewn perthynas â'r Pwyntiau Adrodd a restrir uchod) a'u hailosod.

Pwynt Craffu Technegol 3:

*Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen mewnosod "in England" ar ôl yr ail achos lle y mae "dwelling-house" yn ymddangos yn adran 1(1) o Ddeddf Tai 1988. Yn ein barn ni, mae'n amlwg o'r diwygiad arfaethedig i adran 1(1) o Ddeddf 1988 mai ystyr tŷ annedd "*dwelling-house*" yn y cyd-destun hwnnw yw tŷ annedd yn Lloegr. Yn ein barn ni, nid oes angen diwygiad.

Pwynt Craffu Technegol 6 (yn rhannol):

*Ymateb*

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi nodi bod gwall yn y dyfynodau agoriadol a'r dyfynodau cloi o amgylch y geiriad sydd i'w fewnosod gan reoliad 11(25). Mae Llywodraeth Cymru yn anghytuno ac o'r farn bod y dyfynodau mewn perthynas ag 11(25) yn gywir.

Pwynt Craffu Technegol 18:

*Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod rheoliad 22(4)(b) yn gywir. Diffinnir y term "fundamental provision" yn adran 18 o Ddeddf 2016 ac mae'r cyfeiriad at adran 19 wedi'i gynnwys er mwyn cynorthwyo'r darllenydd. Cadarnheir y dull hwn gan y Mynegai a welir yn adran 253 o Ddeddf 2016.

Pwynt Craffu Technegol 25:

*Ymateb*

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai rheoliad 32 (sy'n gwneud diwygiadau i Ddeddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013) wneud diwygiadau i'r termau "tenants" na "tenancy" (i gynnwys cyfeiriad at "contract-holder" ac "occupation contract"). Gan fod y darpariaethau hyn yn ymwneud â throseddau, mae'r drafftio presennol yn adlewyrchu bwriad polisi Llywodraeth Cymru na ddylid estyn y darpariaethau i bersonau sy'n rhentu cartref yng Nghymru o dan drwydded (a fyddai'n digwydd yn sgil cynnwys cyfeiriad at "contract-holder" ac "occupation contract"). Dim ond i gontractau

meddiannaeth sy'n denantiaethau y dylent barhau i fod yn gymwys. Yn ogystal, mae'r diwygiadau i'r darpariaethau o dan Ddeddf Diogelu Defnyddwyr 2015 (fel y'u diwygir gan Reoliad 34) i gynnwys "contract-holder" ac "occupation contract" yn adlewyrchu bwriad polisi Llywodraeth Cymru i estyn y diogeliadau o dan y darpariaethau perthnasol i bob deiliad contract fel nad oes gwahaniaeth rhwng tenantiaethau a thrwyddedau.

Pwynt Craffu Technegol 27:

*Ymateb*

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai rheoliad 33(2) gyfeirio at gyfran tenant. Mae'r drafftio presennol yn adlewyrchu'r geiriad yn y diffiniad o "tenantiaeth ddomestig" a nodir yn adran 2(1)(a)(ii) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 32:

*Ymateb*

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wybodaeth ynghylch pryd y daw darpariaethau perthnasol Deddf Tai a Chynllunio 2016 i rym.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 33:

*Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei ddiwydrwydd ac mae wedi ystyried y pwyntiau a godwyd o ran y troednodiadau. Mae'r Offeryn Statudol wedi'i dynnu'n ôl, ei gywiro (yn enwedig mewn perthynas â'r pwyntiau penodol a godwyd ynghylch troednodiadau) a'i hailosod.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 34:

*Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei ddiwydrwydd ac yn nodi'r sylwadau a wnaed. Gwneir ymdrech i gadw at y canllawiau drafftio a nodir yn "Drafftio Deddfau i Gymru" lle bynnag y bo modd.

Eitem 7.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022** |
| **DYDDIAD** | **15 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS/MS**<br>**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau'r Senedd am fod yn ymwybodol ein bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Bydd yr Offeryn Statudol (OS) uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(a) ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Yr effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru:**

Mae creu pwerau cydamserol newydd yn cyfyngu'r Senedd wrth arfer ei chymhwysedd deddfwriaethol (ar y sail bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 11 o Atodlen 7B i ddileu'r swyddogaethau hyn).

Mae'r gofyniad i gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i ddileu unrhyw un o swyddogaethau Gweinidogion y Goron wedi'i ddiwygio gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021 ('Gorchymyn 2021'). Diwygiodd Gorchymyn 2021 Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddileu'r gofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion y Goron os yw Gweinidogion Cymru yn addasu neu'n dileu swyddogaeth Ysgrifennydd Gwladol o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff 11(6) i Atodlen 7B ac yn cynnwys unrhyw un o swyddogaethau Gweinidog y Goron sydd i unrhyw raddau yn 'arferadwy yn gydamserol' pan fo'r swyddogaeth honno'n bodoli i unrhyw raddau yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan adrannau 8 i 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Cafodd y rheoliadau eu gosod gerbron Senedd y DU ar 13 Gorffennaf 2022 a byddant yn dod i rym 21 o ddiwrnodau yn ddiweddarach.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**011 – Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 18 Gorffennaf 2022*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Ydy |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 19 Gorffennaf 2022 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 13 Medi 2022 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn mewn maes datganoledig.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro nifer o ddiffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i datganoli ymhlith pethau eraill, er mwyn gwneud i'r gyfraith honno weithio mewn cyd-destun domestig.

Mae llawer o'r diffygion sy'n cael eu cywiro yn gymharol fach. Er enghraifft:

- Newidir cyfeiriadau at Aelod-wladwriaethau i gyfeiriadau at awdurdod cymwys. Er enghraifft, yn hytrach na rhoi dewis i Aelod-wladwriaethau ynghylch pryd i gymryd samplau llaeth, mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi dewis i awdurdodau cymwys ynghylch pryd i gymryd samplau llaeth. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys yng Nghymru.

- Newidir cyfeiriadau at arbenigwyr o'r gymuned i arbenigwyr a benodir gan yr awdurdod cymwys.

- Newidir cyfeiriadau at y Gymuned i gyfeiriadau at Brydain Fawr.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod newidiadau eraill yn fwy arwyddocaol, yn benodol newidiadau i ddau Benderfyniad gan y Gymuned Ewropeaidd sy'n ymwneud â mewnforio cynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion pysgodfeydd o UDA.

Ar hyn o bryd, rhaid i fewnforion o'r fath ddod gyda thystysgrif iechyd yn unol â ffurflen enghreifftiol a nodir mewn deddfwriaeth. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, bydd yn rhaid i fewnforion o'r fath, yn hytrach, ddod gyda thystysgrif iechyd **ar ffurf a gyhoeddir gan yr awdurdod priodol o bryd i'w gilydd.**

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru (ac awdurdodau priodol eraill ym Mhrydain Fawr) ynghylch ffurf tystysgrifau iechyd y mae’n rhaid iddynt ddod gyda mewnforion cynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion pysgodfeydd o UDA, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i fewnforion o'r fath ddod gyda thystysgrif iechyd yn unol â ffurflen enghreifftiol a nodir mewn deddfwriaeth.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar 15 Gorffennaf 2022:

- Nid yw'r datganiad ysgrifenedig yn crynhoi diben y Rheoliadau, fel y bo'n ofynnol gan Reol Sefydlog 30C.3(i). Nid oes disgrifiad o'r hyn y mae'r Rheoliadau yn ei wneud.

- Nid yw'r datganiad ysgrifenedig yn egluro pam y mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn mewn maes datganoledig, fel y bo'n ofynnol gan Reol Sefydlog 30C.3(iii).

- Mae'r datganiad ysgrifenedig yn cyfeirio at ddiwygio Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, er mwyn dileu'r gofyniad am

gydsyniad Llywodraeth y DU "*os yw Gweinidogion Cymru yn **addasu neu'n dileu** swyddogaeth Ysgrifennydd Gwladol*". Fodd bynnag, diwygiwyd Atodlen 7B dim ond o ran **dileu** swyddogaeth Ysgrifennydd Gwladol; nid oedd y diwygiad i Atodlen 7B yn cynnwys **addasu** swyddogaethau o'r fath.

- Mae'n ymddangos bod y dyfyniad hwnnw o'r datganiad ysgrifenedig hefyd yn cyfuno Gweinidogion Cymru a'r Senedd – mae Atodlen 7B yn berthnasol i Ddeddfau gan y Senedd yn unig, ac nid i swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

O ran defnyddio'r pwerau hyn mewn meysydd datganoledig, mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn dweud na fydd y pwerau'n cael eu defnyddio i ddeddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig. Nid yw'n glir i ba raddau y mae'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd. Gallai rhai ddadlau bod newid ffurf tystysgrif iechyd yn gyfystyr â pholisi newydd. Gallai eraill ddweud mai'r polisi yn syml yw i fewnforion ddod gyda thystysgrifau iechyd, ac nad yw'r polisi hwnnw'n newid. Hynny yw, mae'n anodd diffinio beth yw polisi newydd.

Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol hefyd yn dweud mai prif ddiben defnyddio'r pwerau hyn fydd 'effeithlonrwydd gweinyddol'. Fodd bynnag, nid yw datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn dweud dim am yr effeithlonrwydd gweinyddol y mae'r Rheoliadau hyn yn ei gyflawni. Heb ragor o wybodaeth ynglŷn â sut y bydd y tystysgrifau iechyd newydd yn gweithio, mae'n amhosibl gwybod a fydd y Rheoliadau yn cyflawni effeithlonrwydd gweinyddol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Gorffennaf 2022**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol** |
| **DYDDIAD** | **12 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Ar 29 Mehefin, cynrychiolodd y Prif Weinidog a minnau Lywodraeth Cymru yn ail gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol. Ymunodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, a Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, â ni ar gyfer y drafodaeth ar Gostau Byw.

Cafodd y cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Sefydlog ei gadeirio gan John Swinney ASA, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Adfer wedi Covid, ar ran Llywodraeth yr Alban.

Cyhoeddwyd **cyd-hysbysiad** (Saesneg yn Unig) yn dilyn y cyfarfod ac mae'n cynnwys manylion llawn y rhai a oedd yn bresennol. Roedd yr eitemau ar yr agenda yn cynnwys: rhaglen ddeddfwriaethol bresennol Senedd y DU; y cynnydd mewn costau byw; a'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran sefydlu Grwpiau Rhyngweinidogol.

Mewn perthynas â’r eitem ar yr agenda ar raglen ddeddfwriaethol bresennol y DU, cafodd y cynnydd cadarnhaol a wnaed tuag at gytuno ar ddulliau gweithio ac ymgysylltu gwell eu croesawu gennym. Er gwaethaf hynny, tynnais sylw unwaith eto at achosion annerbyniol yn y gorffennol o dorri Confensiwn Sewel ac o ymgysylltu annerbyniol ar ran Llywodraeth y DU ar nifer o Filiau sy’n perthyn i’r rhaglen ddeddfwriaethol bresennol. Roedd y rhain yn cynnwys Bil Protocol Gogledd Iwerddon, y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio a'r Bil Hawliau. Wrth wneud hynny, pwysleisiais bwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar ar Filiau'r DU yn y dyfodol a galwais am sicrwydd oddi wrth Lywodraeth y DU y byddent yn parchu Confensiwn Sewel.

Mewn perthynas â'r eitem ar Gostau Byw, roedd y trafodaethau yn cynnwys y mesurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU a'r heriau cyffredin a wynebir ar draws Llywodraeth y DU a’r llywodraethau datganoledig. Rhoddodd yr eitem hon gyfle i Weinidogion Cymru bwysleisio pa mor bwysig ydyw cynnal trafodaethau adeiladol ynghylch rhannu cyfrifoldeb dros sicrhau marchnad lafur wydn, ynghyd â phwysigrwydd cefnogi aelwydydd a busnesau. Tynnwyd sylw gennym hefyd at y ffaith bod angen canolbwyntio’n fwy eto ar heriau hirdymor.

Nododd y Gweinidogion y cynnydd hyd yma o ran sefydlu Grwpiau Rhyngweinidogol, a’r rhagolwg ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol. Disgwylir i'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol gael ei gynnal nesaf ym mis Medi. Yn unol â’r trefniadau cylchdroi, Llywodraeth Cymru fydd yn cadeirio’r cyfarfod nesaf.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

12 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Yn dilyn fy llythyr 17 Mehefin, rwyf wedi cyhoeddi **Datganiad Ysgrifenedig** Gweinidogol yn crynhoi'r trafodaethau a gafwyd yn y cyfarfod.

Fel rhan o'r Datganiad hwnnw, rwyf wedi cadarnhau y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn cael ei gynnal ym mis Medi o dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru, yn unol â'r trefniadau ar gyfer cylchdroi'r sawl sy'n cadeirio. Byddaf yn darparu diweddariad ysgrifenedig ar drefniadau'r cyfarfod nesaf maes o law, a fydd yn cynnwys y dyddiad a'r eitemau sy'n debygol o fod ar yr agenda.

Yn sgil eich llythyr dyddiedig 27 Mehefin, bydd copïau o'r ohebiaeth ynghylch cyfarfodydd y dyfodol yn cael eu hanfon i Bwyllgorau eraill y Senedd, os bydd eitemau ar yr agenda (a diweddariadau cyfarfodydd dilynol) yn debygol o fod yn rhan o'u cylch gwaith. Felly, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-1797-22

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

12 Gorffennaf 2022

Annwyl Paul,

**Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc) 2022 ar 12 Gorffennaf 2022.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud mân ddiwygiadau technegol i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol, er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Ceir crynodeb o'r diwygiadau isod:

- Mae Rhan 2 o'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau o ran gweithrediad i is-ddeddfwriaeth yn Lloegr sy'n ymwneud â marchnata hadau a deunyddiau plannu ffrwythau i gyfeiriadau at yr UE nad ydynt bellach yn briodol, ac na chawsant eu hystyried mewn offerynnau diwygio cynharach. Mae’r diwygiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

- Mae Rhan 3 o'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau amrywiol o ran gweithrediad i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, sy'n gymwys mewn perthynas â Phrydain Fawr sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid, bwyd ac iechyd planhigion. Ni chafodd y rhan fwyaf ohonynt eu hystyried mewn offerynnau diwygio cynharach, tra bod rhai yn cywiro mân wallau technegol. Mae’r diwygiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â’r UE.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae'r rhan fwyaf o'r diwygiadau er mwyn newid cyfeiriadau at yr UE, megis cyfeiriadau at yr Undeb a'r Aelod-wladwriaethau, yn y ddeddfwriaeth Ewropeaidd wreiddiol i iaith Prydain Fawr ac awdurdodau perthnasol ym Mhrydain Fawr, yn ogystal â dileu darpariaethau diangen nad ydynt bellach yn gymwys ym Mhrydain Fawr.

- Mae Rhan 4 o'r offeryn hwn yn dirymu dau benderfyniad a ddargedwir a rheoliad a ddargedwir ym maes iechyd planhigion, nad ystyrir bellach eu bod yn angenrheidiol.

Hoffwn dynnu'ch sylw at y ffaith bod Rheoliadau 7 a 9 yn creu swyddogaethau cydredol.

Mae'r newidiadau'n cynnwys dileu'r model Tystysgrifau Iechyd Allforio (EHCs) o atodiadau'r ddeddfwriaeth berthnasol a rhoi ffurflen a gyhoeddir gan yr Awdurdod Priodol o bryd i'w gilydd ("*a form published by the Appropriate Authority from time to time*") yn eu lle, sy'n golygu bod newidiadau yn y dyfodol i'r model EHCs yn dod yn broses weinyddol.

Cymeradwywyd swyddogaethau cydredol tebyg ym maes Iechyd a Lles Anifeiliaid yn flaenorol ar y sail bod budd cyffredin i bob gweinyddiaeth wrth gymhwyso dulliau cydlynol o atal clefydau. Mae'n gwneud synnwyr arfer y swyddogaethau hyn ar y cyd oherwydd bod angen iddynt weithio i'r DU gyfan, neu Brydain Fawr (lle mae rhyddid i symud). At hynny, cânt eu harfer yng nghyd-destun Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cyffredin y DU sydd ar waith.

Mae'n bwysig nodi bod Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer i beidio â rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i gyhoeddi eu Tystysgrifau Iechyd Allforio eu hunain ar gyfer anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid sy'n dod i mewn i Gymru. Fodd bynnag, mae swyddogion yn rhagweld mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai hyn yn digwydd. Felly, mae'r swyddogaeth gydredol hon yn briodol ac mae'n adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd mewn deddfwriaeth a phrosesau gweinyddol eraill i gyhoeddi Tystysgrifau Iechyd Allforio eraill ar gyfer mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid i Brydain Fawr gyfan.

Fel arfer, polisi Llywodraeth Cymru yw deddfu ar gyfer Cymru mewn materion lle y mae cymhwysedd wedi'i datganoli. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau mae manteision o gydweithio â Llywodraeth y DU lle mae sail resymegol glir dros wneud hynny. Yn yr achos hwn, rwyf yn rhoi fy nghaniatâd i'r Rheoliadau hyn, sy'n gwneud cywiriadau mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, ac i sicrhau cysondeb a chydlyniant o ran y llyfr statud. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn ac nid oes unrhyw wahaniaeth mewn polisi ar hyn o bryd. Mae ein safbwynt ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo yn gyson â safbwynt Llywodraeth y DU.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Eitem 8.3

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/00737/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

14 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw,

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, gallaf adrodd i'r Aelodau fy mod wedi mynychu cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 4 Gorffennaf.

Nid oeddwn yn gallu rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarfod gan ei fod wedi'i alw ar fyr rybudd gan Lywodraeth y DU.

Aeth y Gwir Anrhydeddus Michael Ellis QC AS, Tâl-feistr Cyffredinol a Gweinidog Swyddfa'r Cabinet i'r cyfarfod hefyd, a Neil Gray MSP, Gweinidog Diwylliant, Ewrop a Datblygu Rhyngwladol Llywodraeth yr Alban. Roedd swyddog o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yn bresennol fel sylwedydd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol oherwydd ei ddiddordeb mewn pynciau a drafodwyd yn y cyfarfod.

Fel y nodwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig, nid yw dyddiad y cyfarfod nesaf wedi'i gytuno eto. Fodd bynnag, rhoddaf wybod ichi am y dyddiad cyn gynted ag y caiff ei gadarnhau, os gallaf wneud hynny, ynghyd â'r agenda debygol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar
https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyfarfod-y-grwp-rhyngweinidogol-ar-gysylltiadau-rhwng-y-du-ar-ue

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyfarfod y Grwp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE** |
| **DYDDIAD** | **14 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi** |

Cynrychiolais Lywodraeth Cymru mewn cyfarfod rhithwir o'r Grŵp Rhyngweinidogol (IMG) ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 4 Gorffennaf. Roedd y Gwir Anrhydeddus Michael Ellis QC AS yn y cyfarfod, Tâl-feistr Cyffredinol a Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, a Neil Gray MSP, Gweinidog Diwylliant, Ewrop a Datblygu Rhyngwladol Llywodraeth yr Alban. Roedd uwch swyddog o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yn bresennol fel sylwedydd.

Roedd yr agenda yn cynnwys eitemau ar gynnydd a blaenoriaethau yn ymwneud â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) a Bil Protocol Gogledd Iwerddon. Trafodwyd cyfraith yr UE a ddargedwir am gyfnod byr hefyd.

Yn fy ymateb i'r wybodaeth ddiweddaraf am y TCA, roeddwn yn datgan bwysigrwydd ein cyfraniad parhaus at Raglenni'r UE gan gynnwys Horizon Europe ac, ar fasnachu trydan, codais fater diogelwch hirdymor a'r cyfle i fasnachu ag Iwerddon. Trafodais hefyd dwf Technoleg Ariannol yng Nghymru. Mynegais bwysigrwydd dychwelyd i'r bwrdd trafod i ddatrys problemau.

O ran Mesur Protocol Gogledd Iwerddon, codais fater y diffyg ymgysylltu â'r Llywodraethau Datganoledig cyn ei gyflwyno a hefyd feysydd sy'n peri pryder.

Ni chadarnhawyd dyddiad cyfarfod nesaf yr IMG, ond cytunodd pawb fod angen cyfarfod ar ôl yr haf.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

20 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw

Hoffwn roi gwybod i aelodau'r Pwyllgor am roi caniatâd i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Diwygio) 2022.

Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Gallai'r darpariaethau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer ein pwerau ein hunain. Bydd y Rheoliad yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am ganiatâd wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Caiff y Rheoliadau eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 38 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020.

Mae swyddogion, fel rhan o Grŵp Polisi Iechyd Anifeiliaid Dyfrol y DU, wedi bod yn ystyried gweithrediad y ddeddfwriaeth ddomestig ac a ddargedwir, er mwyn gwella'r gyfundrefn i'w gwneud yn fwy hyblyg, effeithlon a llai beichus. Nodwyd nifer o welliannau gan gynnwys galluogi newidiadau yn gyflymach i'r Rhestrau canlynol:

i. rhestrau o rywogaethau anifeiliaid dyfrol sy'n gweithredu fel fectorau ar gyfer clefydau anifeiliaid dyfrol rhestredig;
ii. rhestrau o rywogaethau anifeiliaid dyfrol sy'n gallu dal clefydau rhestredig; a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

iii. y rhestrau o rywogaethau y gellir eu mewnforio i Brydain Fawr o wledydd penodol, yn ogystal â pharthau o fewn y gwledydd hyn y gellir eu mewnforio ohonynt.

Bydd y diwygiadau'n diogelu statws iechyd anifeiliaid dyfrol Prydain Fawr yn well, ac yn lleihau'n sylweddol yr adnoddau sydd eu hangen i wneud y newidiadau hyn.

Mae deddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf Pysgodfeydd yn dod o dan 'eithriad' yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021, felly ni fyddai creu'r swyddogaethau cydredol plws hyn yn effeithio ar allu'r Senedd i ddeddfu yn y maes hwn yn y dyfodol, pe bai'n dymuno gwneud hynny.

Disgwylir i'r Rheoliad gael ei osod gerbron y Senedd ar 19 Gorffennaf 2022 gyda dyddiad cychwyn o 15 Awst 2022.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i sylwedd y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru gan nad oes unrhyw wahaniaeth mewn polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau'n hygyrch mewn un offeryn. Rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol ac na fyddai ychwaith yn ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Guernsey** |
| **DYDDIAD** | **21 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog** |

Ar 7/8 Gorffennaf, mynychais y 37ain cyfarfod o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, a gafodd ei gynnal gan Lywodraeth Guernsey. Roedd y Gweinidog Newid Hinsawdd hefyd yn bresennol, gan ymuno â'r cyfarfod o bell.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Peter Ferbrache, Prif Weinidog Llywodraeth Guernsey. Roedd y cynrychiolwyr eraill a oedd yn bresennol yn cynnwys Micheál Martin TD, Taoiseach Iwerddon, y Gwir Anrh Nicola Sturgeon ASA, Prif Weinidog yr Alban, y Seneddwr John Le Fondré, Prif Weinidog Jersey, Alfred Cannan MHK, Prif Weinidog Ynys Manaw a'r Gwir Anrh Conor Burns AS, y Gweinidog Gwladol dros Ogledd Iwerddon.

Cyn  prif gyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, cymerais ran mewn trafodaeth gyda phenaethiaid eraill y ddirprwyaeth ar yr argyfwng Costau Byw. Manteisiwyd ar y cyfle i rannu ein pryderon mwyaf dybryd, gan gynnig enghreifftiau o'r camau gweithredu y mae ein Llywodraethau yn eu cymryd a nodi'r meysydd lle yr oedd angen cymryd camau pellach. Fel rhan o hyn, pwysleisiais yr angen i gymryd camau gweithredu ar yr annhegwch pan fo cwsmeriaid ynni ar fesuryddion rhagdalu hefyd yn wynebu ffioedd sefydlog.

Cynllunio Gofodol Cydweithredol oedd thema'r cyfarfod hwn o'r Cyngor. Cymerodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ran yn rhithwir mewn trafodaeth ryngweinidogol adeiladol lle rhannwyd llawer o wybodaeth am y pwnc hwn cyn y cyfarfod o'r Cyngor, a thrafodwyd y mater yn y Cyngor hefyd. Nododd y Cyngor gyfleoedd posibl i adfywio ein trefi a'u gwneud yn fannau lle mae pobl am fyw, cynnal busnes, a threulio eu hamser hamdden, gan gyflawni ar yr un pryd amrediad o ganlyniadau ehangach sy'n cynnwys datblygu cynhwysol, mynd i'r afael â'r newid hinsawdd, cefnogi adferiad gwyrdd a hybu teithio llesol a chynaliadwy.

At hynny, trafododd y Cyngor y datblygiadau gwleidyddol diweddaraf gan gynnwys: yr argyfwng costau byw, yn enwedig ym meysydd tanwydd a thai; y berthynas barhaus â'r UE, a'r sefyllfa bresennol sy'n peri pryder o ran Protocol Gogledd Iwerddon; newid hinsawdd; y datblygiadau yn Wcráin a'r heriau parhaus a achosir gan y pandemig COVID-19.

Wrth gyfrannu at y drafodaeth hon, amlygais nifer o feysydd y mae angen iddynt barhau ar frig rhestr blaenoriaethau'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig:

- yr argyfwng costau byw a'r angen am gamau pellach sylweddol i gefnogi aelwydydd sy'n agored i niwed sy'n cael trafferth gyda chostau cynyddol
- Wcráin, a'r rheidrwydd parhaus i gefnogi ffoaduriaid sy'n ffoi rhag y gwrthdaro
- effaith barhaus COVID-19, a fydd yn parhau i roi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus ac y mae angen sicrhau bod cynlluniau effeithiol ar y cyd ar waith ar gyfer y gaeaf sy'n dod
- effeithiau pryderus Brexit gan gynnwys ar fasnach a phorthladdoedd Cymru, a'r angen am welliannau yn y fasnach a'r berthynas ehangach rhwng y DU a'r UE
- newid hinsawdd, sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth drosfwaol i bob Llywodraeth ac yn faes lle na ellir cyfaddawdu ar draul y cenedlaethau sydd i ddod wrth ymateb i faterion newydd.

Soniais yn fyr hefyd am ddatblygiadau gwleidyddol yn Llywodraeth y DU, a'r angen i'r Prif Weinidog nesaf ailosod perthnasoedd yn seiliedig ar ddeialog gynhyrchiol a pharchus.

Cyhoeddwyd Hysbysiad ar y cyd ar ôl y cyfarfod, sydd ar gael yn:

https://www.britishirishcouncil.org/bic/summits

Cyhoeddodd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020/21 ym mis Mehefin, sydd ar gael yn:

https://www.britishirishcouncil.org/

Bydd Uwchgynhadledd nesaf y Cyngor yn cael ei chynnal gan Lywodraeth y DU.

Caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Os hoffai'r Aelodau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ar hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddaf yn hapus i wneud hynny.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

21 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yng Nghymru**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf, ynghylch y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Guernsey a'r Drafodaeth Weinidogol am y sector gwaith Cynllunio Gofodol Cydweithredol, hoffwn dynnu eich sylw at fy natganiad ysgrifenedig heddiw, ac at hysbysiad y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd a'r Drafodaeth Weinidogol.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,

Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.Irranca-Davies@senedd.cymru

4 Awst 2022

Annwyl Huw,

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, hoffwn eich hysbysu y cafodd cyfarfod arall Grŵp Rhyngweinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ei gynnal ar 20 Gorffennaf yn ystod Sioe Frenhinol Cymru.

Yn bresennol yn y cyfarfod oedd Edwin Poots ACD, Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Cynulliad Gogledd Iwerddon; George Eustice AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth y DU; David TC Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru; yr Arglwydd Malcolm Offord, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol i Swyddfa'r Alban; Mairi McAllan, Gweinidog yr Amgylchedd a Diwygio Tir, Llywodraeth yr Alban; a Mairi Gougeon, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban.

Cadeiriais gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol lle wnes i gyflwyno cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trafododdd y Gweinidogion hefyd oblygiadau goresgyniad Wcráin a'r costau cynyddol ehangach ar fusnesau amaethyddol, a chafwyd cyflwyniad ar waith modelu effaith chwyddiant ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru. Nodais fod Llywodraethau'n gweithio'n dda ar lefel swyddogion, ac awgrymais y byddai'n dda pe gallai Llywodraethau wneud rhagor o waith modelu a dadansoddi ar y cyd. Codais innau hefyd gyda Llywodraeth y DU a ellid symud ymlaen â chamau ynghylch TAW ar ddiesel coch a gwrteithiau.

Ar ôl hynny, trafodwyd cyfraith yr UE a ddargedwir a'r Bil Rhyddid yn sgil Brexit, pan nododd Llywodraeth y DU y rhesymeg dros y ddeddfwriaeth. Codwyd pryderon ynghylch sut yr eid i'r afael ag agweddau datganoledig ar y Bil.

Trafodwyd y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) hefyd, yn enwedig y goblygiadau i Weinyddiaethau Datganoledig a'r angen am lawer mwy o ymgysylltu.

Wedyn trafododd y Gweinidogion ddatblygiad Model Gweithredu Targed y ffiniau ar gyfer archwiliadau ar y ffin yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar amserlenni gweithredu, pwysigrwydd bioddiogelwch, a'r dull arfaethedig 'masnachwr yr ymddiriedir ynddo'.

Hefyd, rhannodd Llywodraeth y DU yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ynghylch Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol COP15 a'r uwchgynhadledd arfaethedig ym Montreal yn hwyrach eleni.

Yn olaf, cadarnhaodd Llywodraeth y DU fod yr eithriad o ran plastigau untro bellach wedi'i ganiatáu mewn perthynas â Ddeddf y Farchnad Fewnol.

Gwnaethom gytuno y bydd ein cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun, 12 Medi yn yr Alban.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Caiff hysbysiad ynghylch y cyfarfod hwn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach** |
| **DYDDIAD** | **09 Awst 2022** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi** |

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, gallaf adrodd i Aelodau fy mod yn bresennol yn y Fforwm Gweinidogol dros Fasnach ar 5 Gorffennaf 2022.

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd;

- Y Gwir Anrh Penny Mordaunt AS, Gweinidog Gwladol Polisi Masnach
- Ivan McKee, Gweinidog Busnes, Masnach, Twristiaeth a Menter yr Alban
- Gordon Lyons, Gweinidog Gweithredol Gogledd Iwerddon dros yr Economi

Y Fforwm Gweinidogol dros Fasnach yw'r prif fforwm i drafod materion polisi masnach rhwng Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

Yn y fforwm, cytunais ar y cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y grŵp gan dynnu sylw at ein cefnogaeth eang i drafodaethau cytundeb masnach rydd Llywodraethau'r DU. Codais hefyd bwysigrwydd cysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod arbenigedd a buddiannau yn cael eu cynrychioli mewn cytundebau masnach a hefyd mewn cytundebau eraill sy'n effeithio ar fasnach, fel y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gyrhaeddwyd gyda gwladwriaethau unigol yr Unol Daleithiau.

Wedi cytuno ar y cylch gorchwyl diwygiedig, bydd y Fforwm Gweinidogol dros Fasnach nawr yn trosglwyddo i'r Grŵp Rhyng-weinidogol (Masnach) dros Fasnach ond yn parhau i wasanaethu'r un swyddogaeth. Mi fydd hysbysiad ar y cyd yn cael ei gyhoeddi ar dudalen Llywodraeth y DU ar y we.

Bydd y Grŵp Rhyng-weinidogol (Masnach) yn cwrdd eto yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau. Os bydd aelodau am i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddLJC@senedd.cymru

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomy@senedd.wales

8 Awst 2022

Annwyl Paul, Huw,

Rwy'n ysgrifennu ymhellach at fy llythyr ar 4 Gorffennaf ac yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, i'ch hysbysu fy mod wedi mynychu'r Fforwm Gweinidogol ar Fasnach ar 5 Gorffennaf.

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd Penny Mordaunt, Y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach; Ivan McKee, Gweinidog yr Alban dros Fusnes, Masnach, Twristiaeth a Menter; a Gordon Lyons, Gweinidog Gweithredol Gogledd Iwerddon dros yr Economi.

Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd a chytunwyd ar gylch gorchwyl diwygiedig y grŵp. Roedd diweddariadau hefyd ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth bod trafodaethau'r Adran Fasnach Ryngwladol wedi dod i ben gyda rhai gwladwriaethau'r Unol Daleithiau yn ogystal â diweddariad ar drafodaethau masnach rydd y DU-India.

Ategais fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi masnach ryngwladol a bod gennym, yma yng Nghymru, lawer iawn o arbenigedd y gellir ei ddefnyddio i gefnogi trafodaethau, yn enwedig mewn perthynas â'r Unol Daleithiau sy'n farchnad bwysig i Gymru.

Pwysleisiais hefyd ein pryderon mewn perthynas â lles a safonau anifeiliaid o ran India ac y na ddylai Llywodraeth y DU greu sefyllfa annheg.

Sylwer, yn dilyn cytundeb y cylch gorchwyl diwygiedig, bydd y grŵp nawr yn trosglwyddo i'r Grŵp Rhyngweinidogol (Masnach) ond bydd yn parhau i gyflawni'r un swyddogaeth. Mi fydd hysbysiad ar y cyd yn cael ei gyhoeddi ar dudalen Llywodraeth y DU ar y we.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto i'ch hysbysu am ddyddiad y cyfarfod nesaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder ac Ymgynghori
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

19 Awst 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ar 25 Gorffennaf 2022 ynglŷn â chaniatâd Rheoliadau Rheoli Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Archwiliadau) 2022 (y Rheoliadau Amlder Gwirio) a'r ddadl lawn y cafodd y cwestiynau canlynol eu codi o ganlyniad iddi:

***1.Pa ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid Cymru ynghylch y Rheoliadau Amlder Gwirio a'r newid polisi a weithredwyd ganddynt?***

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cychwynnol gyda rhanddeiliaid ar y dull o benderfynu pa mor aml y dylid cynnal archwiliadau mewnforio ar iechyd planhigion sy'n peri risg rhwng 26 Mai - 4 Awst 2021 ac fe'i targedwyd at aelodau'r Fforwm Cynghori ar Iechyd Planhigion, sy'n cynnwys rhanddeiliaid yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad yn ystyried lefelau gwiriadau adnabod ac archwiliadau corfforol sydd eu hangen ar nwyddau iechyd planhigion wedi'u rheoleiddio a fewnforiwyd i Brydain.

Cynhaliwyd ymgynghoriad dilynol rhwng 3 Rhagfyr 2021 a 28 Ionawr 2022 ar ddull diwygiedig, o ganlyniad i ymatebion i'r ymgynghoriad cychwynnol.

Cysylltodd swyddogion Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid o Gymru yn uniongyrchol ar yr ymgynghoriad dilynol, gan gynnwys FUW, Tyfu Cymru/Grow Wales a Grŵp Tystiolaeth a Chynghori Cymru ar Iechyd Planhigion sy'n cynrychioli amrywiaeth o randdeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys diwydiant.

***2.Pa bryderon a godwyd, os cafwyd rhai o gwbl, gan y rhanddeiliaid hyn a sut yr ymdriniwyd â hwy?***

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cychwynnol yn gefnogol ar y cyfan i drefn gwirio sy'n canolbwyntio ar risg ym Mhrydain. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bryderon am wahardd planhigion ar gyfer plannu o'r dull arfaethedig a gallai'r oedi cyn i nwyddau o'r UE elwa o'r cynnig hwn. I fynd i'r afael â'r pryderon hyn roedd yr ail ymgynghoriad yn cynnwys methodoleg ddiwygiedig a oedd yn berthnasol i ystod lawer ehangach o nwyddau, gan gynnwys planhigion ar gyfer plannu yn ogystal â chynnyrch (e.e., ffrwythau, llysiau a blodau wedi'u torri).

Cefnogodd rhanddeiliaid Cymru y cysyniad o'r dull sy'n seiliedig ar risg o archwiliadau a chefnogi adolygu amlder yr archwilio. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad gwnaeth Grŵp Tystiolaeth a Chynghori Cymru ar Iechyd Planhigion (WPHEAG) yr awgrymiadau neu ymholiadau canlynol:

| **Sylw WPHEAG** | **Sut yr aethpwyd i'r afael â hyn** |
|---|---|
| Efallai y bydd angen ailystyried yr amodau y mae pasbortau planhigion a thystysgrifau ffytoiechydol yn cael eu rhoi oddi tanynt, os bydd archwiliadu yn llai rheolaidd. | Bydd Grŵp Risg Iechyd Planhigion y DU yn adolygu'r risgiau'n barhaus i fioddiogelwch planhigion a nodi camau sydd eu hangen i liniaru'r risgiau mwyaf arwyddocaol. Mae'r rhain yn cynnwys cadw ein trefn reoleiddio'n gyfredol, cynnal gwyliadwriaethau ac archwiliadau â ffocws, cynllunio wrth gefn, ymchwil, a chodi ymwybyddiaeth yn ogystal â nodi meysydd lle na fyddai ymyrraeth yn ddefnyddiol neu'n gyfiawn. |
| Argymhelliad bod dulliau archwilio yn cael eu hadolygu a'u hymchwilio. Mae angen dyrannu adnoddau i ddatblygu dulliau arolygu newydd sy'n defnyddio'r technolegau diweddaraf. | Cydnabuwyd hyn yn y ddogfen ymateb i ymgynghoriad. Fel Gwasanaeth Iechyd Planhigion y DU, byddwn yn ceisio gwella gwasanaethau diagnostig rheng flaen. |
| Y dylid cyhoeddi manylion y dulliau a ddefnyddir i sefydlu amleddau arolygiadau. | Rhoddwyd sylw i hyn drwy fanylion y dulliau sy'n cael eu cynnwys yn y rheoliad ei hun. |

***3.A allwch egluro a yw'r newidiadau polisi hyn yn ymwneud â fframwaith cyffredin iechyd planhigion ac, os felly, a oeddent yn cael eu hystyried trwy brosesau fframwaith perthnasol?***

Mae'r newidiadau polisi hyn yn ymwneud â fframwaith cyffredin iechyd planhigion a chadwyd at y prosesau a nodir o fewn y fframwaith wrth eu datblygu. Roedd hyn yn cynnwys y newidiadau arfaethedig i amlder y drefn wirio sy'n cael ei thrafod gan grwpiau o fewn strwythur y fframwaith. Roedd hyn yn cynnwys y Fforwm Cynghori ar Iechyd Planhigion a drafododd y cynigion ym mis Hydref 2021 a Grŵp Risg Iechyd Planhigion y DU ym mis Chwefror 2022, y mae swyddogion LlC a gwledydd eraill y DU yn eu mynychu.

***4. A allwch egluro a yw'r Rheoliadau Amlder Gwirio yn dod o fewn cwmpas Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020?***

Cyn y bydd modd gwerthu planhigyn ym Mhrydain Fawr bydd angen bodloni rhai gofynion rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n cael eu nodi yn y Rheoliadau Amlder Gwirio, sy'n ymwneud â mewnforio planhigion. Mae Cymru, Lloegr a'r Alban yn dewis cael yr un Rheoliadau Amlder Gwirio ac nid oes unrhyw wahaniaeth yn y dull gweithredu. Gan fod UKIMA yn berthnasol i werthu nwyddau a gwasanaethau efallai y bydd rhai planhigion sy'n cael eu mewnforio ac sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau Amlder Gwirio yn cael eu gwerthu mewn rhannau eraill o Brydain Fawr oherwydd UKIMA.

***5. A allwch gadarnhau bod y Rheoliadau Amlder Gwirio yn arwain at ymwahaniad o safonau'r UE a oedd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio ac esbonio sut y bydd unrhyw oblygiadau o'r ymwahaniad hwn yn cael eu hasesu?***

Mae'r Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban, ac yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE yr argymhelliad oedd cadw'r dull targedu risg, a ddefnyddiwyd yn yr UE. Pan fydd y rheoliadau yn eu lle bydd lefel y gwiriadau'n cael eu hadolygu'n flynyddol a gellir eu diwygio ar i fyny neu i lawr yn ôl yr angen i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn lefel y risg, a fyddai'n arwain at fod yn wahanol i'r UE. Byddai unrhyw dystiolaeth o risg difrifol i iechyd planhigion yn arwain at gymryd camau mwy brys y tu allan i'r broses adolygu flynyddol (e.e. cynyddu lefelau archwilio ar unwaith). Bydd unrhyw oblygiadau o'r gwahaniaeth i'r UE yn cael eu hasesu gan Grŵp Risg Iechyd Planhigion y DU.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Legislation, Justice and Constitution Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

25 Gorffennaf 2022

Annwyl Julie

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Mehefin pan wnaethoch roi gwybod i ni am eich bwriad i gydsynio i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022 (y Rheoliadau Amlder Gwiriadau) a osodwyd wedyn yn Senedd y DU ar 30 Mehefin 2022. Gwnaethom ystyried eich llythyr yn ein cyfarfod ar 4 Gorffennaf, ac yna ar 11 Gorffennaf, gwnaethom ystyried eich llythyr dyddiedig 5 Gorffennaf lle y cadarnhawyd eich bod wedi rhoi eich cydsyniad. Fel y crybwyllwyd yn y ddadl ar y Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022 cysylltiedig, mae'r gyfres hon o reoliadau yn amlygu cymhlethdod deddfu yng Nghymru ar ôl i ni adael yr UE. Byddem yn ddiolchgar felly pe baech yn ateb y cwestiynau a ganlyn:

1. Pa ymgynghori a fu â rhanddeiliaid o Gymru ar y Rheoliadau Amlder Gwiriadau a'r newid polisi a weithredir ganddynt?

2. Pa bryderon, os o gwbl, a godwyd gan y rhanddeiliaid hyn, a sut yr aethpwyd ati i ymdrin â nhw?

3. A allwch egluro a yw'r newidiadau polisi hyn yn ymwneud â'r fframwaith cyffredin ar iechyd planhigion ac, os felly, a gawsant eu hystyried fel rhan o brosesau'r fframwaith perthnasol?

4. A allwch egluro a yw'r Rheoliadau Amlder Gwiriadau yn dod o fewn cwmpas *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*?



Senedd Cymru
Welsh Parliament

5. A allwch gadarnhau bod y Rheoliadau Amlder Gwiriadau yn arwain at ymwahanu o safonau’r UE a oedd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio, ac egluro sut y caiff unrhyw oblygiadau yn sgil yr ymwahanu hwn eu hasesu?

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 22 Awst 2022.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Datganiad ynghylch cynnydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru** |
| **DYDDIAD** | **15 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Ym mis Mai, gwnaethom ddarparu adroddiad cynnydd ar waith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, gan ymrwymo i ddarparu adroddiad pellach yn yr haf.

Mae gwybodaeth am waith y Comisiwn ers fy natganiad diwethaf wedi'i chynnwys yn yr adroddiad cynnydd diweddaraf a ddarparwyd gan y Cydgadeiryddion https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2022.

Byddwn yn rhoi diweddariad pellach i'r Aelodau yn yr hydref.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Eitem 9.2

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

18 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw,

**Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Goblygiadau ariannol**

Yn ein cyfarfod ar 7 Gorffennaf, trafododd y Pwyllgor Cyllid Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ("y Bil"). Fel y gwyddoch, mae'n arfer safonol i'r Pwyllgor Cyllid graffu ar oblygiadau ariannol Biliau a gyflwynir i'r Senedd. Fodd bynnag, gan mai Bil cydgrynhoi yw'r Bil hwn, mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi gofynion penodol sy'n wahanol i'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i Filiau cyhoeddus.

Yn benodol, ni all Biliau cydgrynhoi arwain at gostau sylweddol ychwanegol. Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil gynnwys datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol yn cadarnhau nad yw darpariaethau'r Bil yn arwain at unrhyw wariant sylweddol ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru, ac os yw Bil yn arwain at wariant ychwanegol, rhaid iddo nodi'r amcangyfrifon gorau ar gyfer hyn.

Gan hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd rhai costau trosiannol bach yn gysylltiedig â gweithredu'r Bil, os caiff ei basio, yn benodol costau trosiannol o tua £50,000 a fydd yn cael eu hymestyn ar draws y cyfnod gweithredu (2023-26). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ymhellach: "Ni ddisgwylir i'r Bil arwain at unrhyw gostau ychwanegol ar ôl y cyfnod gweithredu".

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Gan nad yw'r Bil yn arwain at gostau sylweddol, mae'r Pwyllgor Cyllid yn credu y byddai'n fwy priodol i'ch Pwyllgor chi ystyried goblygiadau ariannol y Bil hwn fel rhan o'ch gwaith craffu. Os oes tebygolrwydd y bydd costau ychwanegol yn codi, ac eithrio'r costau trosiannol a nodwyd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
senedddcc@senedd.cymru

27 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw,

Hoffwn ddiolch i chi ac Aelodau'r Pwyllgor am ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd mewn perthynas â Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU.

Rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar 28 Mehefin ac rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi cytuno â'r asesiad o'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd a'i bod yn briodol i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer Cymru.

Nodaf yn eich adroddiad mai barn y Pwyllgor oedd y dylai'r Memorandwm fod wedi cyfeirio at y ffaith bod y pŵer i wneud rheoliadau a ddarperir i Weinidogion Cymru yng nghymal 175(5) o'r Bil drafft yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Roedd y rhesymeg dros ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol a ddarparwyd gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Swyddfa Gartref i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio fel a ganlyn:

- *341. This delegated power is considered necessary to allow the legislation to be updated to address changes in the education system. These are Henry VIII powers and as such the draft affirmative procedure is most appropriate. The draft affirmative procedure will offer a high level of parliamentary scrutiny and oversight while still ensuring that Ministers or Departments can keep the legislation up to date.*
- *342. Removing, adding or amending Schedule 1 Part 2 could increase regulatory burdens on a particular description of education or childcare. It is therefore important that Parliament and the respective devolved administrations have the opportunity to debate such changes to the scope of the regulatory framework.*

Credaf felly ei bod yn briodol bod y pŵer i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru o dan gymal 175(5) o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o ddarparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru (a geir yn Rhan 2 o Atodlen 1) a fydd wedi'u heithrio rhag cael eu rheoleiddio o dan y Bil. Mae pŵer Harri VIII yn galluogi diwygio deddfwriaeth sylfaenol gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, a allai effeithio ar gymhwyso darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â materion datganoledig. O ystyried natur pwerau Harri VIII, ystyrir y dylent fod yn destun digon o graffu gan y Senedd. Felly, mae'r weithdrefn gadarnhaol yn addas.

Hyderaf fod y llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar y Pwyllgor.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Llywydd@senedd.wales

27 Gorffennaf 2022

Annwyl Elin,

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (DPDI) i Dŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf. Pwrpas y llythyr hwn yw eich hysbysu am oedi wrth osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil DPDI. Mae nifer o resymau am hyn sy'n ymwneud yn bennaf â chymhlethdod y Bil, ei hyd a golwg hwyr y Bil drafft.

Cred Llywodraeth y DU fod hwn yn ddarn pwysig a chymhleth o ddeddfwriaeth sy'n cyffwrdd â nifer o feysydd polisi, fel y dengys Teitl Hir y Bil:

> *A Bill to make provision for the regulation of the processing of information relating to identified or identifiable living individuals; to make provision about services consisting of the use of information to ascertain and verify facts about individuals; to make provision about access to customer data and business data; to make provision about privacy and electronic communications; to make provision about services for the provision of electronic signatures, electronic seals and other trust services; to make provision about the disclosure of information to improve public service delivery; to make provision for the implementation of agreements on sharing information for law enforcement purposes; to make provision about the keeping and maintenance of registers of births and deaths; to make provision about information standards for health and social care; to establish the Information Commission; to make provision about oversight of biometric data; and for connected purposes.*

Mae'r Bil ei hun yn 194 tudalen o hyd ac yn cwmpasu sawl maes polisi a chyfrifoldebau Gweinidogol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Derbyniodd fy swyddogion olwg gyntaf ar y Bil drafft yn ei gyfanrwydd ar 15 Gorffennaf ac fe dderbyniodd Gweinidogion Cymru hwnnw hefyd ar yr un diwrnod. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y byddan nhw'n gofyn am ganiatâd deddfwriaethol gan Senedd Cymru mewn perthynas â thri mesur o fewn y Bil - Mesurau Data Clyfar; Porth Rhannu Data Deddf yr Economi Ddigidol; a'r Platfform Rhybuddion Gorfodi Cyfraith Ryngwladol (I-LEAP).

Mae cyfreithwyr Llywodraeth Cymru wrthi'n dadansoddi'r Bil er mwyn asesu a ydyn ni'n cytuno â'r meysydd cymhwysedd sydd wedi'u datganoli, a byddwn yn darparu cyngor i Weinidogion cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib. Er ein bod yn disgwyl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd, yn anffodus bydd hyn y tu allan i'r dyddiad cau arferol o bythefnos ar gyfer Gorchymyn Sefydlog 29 oherwydd y rhesymau a amlinellir uchod. Fodd bynnag, byddwn yn gosod cyn diwedd cyfnod y toriad.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at y Prif Weinidog, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gweinidog yr Economi a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Llywodraethiant Cymru
Wales Governance Centre

Mr Huw Irranca-Davies MS
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Dr Robert Jones
Wales Governance Centre
School of Law and Politics
Law Building
Cardiff University
Museum Avenue
CF10 3AX

Email: [redacted]
Tel: [redacted]

28 July 2022

Annwyl Mr Irranca-Davies,

The Wales Governance Centre at Cardiff University has been researching the topic of criminal justice in Wales for almost a decade. This research has helped to uncover a range of issues including those relating to sentencing and imprisonment, alternative criminal justice models, the legal economy, and the 'jagged edge' of justice in Wales. Over the past four years our work has also identified clear evidence of racial disproportionality within the Welsh criminal justice system. While it is true that Ministers and Members of the Senedd have referred to our findings on racial disproportionality, there has been no substantial scrutiny of those findings to date.

The purpose of this letter is to express my view that the Legislation, Justice and Constitution Committee should carry out an inquiry into racial disproportionality within the criminal justice system in Wales. To further underline the case for an in-depth inquiry I have provided a brief summary of some of the key areas of concern that I feel are worthy of further consideration. The points below include previously unpublished data.

**Policing**

- Home Office data show that there is a disproportionate use of stop and search on Black, Asian and Minority Ethnic (BAME) communities in Wales. In 2020/21, there were 23 stop and searches per 1,000 BAME people in Wales, compared with 8 searches per 1,000 White people. There were 56 stop and searches per 1,000 Black (or Black British) people in Wales in 2020/21, 18 per 1,000 for Mixed groups and 16 per 1,000 individuals from an Asian background.

- Data on the number of times police tactics were used show that individuals from a BAME background were overrepresented in police use of force statistics in 2020/21. While the 2011 Census found that 4.4 per cent of the Welsh population belonged to a BAME ethnic group, 9.8 per cent of all incidents of police restraint were against individuals from a BAME ethnic background in 2020/21.

- Individuals belonging to a BAME ethnic group in Wales were also overrepresented within police use of 'Less lethal weapons' in 2020/21. 6.6 per cent of all incidents where a Conducted Energy Device (i.e. a TASER) was used by Welsh forces was against someone from a BAME background in 2020/21.[1]

- 6.2 per cent all arrests made by Welsh police forces in 2020/21 were individuals from a BAME background. Despite comprising 0.6 per cent of the general population, 2.6 per cent of all those arrested in 2020/21 belonged to a Black ethnic group.

**Courts and Sentencing**

- The Lammy Review in 2017 found that individuals from a BAME background were less likely to enter guilty pleas due to a lack of trust in the criminal justice system. Disaggregated data obtained from the Ministry of Justice show that a slightly higher proportion of White defendants (82.5 per cent) pleaded guilty at the Crown Court in 2019 compared to individuals from a BAME (80.9 per cent) background.

- Although the number of children first entering the criminal justice system has fallen in Wales, the rate has declined unevenly across different ethnic groups since 2010. While the number of White children first entering the criminal justice system in Wales fell by 87 per cent, the number of Asian children declined by 69 per cent and those from Black backgrounds fell by 59 per cent.

- Individuals from a Black (76 per cent), Asian (75 per cent) and Mixed (70 per cent) ethnic group recorded a higher custody rate at the Crown Court in Wales than White (64 per cent) defendants in 2019.

[1] This total includes all incidents including where a CED device is drawn, aimed, arced, red-dot, drive-stun, fired and angle drive-stun.

- Those from BAME backgrounds are also more likely to receive longer custodial sentences than those belonging to a White ethnic group. Between 2013 and 2020, the average custodial sentence length in Wales was higher for Black (26.7 months), Asian (26.4 months) and Mixed (26.4 months) offenders sentenced in Wales than for those from White (16.7 months) ethnic groups.

**The Prison and Probation Population**

- Since 2017, the number of BAME prisoners from Wales (based on home address prior to entering custody) has marginally increased (1 per cent) while the overall Welsh prison population has fallen by 7 per cent.

- In 2021, there were 79 Black people from Wales in prison for every 10,000 of the population. This rate compared to just 14 White people per 10,000 of the population. There were 21 Asian people in prison per 10,000 and 44 people from a Mixed background per 10,000 in prison in 2021.

- Individuals from Black and Mixed ethnic groups are over-represented amongst the probation population in Wales. For every 10,000 Black people living in Wales 129 were under probation supervision in 2021. This compared to a rate of 45 per 10,000 for individuals from a White background, 40 for Asian and 85 for those from a Mixed ethnic group.

- The Ministry of Justice's most recent *Ethnicity and the Criminal Justice System* report found that Black prisoners are consistently more likely to serve a higher proportion of their determinate sentences in prison than any other ethnic group. Disaggregated data show that between 2015 and 2018, Mixed prisoners from Wales (63 per cent) served a higher proportion of their determinate sentences in prison followed by Black (61 per cent), White (57 per cent) and Asian (57 per cent) prisoners.

While criminal justice is reserved to the UK Government, the Welsh Government has a clear set of responsibilities for promoting equality and tackling all forms of discrimination in Wales. The overlap and intersection between the reserved and devolved areas means that this topic has yet to receive any kind of serious analysis or scrutiny. The lack of publicly available Welsh-only criminal justice data has only added to the problem of effective oversight. The Ministry of Justice's own *Ethnicity and the Criminal Justice System* report, for example, fails to provide a disaggregated picture for Wales and

England, while the Lammy review in 2017 also focussed exclusively upon trends in 'England and Wales'.

As it currently stands, there is no clear or authoritative understanding of how different communities across Wales experience and interact with the criminal justice system. It is also unknown what steps could and should to be taken by the Welsh Government to promote fairness and tackle discrimination within the criminal justice system. I believe that the points outlined above underscore just how important an inquiry into racial disproportionality within the Welsh criminal justice system is at this time.

I would like to take this opportunity to thank you for your time in considering this letter. If you wish to discuss this subject further or require any additional information please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely,

Dr Robert Jones

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

1 Awst 2022

Annwyl Huw,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Caffael

Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2022, trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ei ddull ar gyfer craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Caffael. Fel y gwyddoch, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu ar y cyd â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i godi nifer o gwestiynau am y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi gwahodd y Gweinidog i drafod y cwestiynau hyn ymhellach fel rhan o sesiwn dystiolaeth lafar a drefnwyd ar gyfer 10.00 tan 11.00 fore Mercher 21 Medi 2022. Mae'n bleser gennyf wahodd holl Aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'r sesiwn a byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau drwy'r Clercod a fyddwch chi ac Aelodau eraill eich Pwyllgor yn gallu bod yn bresennol.

Cofion cynnes,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eitem 9.7

Department for Business, Energy & Industrial Strategy

**Rt Hon Kwasi Kwarteng MP**
**Secretary of State**
**Department for Business, Energy & Industrial Strategy**
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

T +44 (0) 20 7215 5000
E enquiries@beis.gov.uk
W www.gov.uk

Huw Irranca-Davies
Chair,
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru

1 August 2022

Dear Huw,

Thank you for your letter, dated 21 July, seeking clarity about the UK Government's intention regarding the "potential repeal" of the Trade Union (Wales) Act 2017.

Employment and industrial relations are clearly reserved matters, something that the Wales Act 2017 put beyond doubt. There are good reasons for this, not least as many businesses and important public services operate across borders. It is important that both employers and employees have a clear framework to follow that applies equally across all parts of Great Britain.

This is why we are committed to taking steps to override the provisions of the Trade Union (Wales) Act 2017 when parliamentary time allows.

The Government made these intentions clear including when the Trade Union (Wales) Bill was passed by the National Assembly for Wales and the then Secretary of State for Wales (the Rt Hon Alun Cairns MP) wrote to the Assembly's Chief Executive and Clerk in August 2017. Given this commitment to remove the provisions in the Trade Union (Wales) Act 2017 has been Government policy for five years, we did not consider it necessary to take advantage of the new intergovernmental arrangements to discuss it with the Welsh Government.

We will, of course, look to engage on this further once a suitable legislative vehicle has been identified. I very much hope that the new intergovernmental arrangements will support that engagement at the appropriate time.

Yours sincerely,

Kwasi Kwarteng

**RT HON KWASI KWARTENG MP**
Secretary of State for Business, Energy & Industrial Strategy

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

8 Medi 2022

Annwyl Gadeirydd

**Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Gorffennaf yn amgáu eich llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Ni fydd Rheoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogi a Busnesau Cyflogaeth (Diwygio) 2022 yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, mae'r Memorandwm Esboniadol yn ailddatgan safbwynt gelyniaethus hirsefydlog Llywodraeth y DU mewn perthynas â Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 a'i dyhead ffiaidd i ddileu'r Ddeddf pan fydd amser Senedd y DU yn caniatáu.

Rydym wedi egluro wrth Lywodraeth y DU y byddai cam o'r fath yn gyfan gwbl annerbyniol, ac yn cael ei ddehongli'n eang yng Nghymru i fod yn amharchus yn ei hanfod, a hynny nid yn unig o ddatganoli ond o ddeddfwriaeth a basiwyd gan Senedd Cymru. Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio'r cyfleoedd a gyflwynir drwy'r trefniadau Cysylltiadau Rhynglywodraethol, gan gynnwys yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, i godi'r mater hwn a materion eraill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Credwn fod gosod cyfyngiadau llymach ar undebau llafur yn gam mawr am yn ôl, ac ni fydd yn gwneud dim i gyfoethogi bywydau pobl sy'n gweithio nac i wella'r amgylchedd cysylltiadau diwydiannol cyffredinol.  Yng Nghymru, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac mewn ysbryd o gydweithredu a pharch at ein gilydd – byddwn yn parhau i weithio yn y modd hwnnw.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Kwasi Kwarteng AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a
Strategaeth Ddiwydiannol

21 Gorffennaf 2022

Annwyl Kwasi

Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â *Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017*, a basiwyd gan y Senedd ar 18 Gorffennaf 2017.

Mewn llythyr atom ym mis Ebrill, dywedodd y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, y cyn Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol, wrthym y byddai'r trefniadau rhynglywodraethol newydd yn cychwyn cyfnod newydd o gydweithio rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig.

Mae paragraff 7.5 o'r Memorandwm Esboniadol drafft i'r Rheoliadau drafft Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth (Diwygio) 2022, a gyhoeddwyd ar 27 Mehefin 2022, yn nodi:

> *"Section 2 of the Trade Union (Wales) Act 2017 prohibits a devolved Welsh authority from hiring a worker supplied by an employment business for the purpose of replacing staff who are on strike or participating in other industrial action. Since the passage of the Trade Union (Wales) Act 2017, the Wales Act 2017 has clarified that industrial relations is a reserved matter. As previously stated in 2017, the UK Government intends to legislate to remove the Trade Union (Wales) Act 2017 through primary legislation when Parliamentary time allows, to ensure trade union legislation applies equally across Great Britain."*

Byddai'r posibilrwydd o Ddeddf y Senedd yn cael ei diddymu gan Senedd y DU yn ddigwyddiad cyfansoddiadol arwyddocaol—a digynsail.

Byddem wedi disgwyl, o leiaf, y byddai'r posibilrwydd o ddiddymu Deddf a basiwyd gan y Senedd wedi cael lle amlwg yn y trafodaethau rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Yn y Senedd ar 28 Mehefin, dywedodd y Prif Weinidog:

> *"Yn gyntaf oll, Llywydd, gadewch i mi ddweud hyn, mae Llywodraeth y DU yn amharchus iawn, iawn—amharchus iawn tuag at ddatganoli, amharchus tuag at y Senedd hon—wrth iddi, ddoe, smyglo allan, mewn memorandwm esboniadol, nid hyd yn oed yn y datganiad a wnaethon nhw, eu bwriad i geisio diddymu darnau o ddeddfwriaeth a basiwyd drwy'r ddeddfwrfa hon. Dim gair ymlaen llaw, dim llythyr i ddweud mai dyma yr oedden nhw'n bwriadu ei wneud, ac, oni bai am lygaid barcud pobl yn edrych i weld beth yr oedden nhw'n bwriadu ei wneud, yna ni fyddem yn gwybod amdano heddiw, na fyddem ni?"*

Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech:

- egluro bwriadau Llywodraeth y DU ynghylch y posibilrwydd o ddiddymu *Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017*,
- egluro pam nad yw Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r trefniadau rhynglywodraethol newydd i drafod y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru;
- egluro a ydych yn bwriadu ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac os felly, pryd y mae hynny'n debygol o ddigwydd; a
- rhoi eich sylwadau ar y goblygiadau sydd gan fwriadau Llywodraeth y DU o safbwynt cyfansoddiadol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Tâl-feistr Cyffredinol a Gweinidog Swyddfa'r Cabinet.

Rwyf hefyd yn dod â hyn at sylw y Prif Weinidog, yn ogystal â Phwyllgorau seneddol eraill yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adroddiad Gwerthuso gan y Comisiwn Etholiadol ar Gynlluniau Peilot Etholiadol Cymru** |
| **DYDDIAD** | **02 Awst 2022** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Rwy'n falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran y cynlluniau peilot etholiadol a gafodd eu cyflawni yng Nghymru fel rhan o etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2022.

Nod y cynlluniau peilot oedd dod â'r blwch pleidleisio yn nes at fywydau pob dydd y bobl. Roeddent yn gam tuag at sicrhau bod etholiadau yng Nghymru mor hygyrch ag y bo modd, a bod pawb sydd am bleidleisio yn gallu gwneud hynny. Cawsant eu cynllunio o fewn y fframwaith a amlinellais mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Gorffennaf 2021: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-fframwaith-ar-gyfer-diwygio-etholiadol

Cafodd y cynlluniau peilot hyn eu datblygu drwy gydweithredu agos rhwng yr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, ynghyd â chyfraniad amhrisiadwy'r Comisiwn Etholiadol a'r gymuned etholiadol ehangach. Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu holl waith caled, yn enwedig y pedwar awdurdod lleol a wnaeth gynllunio'r cynlluniau peilot a'u cynnal:

**Blaenau Gwent** – roedd Parth Dysgu Glynebwy, sydd mewn lleoliad canolog, yn orsaf bleidleisio ymlaen llaw i holl breswylwyr y sir, gan gynnwys myfyrwyr y coleg a oedd yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau. Roedd modd pleidleisio ymlaen llaw ar y dydd Mawrth a'r dydd Mercher cyn diwrnod yr etholiad;

**Pen-y-bont ar Ogwr** - mewn rhai wardiau lle mae canran isel o bobl yn bwrw eu pleidlais, roedd gorsafoedd pleidleisio ar agor ar y dydd Mawrth a'r dydd Mercher cyn diwrnod yr etholiad fel y gellid pleidleisio ymlaen llaw. Hefyd, cafodd gorsaf bleidleisio ymlaen llaw newydd ei chreu mewn ysgol ar y dydd Mawrth cyn diwrnod yr etholiad, a hynny i fyfyrwyr cofrestredig yr ysgol honno a oedd yn gymwys i bleidleisio yn y wardiau o dan sylw;

**Caerffili** – roedd pencadlys y cyngor yn Ystrad Mynach yn orsaf bleidleisio ymlaen llaw ar gyfer holl breswylwyr y sir ar y penwythnos cyn diwrnod yr etholiad;

**Torfaen –** roedd swyddfeydd y cyngor ym Mhont-y-pŵl yn orsaf bleidleisio ymlaen llaw ar gyfer holl breswylwyr y sir ar y penwythnos cyn diwrnod yr etholiad.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Comisiwn Etholiadol werthuso cynlluniau peilot etholiadol, ac yn arbennig a yw'r cynllun peilot:

- wedi helpu i'w gwneud yn haws pleidleisio neu gyfrif y pleidleisiau
- wedi helpu i gynyddu'r ganran a bleidleisiodd
- wedi helpu i hwyluso pleidleisio
- wedi arwain at ostyngiad neu gynnydd mewn twyll etholiadol
- wedi arwain at ostyngiad neu gynnydd yng nghost yr etholiad

O ganlyniad, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi gwerthuso cynlluniau peilot mis Mai 2022, ac mae ei adroddiad, sydd wedi'i gyhoeddi heddiw, ar gael yma:

https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/ein-safbwyntiau-hymchwil/ein-hymchwil/gwerthusiad-cynlluniau-peilot-pleidleisio-ymlaen-llaw

Mae gwerthusiad y Comisiwn Etholiadol yn adlewyrchu'r ffaith bod y cynlluniau peilot arloesol hyn wedi'u rhedeg yn dda ac nad oedd unrhyw fater wedi codi o'u cynnal. Roedd y cofrestrau electronig a gafodd eu treialu yn gweithio'n dda ac yn galluogi'r gweinyddwyr i ddarparu gorsafoedd pleidleisio â sawl lleoliad ar yr un pryd. Yn ôl y disgwyl, ni wnaeth y cynlluniau peilot gynyddu'r ganran a bleidleisiodd yn sylweddol, ond gwnaethant ddangos bod modd darparu ffyrdd hyblyg a mwy cyfleus o bleidleisio drwy ddulliau diogel a chan ennyn hyder pleidleiswyr.

Bydd y gwersi sydd wedi'u dysgu o'r cynlluniau peilot a'r gwerthusiad yn llywio gwelliannau yn y tymor hwy i'r ffordd y mae pobl yn pleidleisio, ac yn helpu i leihau'r diffyg democrataidd. Rwy'n edrych ymlaen at ymgynghori ar ein cynigion yn y misoedd nesaf.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Os bydd yr Aelodau am imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad SeneddDCC@senedd.cymru

John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
SeneddTai@senedd.cymru

cc. David Rees AS, Cadeirydd Pwyllgor y Llywydd

2 Awst 2022

Annwyl Huw, John,

Rwy'n ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau peilot etholiadol a gyflawnwyd yng Nghymru fel rhan o etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2022.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Comisiwn Etholiadol werthuso pob cynllun peilot etholiadol a gynhelir yng Nghymru. O ganlyniad, mae wedi gwerthuso'r cynlluniau peilot a gynhaliwyd ym mis Mai 2022, ac mae ei adroddiad, a gyhoeddwyd heddiw, ar gael yma:

https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/ein-safbwyntiau-hymchwil/ein-hymchwil/gwerthusiad-cynlluniau-peilot-pleidleisio-ymlaen-llaw

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Senedd am y cynnydd a wnaed. Mae'r datganiad ar gael yma:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adroddiad-gwerthuso-gan-y-comisiwn-etholiadol-ar-gynlluniau-peilot

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

4 Awst 2022

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr ar 30 Mehefin ynghylch fy ymddangosiad yn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 20 Mehefin. Roeddwn yn croesawu'r cyfle i siarad â'r Pwyllgor am yr ystod helaeth o faterion a gwmpaswyd. Rwyf wedi darparu ymateb manwl i'ch cwestiynau pellach mewn Atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

**Y broses cydsyniad deddfwriaethol**

1. *Wrth ymrwymo i'w chytundeb cydweithio â Phlaid Cymru, diwygiodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu bum mlynedd. O ystyried bod cynsail yn bodoli o ran cyhoeddi diwygiadau i'r Rhaglen, a oes unrhyw reswm pam na ddylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariadau rheolaidd a fyddai'n rhoi eglurder ynghylch pa Lywodraeth a pha Senedd fydd yn deddfu er mwyn cyflawni ymrwymiadau penodol?*

Rydym wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ein bwriad o ran defnyddio Biliau'r DU, ac rydym wedi gwneud hyn, er enghraifft, drwy ddatganiadau ysgrifenedig am ein gwaith gyda Llywodraeth y DU ar y Bil Caffael. Fodd bynnag, nid wyf yn credu ei bod yn addas gwneud diwygiadau i'r Rhaglen Lywodraethu bob tro y bydd Senedd y DU yn gwneud deddfwriaeth mewn perthynas â Chymru.

Fel yr amlinellais yn fy llythyr ar 17 Mehefin, nid yw Llywodraeth Cymru fel arfer yn mynd at Lywodraeth y DU yn bwrpasol i geisio darpariaethau datganoledig ym Miliau'r DU. Fel y nodais, yn aml, pan wneir darpariaeth ddatganoledig yn un o Filiau'r DU, mae Llywodraeth y DU wedi cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru gynnwys darpariaeth o'r fath. Proses ailadroddol yw hon yn aml, pan fyddwn yn trafod darpariaethau â Llywodraeth y DU yn gyfrinachol, gyda'r bwriad o ganfod ffordd ymlaen a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i argymell wrth y Senedd ei bod yn pleidleisio o blaid rhoi cydsyniad deddfwriaethol, pan fo modd. Fel y dangoswyd gan sesiwn flaenorol Senedd y DU, nid yw'n anghyffredin i'r safbwynt terfynol hwnnw o ran argymell cydsynio gael ei gyrraedd yn hwyr mewn hynt Bil. Nid wyf felly o'r farn y byddai proses o ddiweddaru'r Rhaglen Lywodraethu er mwyn rhannu'r math hwn o wybodaeth yn ymarferol, gan nodi hefyd y diweddariadau amserol yr ydym yn ceisio'u rhoi i'r Senedd a'i Phwyllgorau perthnasol.

2. *Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer pob blwyddyn o fewn tymor pum mlynedd yn y Senedd. Gwnaethoch ddweud wrthym y byddai'r cyhoeddiad nesaf ar 5 Gorffennaf. Gan gydnabod y posibilrwydd y gallai cyhoeddiadau deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod yn destun amserlen wahanol, dylai fod yn ymarferol rhoi syniad, yn y cyhoeddiad blynyddol, o'r gwaith rhynglywodraethol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar Filiau'r DU, lle mae Llywodraeth Cymru yn ceisio darpariaethau ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig. A oes unrhyw reswm pam na ddylai Llywodraeth Cymru gynnwys y wybodaeth hon yn ei datganiadau deddfwriaethol blynyddol, gan ddarparu hefyd ddiweddariadau tymhorol yn ôl yr angen?*

Fel yr amlinellir uchod, ni fyddem yn mynd ati'n aml i geisio darpariaeth i Gymru yn rhagweithiol; mae'n broses fwy adweithiol yn aml. Yn yr achosion hynny pan fu inni geisio darpariaeth, neu pan fyddwn yn bwriadu cytuno ar ddarpariaeth ym Miliau'r DU, mae'n ymrwymiad gennyf sicrhau bod y Senedd yn parhau i gael ei hysbysu pan ddaw'r cyfle ystyrlon cyntaf, yn hytrach na chynnwys gwybodaeth yn y datganiad deddfwriaethol blynyddol.

3. *O ran y gwaith deddfu y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ei hun ar gyfer Cymru, gwnaethoch nodi nad yw capasiti o fewn Llywodraeth Cymru yn broblem, o ran y pethau yr ydych am eu gwneud (Cofnod y Trafodion 44 a 46). A yw hyn yn golygu y bydd*

*Llywodraeth Cymru, i bob pwrpas, yn dyrannu adnoddau i nifer benodol o Filiau ac yna'n manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir iddi i ddefnyddio Biliau'r DU i gyflawni amcanion deddfwriaethol eraill nad ydynt eisoes wedi'u nodi (neu nad ydynt wedi'u blaenoriaethu)?*

Ydy, i'r graddau y mae ein rhaglen ddeddfwriaethol wedi'i chynllunio i gyflawni uchelgeisiau'r Rhaglen Lywodraethu, ac felly mae'n anochel ein bod yn ceisio sicrhau bod capasiti yn ei le i gefnogi'r gwaith hwnnw. Roedd ein hegwyddorion yn nodi, pan fyddai deddfwriaeth y DU yn briodol i Gymru ond nad oes amser i gyflwyno'i thebyg yn y Senedd, y byddem yn ystyried defnyddio un o Filiau'r DU. Mae hwn yn safbwynt ymarferol, sy'n sicrhau ein bod yn cyflawni dros bobl Cymru ac yn defnyddio'r adnodd a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y modd gorau. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid yw Llywodraeth Cymru fel arfer yn mynd at Lywodraeth y DU yn bwrpasol i geisio darpariaethau datganoledig ym Miliau'r DU.

4. *Yn eich llythyr dyddiedig 20 Ebrill gwnaethoch ddweud: Felly, rydym yn penderfynu beth yw'r ffordd orau o wneud hynny drwy ddeddfwriaeth y Senedd a Senedd y DU, gan ystyried blaenoriaethau a chapasiti ein rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain a hefyd y cyfleoedd a'r risgiau posibl sy'n deillio o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Pe na baem ond yn cyflawni ein blaenoriaethau drwy ddeddfwriaeth y Senedd, yn hytrach na mynd ar drywydd set ehangach o flaenoriaethau drwy'r ddwy raglen ddeddfwriaethol, byddem yn cyflawni llai ar gyfer pobl Cymru."*
    - ***i.*** *A fyddech yn cytuno bod y llythyr hwn yn rhoi darlun gwahanol i'r farn a fynegwyd gennych wrth roi tystiolaeth, sef nad yw capasiti ac adnoddau yn rhwystr i'r broses o gyflwyno Biliau Cymreig (Cofnod y Trafodion 42-46)?*
    - ***ii.*** *O ystyried y sylwadau yn eich llythyr, ac os oes gan Lywodraeth Cymru yr adnoddau i wneud yr hyn y mae am ei wneud, a yw'n iawn i feddwl bod angen cymorth llywodraeth wahanol a senedd wahanol ar Lywodraeth Cymru i greu a phasio deddfau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru?*

Nid wyf yn credu bod fy sylwadau yn rhoi darlun gwahanol i'r safbwynt a nodir yn y llythyr. Yn fy sylw i'r Pwyllgor, dywedais (Cofnod y Trafodion 44), "*So, the resources are there and the skills are there in terms of the Government's own legislative programme, in terms of the things that we want to do*". Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod ein Rhaglen Ddeddfwriaethol, pan gaiff ei chyflwyno gennym, wedi'i seilio ar waith blaenoriaethu a chynllunio o ran yr arbenigedd a chapasiti'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Biliau, yn ogystal â'r amser sydd ar gael yn y Senedd. Mae fy llythyr yn cyfeirio at y penderfyniadau a wnawn mewn perthynas â deddfwriaeth Senedd y DU gan ystyried blaenoriaethau a chapasiti ein rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain.

Ar ben hynny, ni fyddai'n gywir dod i'r casgliad y dewch iddo yn ail ran y cwestiwn. Ein hegwyddorion ynghylch deddfwriaeth y DU yw'r sail ar gyfer pryd y byddwn, o bosibl, yn ystyried defnyddio Biliau'r DU. Gall fod amgylchiadau pan fo hynny'n briodol – er enghraifft, fel yr amlinellir yn ein hegwyddorion, yn ogystal â'r pwynt o ran amseru, pan fo natur gydgysylltiedig systemau gweinyddol perthnasol Cymru a Lloegr yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol fyddai bwrw ymlaen â darpariaeth ar gyfer y ddwy yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol. Nid yw hynny gyfystyr â dweud bod angen cymorth llywodraeth wahanol a senedd wahanol ar Lywodraeth Cymru. Fel y nodwyd yn gyson, ac yn unol â'n hegwyddorion, byddem yn amddifadu ein hunain drwy beidio â mabwysiadu dull pragmatig o ymdrin â'r cyfleoedd a all gael eu cyflwyno drwy Filiau'r DU, a gallai hynny fod yn anfanteisiol i Gymru.

5. *Sut ydych yn ymateb i'r farn bod Llywodraeth y DU, i bob pwrpas, yn gosod rhan fawr o'r agenda ddeddfwriaethol yng Nghymru yn sgil dull gweithredu Llywodraeth Cymru?*

Mae rhaglenni deddfwriaethol diweddar Llywodraeth y DU wedi ymwthio'n sylweddol i'r setliad datganoli mewn ffyrdd sy'n gwbl annerbyniol, fel yr ydym wedi ei nodi'n glir ac yn gyson. Byddai'n gwbl gamarweiniol awgrymu bod hyn i'w briodoli i ddull Llywodraeth Cymru o weithredu.

Hyd yn oed yn yr amgylchiadau hynny pan fu inni argymell i'r Senedd fod darpariaethau mewn meysydd datganoledig yn cael eu cynnwys ym Miliau'r DU, nid yw hynny fel arfer oherwydd ein bod wedi cysylltu â Llywodraeth y DU i ofyn am hyn, ond oherwydd bod cyfle wedi codi i wneud hynny, sydd, yn ein tyb ni, yn ddigon cyson â'n hegwyddorion o ran deddfwriaeth y DU. Mae ein hargymhelliad terfynol i'r Senedd ynglŷn â chydsyniad yn dibynnu yn y pen draw ar ganlyniadau ein gwaith o geisio sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn foddhaol o'n safbwynt ni.

6. *O ran y dirwedd wleidyddol bresennol, gwnaethoch sôn am sefyllfa lle mae Llywodraeth y DU yn deddfu, ac yn ceisio deddfu, mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru (Cofnod y Trafodion 57). Er bod hynny, o bosibl, yn wir, mae hefyd yn wir i ddweud bod Llywodraeth y DU o bryd i'w gilydd yn cynnwys darpariaethau ym Miliau'r DU ar gais Llywodraeth Cymru, fel mae eich sylwadau ym mharagraff 12 o'r trawsgrifiad yn ei awgrymu. Sut y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw yn hyn o beth?*

Fel yn fy llythyr ar 17 Mehefin, nodaf eto fy ymrwymiad i gydweithio â'r Senedd ar faterion yn ymwneud â chydsyniad deddfwriaethol. I'r perwyl hwnnw, gallaf gadarnhau y byddwn ni, bob tro y bydd modd, yn gosod datganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd ac yn hysbysu'r Pwyllgorau perthnasol pan fyddwn wedi ceisio darpariaeth yn un o Filiau'r DU, cyn i'r broses cydsyniad deddfwriaethol gychwyn. Bydd natur gwaith ymgysylltu Llywodraeth y DU ar unrhyw Fil o'r fath, ac unrhyw ofynion cyfrinachedd dros dro sy'n gysylltiedig â thrafodaethau rhynglywodraethol arno, yn effeithio ar y graddau y mae hyn yn bosibl.

7. *Yn y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch nodi: "Well, quite often, UK Government Bills will relate to things that aren't part of our programme for government, and then the issue arises whether there's something in that that we might want to seize the opportunity to do, that it might be advantageous to the people of Wales" (Cofnod y Trafodion 12).*
   - ***i.*** *Ar ba sail y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu bod y cyfleoedd hyn yn "fanteisiol" os nad ydynt wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu ac os nad yw rhanddeiliaid yng Nghymru wedi bod yn destun gwaith ymgynghori neu broses o gasglu tystiolaeth?*
   - ***ii.*** *Yn gyffredinol, beth yw hyd y broses o wneud penderfyniadau? Os yw weithiau ond yn cymryd ychydig wythnosau, fel yr ydych yn ei awgrymu (Cofnod y Trafodion 75), a fyddai modd i chi egluro sut y gall hyn hyrwyddo deddfu da?*

Mae sefyllfa pob Bil, wrth gwrs, yn amrywio fesul achos. Ar y cyfan, mae ein penderfyniadau wedi'u seilio ar ein hasesiad o rinweddau cynnwys darpariaeth yn un o Filiau'r DU, gan ddefnyddio unrhyw wybodaeth, ymgynghoriad, neu waith casglu tystiolaeth sydd eisoes ar gael, neu y gellir eu cael mewn cyfnod perthnasol. Yn amlwg, po gynharaf y mae Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â ni ar Fil, a pho fwyaf agored yw Llywodraeth y DU ynglŷn

â’i chynigion deddfwriaethol, mwyaf yw’r cyfle inni ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid yng Nghymru, a dwyn y Bil i sylw’r Senedd a’i Phwyllgorau perthnasol.

Er enghraifft, byddwch yn gwybod am ein gwaith helaeth o ymwneud â’r Bil Caffael. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyrdd o’r enw ‘Transforming Public Procurement’, a sbardunodd ymgysylltu mwy dwys rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y materion o dan sylw. Yn 2021, gwnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau i randdeiliaid ar ddiwygiadau i ddeddfwriaeth gaffael, gan gynnwys ystyried addasrwydd cynigion ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth y DU. Mewn arolwg a gynhaliwyd yn sgil y digwyddiadau i randdeiliaid, nododd mwyafrif y rhanddeiliaid yng Nghymru eu bod yn fodlon â chyfeiriad y cynigion yn y Papur Gwyrdd. Yn dilyn y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru a’r broses well o rannu gwybodaeth, yn ogystal â chael sicrwydd ysgrifenedig gan Lywodraeth y DU, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig ar 18 Awst 2021 yn amlinellu y byddai darpariaeth ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru yn cael ei gwneud ym Mil Llywodraeth y DU. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ddatblygiad y Bil hwn, a byddwch yn gwybod am ein memoranda cydsyniad deddfwriaethol hyd yma.

Byddwch hefyd yn gwybod am y Bil Diwygiadau Iechyd Meddwl sydd ar ddod. Mae’r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi ei drafod yn y Senedd eisoes, ac rydym yn cefnogi’r Bil o ran egwyddor. Mae cynigion yn y Bil hwnnw yn deillio o adolygiad annibynnol yn 2018, a Phapur Gwyn gan Lywodraeth y DU yn 2021. Cafodd ymateb Llywodraeth Cymru ei lywio gan grŵp cyfeirio a sefydlwyd, yn cynnwys cynrychiolwyr o Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, GIG Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a Gofal Cymdeithasol Cymru. Cawsom hefyd sesiynau ffocws er mwyn rhoi ein safbwyntiau arfaethedig ar brawf gyda grwpiau allweddol, gan gynnwys Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru, y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, a Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Cyfrannodd y gwaith ymgysylltu helaeth hwn at ein safbwynt presennol. Mae’r gwaith yn parhau ar ddatblygu’r Bil hwnnw, a’r disgwyl yw y bydd yn cael ei gyflwyno tua diwedd y flwyddyn.

8. *Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau’r diffyg democrataidd sy’n codi yn sgil penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio Llywodraeth y DU a Senedd y DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig, ac i wella’r strwythur cyfansoddiadol presennol yr ydych yn cyfeirio ato (Cofnod y Trafodion 58)?*

Gwaith aneffeithiol gan Lywodraeth y DU o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yw un o’r rhwystrau mwyaf rhag gweithrediad didrafferth y broses cydsyniad deddfwriaethol bresennol. Mae’n un o blith sawl rheswm pam rydym yn pwysleisio’n rheolaidd wrth Lywodraeth y DU bwysigrwydd gwybodaeth ac ymgysylltu, fel y gallwn ymgysylltu’n briodol â’r Senedd yn ei thro ac mewn da bryd.

Hoffem sicrhau bod y Senedd yn cael y cyfle a’r hyblygrwydd mwyaf i graffu ar ddefnyddio Biliau Senedd y DU o fewn y cyfyngiadau a osodir gan y broses a dull gweithredu Llywodraeth y DU.

Mae’n anochel na fydd gwaith y Senedd o graffu ar ddeddfwriaeth o’r fath mor fanwl â’r gwaith craffu yn achos deddfwriaeth a wneir yn y Senedd. Oherwydd hynny, rydym wedi ymrwymo i sicrhau y ceir cymaint o waith craffu ag y bo modd drwy broses y memorandwm

cydsyniad deddfwriaethol, ac i gyfyngu ar ein hymwneud â Biliau'r DU mewn modd sy'n gyson â'n hegwyddorion.

Rydym yn parhau i geisio gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill i gryfhau ffyrdd o weithio ac i wella dull Llywodraeth y DU o ymgysylltu ar ei rhaglen ddeddfwriaethol, gan gynnwys parch at gonfensiwn Sewel. Byddaf yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn pan fydd modd gwneud hynny.

**Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir**

*9. A fyddai modd i chi egluro:*
   *i. a ydych yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (neu Fil "Rhyddidau Brexit"), ac a ydych yn bwriadu sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn gymwys i Gymru?*
   *ii. a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â datganiadau / cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio statws cyfraith yr UE a ddargedwir? Os nad yw'n cytuno, beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddiwygio statws cyfraith yr UE a ddargedwir?*

Ym mis Mai, cwrddais â'r Gwir Anrhydeddus Jacob Rees-Mogg AS, y Gweinidog Gwladol dros Gyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth, i drafod Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Mae fy swyddogion wedi cael cyfarfodydd rheolaidd â thîm y Bil lle y mae gwybodaeth ddangosol a dros dro am y syniadau sy'n sail i'r Bil wedi'u rhannu, gan gynnwys ei berthnasedd i Gymru.

Nid yw Llywodraeth Cymru o reidrwydd yn gwrthwynebu'r cysyniad o ailedrych ar y corff o gyfreithiau'r UE a etifeddwyd gennym wrth ymadael â'r UE, neu ddulliau pragmatig a chymesur o'i alluogi i gael ei ddiweddaru dros amser mewn modd sy'n parchu'r setliad datganoli. Ond byddem yn gwrthwynebu unrhyw weithredoedd a allai olygu bod Llywodraeth y DU yn ceisio gostwng safonau ac amddiffyniadau gwerthfawr drwy ddadreoleiddio ideolegol, neu unrhyw weithredoedd nad ydynt yn parchu datganoli, neu, yn waeth byth, yn ei danseilio.

*10. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd y Bil yn cynnwys pŵer wedi'i dargedu at ddibenion cyflymu'r broses o ddiddymu neu ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir. Beth yw eich ymateb i hynny?*

Mae'n hanfodol bwysig i bobl a busnesau Cymru fod unrhyw gynigion i newid cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael eu hasesu'n llwyr ac yn cael eu hystyried yng nghyd-destun cyfansoddiadol y setliadau datganoli cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, gan gynnwys parchu'r darpariaethau a'r ffyrdd o weithio a adlewyrchir mewn Fframweithiau Cyffredin y cytunwyd arnynt.

*11. Gwnaethoch sôn am y posibilrwydd o ddefnyddio cymalau machlud yn y Bil, ac o ganlyniad i hynny, yr angen posibl i wirio miloedd o ddarnau o ddeddfwriaeth (Cofnod y Trafodion 83). Pa baratoadau sydd wedi'u gwneud yn fewnol gan Lywodraeth Cymru rhag ofn y bydd gofyn gwneud hyn?*

Mae fy swyddogion, ynghyd â swyddogion Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, wedi cyflwyno sylwadau cryf yn gofyn i adrannau Llywodraeth y DU rannu'r ddealltwriaeth o'r rhaniad, yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, rhwng cyfreithiau datganoledig a'r rhai a gedwir yn ôl. Mae hynny'n cydnabod y bydd angen i adrannau

Llywodraeth y DU nodi hynny, beth bynnag, fel rhan o'u gwaith. Nid yw hynny wedi dod i law hyd yma.

Ni chredwn y dylai'r Llywodraethau Datganoledig orfod cynnal ymarferion dadansoddi cwbl ar wahân yn hyn o beth, a hynny'n bennaf o ystyried maint y dasg ac mai menter gan Lywodraeth y DU yw hon sy'n seiliedig ar amserlen fympwyol ganddi, a chan gofio ein bod wedi gofyn am waith ar y cyd yn y cyswllt hwn.

*12. Gwnaethoch sôn hefyd am eich trafodaethau gyda'r Gwir Anrhydeddus Jacob Rees-Mogg AS, sef y Gweinidog Gwladol dros Gyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth, gan nodi: "I certainly was given the assurances I hoped for at that time, that there may be areas there where we do not agree and that we want these matters to be retained." (Cofnod y Trafodion 83). A fyddai modd i chi gadarnhau pa faterion neu feysydd penodol o gyfraith yr UE a ddargedwir y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi ar hyn o bryd, ac a godwyd y materion neu'r meysydd hyn gyda Mr Rees-Mogg?*

O ystyried bod Llywodraeth y DU wedi nodi dros 2,400 o gyfreithiau'r UE a ddargedwir, gan eu cyhoeddi yn ei chatalog cysylltiedig, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ei dadansoddiad ei hun ar wahân gan fod hynny'n ymgymeriad sylweddol iawn. Er hynny, rydym wedi gwneud cais ar y cyd â Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i Lywodraeth y DU rannu â ni, ar sail ei dadansoddiad ei hun, pa gyfreithiau'r UE a ddargedwir sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

*13. A fyddai modd i chi gadarnhau pa warantau yr ydych wedi'u cael na fydd y Bil yn newid statws cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig, os nad yw Llywodraeth Cymru am i'r statws hwnnw gael ei newid?*

Nid oes unrhyw warantau wedi'u rhoi na fydd y Bil yn newid statws cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig. Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y Bil yn parchu setliad datganoli Cymru.

*14. Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu y bydd y Bil yn newid statws cyfraith yr UE a ddargedwir fel y gall y llysoedd ei dehongli. Beth yw eich ymateb i hynny?*

Mae dogfen 'The Benefits of Brexit' Llywodraeth y DU, yn ogystal â chynnig adolygu statws rhai mathau o gyfraith yr UE a ddargedwir, yn amlinellu ei chynlluniau i ystyried cael gwared ar effaith barhaus goruchafiaeth cyfraith yr UE dros gyfraith ddomestig a wnaed cyn diwedd y cyfnod pontio; i ystyried i ba raddau y dylai llysoedd domestig ddilyn penderfyniadau hanesyddol llysoedd yr UE; ac i ystyried rôl egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir (ymhlith nifer o gynigion eraill). Pe bai'r holl gynigion hyn neu unrhyw un ohonynt yn cael eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth ddrafft, gallai hyn effeithio ar y modd y mae'n ofynnol ar hyn o bryd i lysoedd ddehongli cyfraith yr UE a ddargedwir.

Fel uchod, mae'n bwysig bod unrhyw gynigion i newid cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael eu hasesu'n llawn a'u hystyried yng nghyd-destun cyfansoddiadol y setliadau datganoli cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, gan gynnwys parchu'r darpariaethau a'r ffyrdd o weithio a adlewyrchir mewn Fframweithiau Cyffredin y cytunwyd arnynt.

**Bil Protocol Gogledd Iwerddon**

*15. A fyddai modd i chi egluro a yw'r Bil, ym marn Llywodraeth Cymru, yn gyfystyr â thorri cyfraith ryngwladol?*

Yn ôl ei chyfaddefiad ei hun, mae Llywodraeth y DU wedi dewis cyflwyno Bil a fyddai, o'i ddeddfu a'i weithredu, yn torri'r rhwymedigaethau rhyngwladol yr ymgymerodd â hwy o'i gwirfodd pan gytunodd ar Brotocol Gogledd Iwerddon, fel rhan o'r Cytundeb Ymadael â'r UE. Yn ei geiriau ei hun, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi: "decided to introduce legislative measures which, on entry into force, envisage the non-performance of certain obligations". Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cyfiawnhau hyn ar sail yr athrawiaeth "rheidrwydd" mewn cyfraith ryngwladol, er bod nifer o sylwebwyr cyfreithiol arbenigol annibynnol eisoes wedi herio hygrededd y safbwynt hwn.

Mae cydymffurfio â chyfraith ryngwladol yn fater y mae Llywodraeth Cymru yn gwbl o ddifrif yn ei gylch. Rydym yn cwestiynu a fydd Llywodraeth y DU yn gallu dangos bod y gofynion ar gyfer amddiffyn rheidrwydd yn cael eu bodloni (gan nodi bod nifer o gyfreithwyr a sylwebyddion uchel eu parch wedi codi pryderon tebyg), fel bod modd i'r methiant i gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol, fel y'i rhagwelir gan y Bil, gael ei gyfiawnhau o dan gyfraith ryngwladol. Fodd bynnag, Llys Cyfiawnder Ewrop fydd yn dyfarnu ar y pwynt hwn yn y pen draw.

*16. A yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw syniad i Lywodraeth Cymru o'r pwerau posibl y gellid eu rhoi i Weinidogion Cymru o dan y Bil, ac at ba ddibenion?*

Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Tramor at Weinidog yr Economi, gan ddweud bod elfennau o'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chan ofyn am gadarnhad bod Llywodraeth Cymru yn fodlon cytuno mewn egwyddor i gefnogi cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd.

Er bod y gwaith o ddadansoddi'r Bil (na welsom mohono tan y diwrnod y cafodd ei gyflwyno) yn parhau, mae'n amlwg ei fod yn rhoi nifer o bwerau gwneud rheoliadau hynod eang i Weinidogion y Goron a bod cymal 22(6) o'r Bil yn darparu pŵer i Weinidogion y Goron is-ddirprwyo'r hawl i arfer pob un o'r pwerau neu unrhyw un o'r pwerau sy'n cael eu darparu iddynt yn y Bil i Weinidogion Cymru neu Weinidogion llywodraeth ddatganoledig arall. Nid ydym wedi cael unrhyw arwydd pellach gan Lywodraeth y DU ynghylch pa bwerau y mae'n rhag-weld y gellid eu rhoi o dan y cymal hwn, i bwy, nac at ba ddiben.

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n ystyried y darpariaethau yn y Bil yn fanwl er mwyn sefydlu'r goblygiadau i'n buddiannau, ein pwerau a'n cyfrifoldebau datganoledig, yn ogystal ag ystyried goblygiadau cyfansoddiadol ehangach y Bil.

*17. Gwnaethoch gyfeirio at eich pryderon ynghylch a fyddai modd i'r Senedd gydsynio i Fil sydd, i bob pwrpas, yn cyfreithloni anghyfreithlondeb (Cofnod y Trafodion 145). A fyddai modd i chi egluro eich pryderon penodol ar y mater hwn?*

Er bod Llywodraeth y DU yn derbyn bod y Bil yn golygu peidio â chyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, mae'n ceisio cyfiawnhau hyn ar sail yr athrawiaeth "rheidrwydd" mewn cyfraith ryngwladol. Mae nifer o sylwebwyr cyfreithiol arbenigol annibynnol eisoes wedi herio hygrededd y safbwynt hwn. Mae cydymffurfio â chyfraith ryngwladol yn fater y mae Llywodraeth Cymru yn gwbl o ddifrif yn ei gylch. Mae hwn yn fater cymhleth, a fydd yn rhan hanfodol o'n gwaith sydd ar y gweill i ystyried y Bil.

Rydym wedi datgan yn glir yn gyson y dylai materion sy'n gysylltiedig â Phrotocol Gogledd Iwerddon gael eu datrys drwy negodiadau rhwng y DU a'r UE.

*18. Beth yw goblygiadau'r Bil i Gymru, gan gynnwys eich asesiad o feysydd gwaith eraill o fewn eich portffolio, gan gynnwys y fframweithiau cyffredin a chysylltiadau rhynglywodraethol?*

Gallai newidiadau i Brotocol Gogledd Iwerddon olygu bod angen diwygio cytundebau Fframweithiau Cyffredin. Drafftiwyd y fframweithiau a chytunwyd arnynt ar sail pedair gwlad a byddai unrhyw newidiadau yn cael eu cloriannu fesul achos.

Mae darpariaethau yn y Bil sy'n gorgyffwrdd â materion datganoledig, ac rydym yn rhoi ystyriaeth ddyladwy iddynt, yn ogystal ag i effeithiau ehangach y Bil.

Fodd bynnag, mae diffyg unrhyw ymgysylltu ystyrlon ymlaen llaw gan Lywodraeth y DU yn amlwg yn mynd yn groes i'r egwyddorion a'r trefniadau gweithio rhwng y DU a'r llywodraethau datganoledig, y cytunwyd arnynt ar y cyd ac a nodwyd yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Mae'n bwysig fod Llywodraeth y DU yn glynu wrth yr ymrwymiadau y cytunodd iddynt yn y Fframweithiau Cyffredin ac mae hynny'n fater yr ydym yn ei godi gyda hwy.

**Ymwahanu ac aliniad**

*19. O ystyried y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i fonitro'n barhaus aliniad cyfraith yr UE â chyfraith bresennol Cymru ac unrhyw achosion o ymwahanu (Cofnod y Trafodion 91), sut y gall y Llywodraeth wybod a yw safonau yng Nghymru yn cyd-fynd â datblygiadau yn yr UE?*

Mewn meysydd y mae Fframweithiau Cyffredin yn ymdrin â hwy a thrwy gymryd rhan mewn trafodaethau â'r o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'u cymheiriaid yn Llywodraethau eraill y DU ac yn rhannu gwybodaeth, gan gynnwys ynghylch datblygiadau perthnasol yng nghyfraith yr UE a goblygiadau Protocol Gogledd Iwerddon. Mae swyddogion yn ein swyddfa ym Mrwsel hefyd yn rhoi gwybodaeth am ddatblygiadau polisi o bwys yn yr UE.

Yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ceir pennod hefyd ar Arferion Rheoleiddiol Da a Chydweithredu ar Reoleiddio sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi newidiadau perthnasol i reoliadau yn yr UE a'r DU ac sy'n annog arferion rheoleiddiol da.

*20. Pa effaith y mae'r diffyg monitro hwn yn ei chael ar waith Llywodraeth Cymru o ran llunio polisïau a'i dull o gyflwyno cynigion deddfwriaethol newydd?*

Mae ffyrdd o ddeall perthnasedd datblygiadau allweddol ar lefel yr UE, fel yr amlinellir hwy yn yr ateb i'r cwestiwn blaenorol, yn rhan o'r dull o fynd ati i ddatblygu polisïau da.

*21. Pa effaith y mae ymwahanu rhwng y DU a'r UE ers diwedd y cyfnod pontio yn ei chael ar waith Llywodraeth Cymru o ran llunio polisïau a'i dull o gyflwyno cynigion deddfwriaethol newydd?*

Fel yr amlinellir uchod, mae ffyrdd o ddeall perthnasedd datblygiadau allweddol ar lefel yr UE, fel yr amlinellir hwy yn yr ateb i'r cwestiwn cynharach, yn rhan o'r dull o fynd ati i ddatblygu polisïau da. Ers diwedd y cyfnod pontio, ni fu fawr o sgôp ar gyfer llawer iawn o

ymwahanu rhwng y DU a'r UE. Byddai'r effaith ar lunio polisïau ac ar y dull gweithredu yng Nghymru yn cael ei ystyried fesul achos.

**Cysylltiadau rhynglywodraethol**

*22. Pam y cafodd cyfarfod arfaethedig y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ei ohirio ddwywaith ym mis Mehefin?*

Cafodd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ei ohirio er mwyn sicrhau bod yr holl Weinidogion perthnasol o bob Llywodraeth yn gallu bod yn bresennol.

Mae pob Llywodraeth yn ymdrechu i gadw at ddyddiadau cyfarfodydd y cytunwyd arnynt; ond gohirio oedd y dewis gorau y tro hwn er mwyn sicrhau y gellid bwrw ymlaen â phob eitem ar yr agenda drwy drafod ac ymgysylltu ystyrlon.

*23. Sut mae'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn mynd ati o ran cyflawni ei gyfrifoldebau dros oruchwylio cysylltiadau rhynglywodraethol, a hynny mewn perthynas â'r eitemau a ganlyn:*

*i. gwella cydweithio ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU;*
*ii. goruchwylio'r fframweithiau cyffredin a marchnad fewnol y DU;*
*iii. goruchwylio cysylltiadau rhyngwladol?*

Fel y crybwyllwyd eisoes, nod mecanweithiau'r Adolygiad Rhynglywodraethol yw gwella cydweithio gan gynnwys ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar draws y pedair llywodraeth.

Er bod arwyddion cadarnhaol o du Llywodraeth y DU o ran gwella ei dull o ymgysylltu yn ystod y sesiwn hon, mae gennyf bryderon dwys ynglŷn â'r dull gweithredu a welwyd mewn perthynas â nifer o Filiau, gan gynnwys Bil Protocol Gogledd Iwerddon, y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) a'r Bil Hawliau. Mae'r rhain yn faterion o'r pwys mwyaf, ac mae dull gweithredu Llywodraeth y DU wedi bod yn annerbyniol.

Codais y materion hyn yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a gynhaliwyd ar 29 Mehefin, ynghyd â'r testun hollol annerbyniol gan Lywodraeth y DU sy'n awgrymu y byddai'n ceisio diddymu Deddf Undebau Llafur (Cymru).

Rydym yn rhag-weld y bydd agenda cyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn y dyfodol yn cynnwys eitemau ar Fframweithiau Cyffredin, y farchnad fewnol a chysylltiadau rhyngwladol; fodd bynnag, mae'r flaenraglen waith yn dal i gael ei datblygu rhwng y llywodraethau.

*24. Yn sgil eich sylwadau ynghylch y broses o ddatrys anghydfodau (Cofnod y Trafodion 102-118), a ydych yn bwriadu codi unrhyw anghytundebau rhynglywodraethol fel anghydfodau drwy'r broses hon, yn enwedig o ran y diffyg ymgysylltu ar rai o Filiau allweddol y DU?*

Mae'r broses ffurfiol o ddatrys anghydfodau yn parhau i fod yn ddewis sydd ar gael inni a byddwn yn ystyried defnyddio'r broses yn ofalus, fel dewis olaf, os yw pob llwybr arall wedi'i ddihysbyddu.

*25. Rydym wedi cael copi o'r ohebiaeth a anfonwyd gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ynghylch adolygiad Llywodraeth y DU o Lawlyfr y Cabinet. A fyddai modd i chi gadarnhau pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch yr adolygiad hwn?*

Nid ydym yn credu bod Llywodraeth y DU wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r adolygiad hwn.

*26. Byddem yn gwerthfawrogi eich sylwadau ynghylch rôl y Llawlyfr (os o gwbl) yn y broses o feithrin cysylltiadau rhynglywodraethol, ac ynghylch sut y dylid ei ddiweddaru (os o gwbl)?*

Byddem yn disgwyl i Bennod 8, yn benodol, gael ei diweddaru i adlewyrchu'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn llawn, gan gynnwys egwyddorion gweithio ar y cyd.

**Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020**

*27. Os nad yw ymgyfreitha Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 yn llwyddiannus, a fydd y Llywodraeth yn ceisio eithriadau pellach o dan delerau'r Ddeddf?*

Mae'n rhy gynnar i ddyfalu ynghylch canlyniadau dyfarniad yn y dyfodol, ond byddwn parhau i roi gwybodaeth i'r Senedd wrth i'r mater hwn fynd rhagddo.

*28. Os na ellir sicrhau eithriadau, pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru?*

Safbwynt Llywodraeth Cymru o hyd yw nad yw Deddf Marchnad Fewnol y DU wedi cael yr effaith ar gymhwysedd y Senedd y mae'n **honni** ei bod wedi'i chael. Yn y cyd-destun hwn, ni fydd sicrhau eithriadau (neu fel arall) yn effeithio'n uniongyrchol ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

*29. A fyddai modd i chi gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Senedd am unrhyw anghydfodau gyda Llywodraeth y DU ynghylch eithriadau? Ar ba bwynt yn y broses yr ydych yn bwriadu darparu hysbysiadau o'r fath?*

Rwyf yn parhau'n ymrwymedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am hynt a gweithgareddau'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Mae'r gwaith yn parhau rhwng swyddogion ar ddatblygu mecanwaith adrodd a monitro ystyrlon, llawn gwybodaeth ar gyfer Fframweithiau Cyffredin yn y dyfodol. Rwy'n edrych ymlaen at rannu hyn gyda'r Pwyllgor pan gytunir arno ar lefel Weinidogol.

*30. Rydym yn cydnabod eich sylwadau am y sefyllfa ynghylch y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) (Cofnod y Trafodion 128-136). Fodd bynnag, a fyddai modd i chi egluro a yw'r cynigion i newid y prosesau awdurdodi presennol ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig, ym marn Llywodraeth Cymru, yn dod o fewn yr eithriadau sy'n ymwneud â diogelu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion?*

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrth Lywodraeth y DU, mewn nifer o gyfarfodydd rhwng swyddogion, y dylai effeithiau'r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl), sy'n rhychwantu nifer o feysydd yn y Fframweithiau Cyffredin, fod wedi cael eu rhannu'n gynharach gyda'r llywodraethau datganoledig o dan y broses gydnabyddedig ar gyfer y Fframweithiau Cyffredin. Mae'r mater hwn yn dal i gael ei ystyried.

*31.A fyddai modd i chi nodi asesiad Llywodraeth Cymru o effaith bosibl Bil Protocol Gogledd Iwerddon ar Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, gan gynnwys yr effaith ar y pwerau a ddarperir i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r Protocol?*

Er bod y gwaith o ddadansoddi'r Bil yn llawn yn parhau, fe fydd, fel y'i cyflwynwyd, yn diwygio gweithrediad y Protocol drwy ddatgymhwyso elfennau o'r Protocol mewn cyfraith ddomestig. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r Bil yn rhoi i Weinidogion y Goron nifer o bwerau eang iawn o ran gwneud rheoliadau ac mae'n cynnwys pŵer yng nghymal 22(6) i Weinidogion y Goron is-ddirprwyo'r hawl i arfer pob un o'r pwerau neu unrhyw un o'r pwerau a ddarperir iddynt yn y Bil i Weinidogion Cymru neu Weinidogion llywodraeth ddatganoledig arall. Nid ydym wedi cael unrhyw arwydd pellach gan Lywodraeth y DU ynghylch pa bwerau y mae'n rhag-weld y gellid eu rhoi o dan y cymal hwn, i bwy, nac at ba ddiben.

**Fframweithiau cyffredin**

*32. Rydym yn nodi eich sylwadau ar effaith y fframweithiau cyffredin o ran deddfu ar gyfer Cymru.  A fyddai modd i chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a fu unrhyw achosion o Lywodraeth Cymru yn newid cyfraith neu bolisi, neu'n peidio â bwrw ymlaen â newid i gyfraith neu bolisi, yn sgil trafodaeth rynglywodraethol drwy un o'r fframweithiau cyffredin?*

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw faes lle nad ydym wedi gallu bwrw ymlaen â chynlluniau deddfwriaethol neu gynlluniau polisi.  Fel egwyddor gyffredinol, mae trafodaeth rynglywodraethol drwy Fframweithiau Cyffredin yn fuddiol i ddatblygiad polisi ym mhob un o'r pedair gwlad.

*33. Yn eich llythyr atom, dyddiedig 2 Mawrth 2022, gwnaethoch nodi y byddech yn synnu pe bai unrhyw oedi wedi digwydd o ran polisïau neu fentrau Llywodraeth Cymru ym meysydd y fframweithiau cyffredin, "gan fod prosesau'r Fframweithiau Cyffredin bellach yn rhan gynhenid o sut y caiff polisi ei ddatblygu yn y meysydd lle maent yn berthnasol." A fyddai modd i chi egluro sut yr ydych yn sicrhau nad yw gwneud penderfyniadau rhynglywodraethol drwy'r fframweithiau cyffredin yn arwain at wanhau rôl y Senedd a rhanddeiliaid Cymru yn y broses o lunio cyfreithiau a pholisïau ar gyfer Cymru?*

Ni fydd y Fframweithiau Cyffredin yn newid y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'r Senedd ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae Fframweithiau Cyffredin yn caniatáu sgôp ar gyfer ymwahanu a allai olygu gwneud deddfwriaeth drwy'r Senedd. Byddai deddfwriaeth o'r fath yn destun craffu gan y Senedd yn y modd arferol. Nid yw Fframweithiau Cyffredin ynddynt eu hunain yn cyfyngu ar rôl y Senedd.

*34. Yn y llythyr dan sylw, gwnaethoch gytuno y dylai Llywodraeth Cymru ein hysbysu pan fydd anghydfod yn ymwneud â'r fframweithiau cyffredin yn cael ei gyfeirio at Weinidogion. Pam na roddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r Senedd fod anghydfod wedi cael ei godi drwy'r fframwaith cyffredin ar adnoddau a gwastraff ynghylch y cais a wnaed am eithriad o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU ar gyfer plastigion untro?*

O ran yr anghydfod ynghylch yr eithriad ar gyfer plastigion untro, Llywodraeth yr Alban a geisiodd eithriad ac a gychwynnodd drafodaethau cynnar o dan y Fframwaith Adnoddau a Gwastraff. Cynigiwyd datrysiad gan swyddogion ac fe gytunwyd arno gan Weinidogion cyn i broses ffurfiol gael ei sbarduno. Dyma pam na chafodd y Pwyllgorau wybod.

Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i dryloywder y Rhaglen Fframweithiau Cyffredin ac i roi gwybod i'r Senedd pan godir anghydfod i lefel Gweinidogion, bod hynny gan Lywodraeth Cymru neu'n ymwneud â Llywodraeth Cymru.

*35. Yn yr un llythyr, gwnaethoch hefyd gytuno y byddai Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Senedd mewn achosion lle mae deddfwriaeth yn ymwneud ag un o'r fframweithiau cyffredin. Nid yw Llywodraeth Cymru bob amser wedi hysbysu'r Senedd am y berthynas rhwng is-ddeddfwriaeth mewn maes polisi fframwaith cyffredin a'r fframwaith cyffredin dan sylw. A wnewch chi ymrwymo i wneud hyn?*

Dim ond yn awr yr ydym yn dechrau gweld deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno sy'n ymwneud â Fframweithiau Cyffredin, felly nid yw hyn wedi bod yn fater arferol. Ond, ydym - rydym yn gweld hyn yn rhan o arfer da.

Fel y nodwyd uchod, rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am hynt a gweithgareddau'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Mae gwaith yn parhau rhwng swyddogion ar ddatblygu mecanwaith adrodd a monitro ystyrlon, llawn gwybodaeth ar gyfer Fframweithiau Cyffredin yn y dyfodol. Rwy'n edrych ymlaen at rannu hyn gyda'r Pwyllgor pan gytunir arnynt ar lefel Weinidogol.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

30 Mehefin 2022

Annwyl Mick

Cwestiynau pellach yn dilyn y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2022

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 20 Mehefin, pan wnaethoch roi tystiolaeth ar faterion o fewn eich portffolio.

Yn dilyn y sesiwn honno, mae nifer o faterion yr ydym yn dymuno mynd ar eu trywydd. Byddem yn ddiolchgar, felly, pe gallem gael eich ymatebion i'r cwestiynau isod erbyn 31 Gorffennaf 2022 (mae cyfeiriadau at y trawsgrifiad ar gyfer y sesiwn dystiolaeth dan sylw wedi'u cynnwys lle bo angen).

Y broses cydsyniad deddfwriaethol

1. Wrth ymrwymo i'w chytundeb cydweithio â Phlaid Cymru, diwygiodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu bum mlynedd. O ystyried bod cynsail yn bodoli o ran cyhoeddi diwygiadau i'r Rhaglen, a oes unrhyw reswm pam na ddylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariadau rheolaidd a fyddai'n rhoi eglurder ynghylch pa Lywodraeth a pha Senedd fydd yn deddfu er mwyn cyflawni ymrwymiadau penodol?

2. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer pob blwyddyn o fewn tymor pum mlynedd yn y Senedd. Gwnaethoch ddweud wrthym y byddai'r cyhoeddiad nesaf ar 5 Gorffennaf. Gan gydnabod y posibilrwydd y gallai cyhoeddiadau deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod yn destun amserlen wahanol, dylai fod yn ymarferol rhoi syniad, yn y cyhoeddiad blynyddol, o'r gwaith rhynglywodraethol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar Filiau'r DU, lle mae Llywodraeth Cymru yn ceisio darpariaethau ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig. A

oes unrhyw reswm pam na ddylai Llywodraeth Cymru gynnwys y wybodaeth hon yn ei datganiadau deddfwriaethol blynyddol, gan ddarparu hefyd ddiweddariadau tymhorol yn ôl yr angen?

3. O ran y gwaith deddfu y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ei hun ar gyfer Cymru, gwnaethoch nodi nad yw capasiti o fewn Llywodraeth Cymru yn broblem, o ran y pethau yr ydych am eu gwneud (Cofnod y Trafodion 44 a 46). A yw hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru, i bob pwrpas, yn dyrannu adnoddau i nifer benodol o Filiau ac yna'n manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir iddi i ddefnyddio Biliau'r DU i gyflawni amcanion deddfwriaethol eraill nad ydynt eisoes wedi'u nodi (neu nad ydynt wedi'u blaenoriaethu)?

4. Yn eich llythyr dyddiedig 20 Ebrill gwnaethoch ddweud:

> *"Felly, rydym yn penderfynu beth yw'r ffordd orau o wneud hynny drwy ddeddfwriaeth y Senedd a Senedd y DU, gan ystyried blaenoriaethau a chapasiti ein rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain a hefyd y cyfleoedd a'r risgiau posibl sy'n deillio o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.*
>
> *Pe na baem ond yn cyflawni ein blaenoriaethau drwy ddeddfwriaeth y Senedd, yn hytrach na mynd ar drywydd set ehangach o flaenoriaethau drwy'r ddwy raglen ddeddfwriaethol, byddem yn cyflawni llai ar gyfer pobl Cymru."*

i. A fyddech yn cytuno bod y llythyr hwn yn rhoi darlun gwahanol i'r farn a fynegwyd gennych wrth roi tystiolaeth, sef nad yw capasiti ac adnoddau yn rhwystr i'r broses o gyflwyno Biliau Cymreig (Cofnod y Trafodion 42-46)?

ii. O ystyried y sylwadau yn eich llythyr, ac os oes gan Lywodraeth Cymru yr adnoddau i wneud yr hyn y mae am ei wneud, a yw'n iawn i feddwl bod angen cymorth llywodraeth wahanol a senedd wahanol ar Lywodraeth Cymru i greu a phasio deddfau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru?

5. Sut ydych yn ymateb i'r farn bod Llywodraeth y DU, i bob pwrpas, yn gosod rhan fawr o'r agenda ddeddfwriaethol yng Nghymru yn sgil dull gweithredu Llywodraeth Cymru?

6. O ran y dirwedd wleidyddol bresennol, gwnaethoch sôn am sefyllfa lle mae Llywodraeth y DU yn deddfu, ac yn ceisio deddfu, mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru (Cofnod y Trafodion 57). Er bod hynny, o bosibl, yn wir, mae hefyd yn wir i ddweud bod Llywodraeth y DU o bryd i'w gilydd yn cynnwys darpariaethau ym Miliau'r DU ar gais Llywodraeth Cymru, fel mae eich sylwadau ym mharagraff 12 o'r trawsgrifiad yn ei awgrymu. Sut y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw yn hyn o beth?

7. Yn y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch nodi: "Well, quite often, UK Government Bills will relate to things that aren't part of our programme for government, and then the issue arises whether there's

something in that that we might want to seize the opportunity to do, that it might be advantageous to the people of Wales" (Cofnod y Trafodion 12).

i. Ar ba sail y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu bod y cyfleoedd hyn yn "fanteisiol" os nad ydynt wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu ac os nad yw rhanddeiliaid yng Nghymru wedi bod yn destun gwaith ymgynghori neu broses o gasglu tystiolaeth?

ii. Yn gyffredinol, beth yw hyd y broses o wneud penderfyniadau? Os yw weithiau ond yn cymryd ychydig wythnosau, fel yr ydych yn ei awgrymu (Cofnod y Trafodion 75), a fyddai modd i chi egluro sut y gall hyn hyrwyddo deddfu da?

8. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau'r diffyg democrataidd sy'n codi yn sgil penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio Llywodraeth y DU a Senedd y DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig, ac i wella'r strwythur cyfansoddiadol presennol yr ydych yn cyfeirio ato (Cofnod y Trafodion 58)?

## Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir

9. A fyddai modd i chi egluro:

i. a ydych yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (neu Fil "Rhyddidau Brexit"), ac a ydych yn bwriadu sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn gymwys i Gymru?

ii. a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â datganiadau / cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio statws cyfraith yr UE a ddargedwir? Os nad yw'n cytuno, beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddiwygio statws cyfraith yr UE a ddargedwir?

10. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd y Bil yn cynnwys pŵer wedi'i dargedu at ddibenion cyflymu'r broses o ddiddymu neu ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir. Beth yw eich ymateb i hynny?

11. Gwnaethoch sôn am y posibilrwydd o ddefnyddio cymalau machlud yn y Bil, ac o ganlyniad i hynny, yr angen posibl i wirio miloedd o ddarnau o ddeddfwriaeth (Cofnod y Trafodion 83). Pa baratoadau sydd wedi'u gwneud yn fewnol gan Lywodraeth Cymru rhag ofn y bydd gofyn gwneud hyn?

12. Gwnaethoch sôn hefyd am eich trafodaethau gyda'r Gwir Anrhydeddus Jacob Rees-Mogg AS, sef y Gweinidog Gwladol dros Gyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth, gan nodi: "I certainly was given the assurances I hoped for at that time, that there may be areas there where we do not agree and that we want these matters to be retained." (Cofnod y Trafodion 83). A fyddai modd i chi gadarnhau pa faterion neu feysydd penodol o gyfraith yr UE a ddargedwir y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi ar hyn o bryd, ac a godwyd y materion neu'r meysydd hyn gyda Mr Rees-Mogg?

13. A fyddai modd i chi gadarnhau pa warantau yr ydych wedi'u cael na fydd y Bil yn newid statws cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig, os nad yw Llywodraeth Cymru am i'r statws hwnnw gael ei newid?

14. Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu y bydd y Bil yn newid statws cyfraith yr UE a ddargedwir fel y gall y llysoedd ei dehongli. Beth yw eich ymateb i hynny?

Bil Protocol Gogledd Iwerddon

15. A fyddai modd i chi egluro a yw'r Bil, ym marn Llywodraeth Cymru, yn gyfystyr â thorri cyfraith ryngwladol?

16. A yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw syniad i Lywodraeth Cymru o'r pwerau posibl y gellid eu rhoi i Weinidogion Cymru o dan y Bil, ac at ba ddibenion?

17. Gwnaethoch gyfeirio at eich pryderon ynghylch a fyddai modd i'r Senedd gydsynio i Fil sydd, i bob pwrpas, yn cyfreithloni anghyfreithlondeb (Cofnod y Trafodion 145). A fyddai modd i chi egluro eich pryderon penodol ar y mater hwn?

18. Beth yw goblygiadau'r Bil i Gymru, gan gynnwys eich asesiad o feysydd gwaith eraill o fewn eich portffolio, gan gynnwys y fframweithiau cyffredin a chysylltiadau rhynglywodraethol?

Ymwahanu ac aliniad

19. O ystyried y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i fonitro'n barhaus aliniad cyfraith yr UE â chyfraith bresennol Cymru ac unrhyw achosion o ymwahanu (Cofnod y Trafodion 91), sut y gall y Llywodraeth wybod a yw safonau yng Nghymru yn cyd-fynd â datblygiadau yn yr UE?

20. Pa effaith y mae'r diffyg monitro hwn yn ei chael ar waith Llywodraeth Cymru o ran llunio polisïau a'i dull o gyflwyno cynigion deddfwriaethol newydd?

21. Pa effaith y mae ymwahanu rhwng y DU a'r UE ers diwedd y cyfnod pontio yn ei chael ar waith Llywodraeth Cymru o ran llunio polisïau a'i dull o gyflwyno cynigion deddfwriaethol newydd?

Cysylltiadau rhynglywodraethol

22. Pam y cafodd cyfarfod arfaethedig y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ei ohirio ddwywaith ym mis Mehefin?

23. Sut mae'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn mynd ati o ran cyflawni ei gyfrifoldebau dros oruchwylio cysylltiadau rhynglywodraethol, a hynny mewn perthynas â'r eitemau a ganlyn:

i. gwella cydweithio ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU;

ii. goruchwylio'r fframweithiau cyffredin a marchnad fewnol y DU;

iii. goruchwylio cysylltiadau rhyngwladol?

24. Yn sgil eich sylwadau ynghylch y broses o ddatrys anghydfodau (Cofnod y Trafodion 102-118), a ydych yn bwriadu codi unrhyw anghytundebau rhynglywodraethol fel anghydfodau drwy'r broses hon, yn enwedig o ran y diffyg ymgysylltu ar rai o Filiau allweddol y DU?

25. Rydym wedi cael copi o'r ohebiaeth a anfonwyd gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ynghylch adolygiad Llywodraeth y DU o Lawlyfr y Cabinet. A fyddai modd i chi gadarnhau pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch yr adolygiad hwn?

26. Byddem yn gwerthfawrogi eich sylwadau ynghylch rôl y Llawlyfr (os o gwbl) yn y broses o feithrin cysylltiadau rhynglywodraethol, ac ynghylch sut y dylid ei ddiweddaru (os o gwbl)?

## Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

27. Os nad yw ymgyfreitha Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 yn llwyddiannus, a fydd y Llywodraeth yn ceisio eithriadau pellach o dan delerau'r Ddeddf?

28. Os na ellir sicrhau eithriadau, pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru?

29. A fyddai modd i chi gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Senedd am unrhyw anghydfodau gyda Llywodraeth y DU ynghylch eithriadau? Ar ba bwynt yn y broses yr ydych yn bwriadu darparu hysbysiadau o'r fath?

30. Rydym yn cydnabod eich sylwadau am y sefyllfa ynghylch y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) (Cofnod y Trafodion 128-136). Fodd bynnag, a fyddai modd i chi egluro a yw'r cynigion i newid y prosesau awdurdodi presennol ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig, ym marn Llywodraeth Cymru, yn dod o fewn yr eithriadau sy'n ymwneud â diogelu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion?

31. A fyddai modd i chi nodi asesiad Llywodraeth Cymru o effaith bosibl Bil Protocol Gogledd Iwerddon ar Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, gan gynnwys yr effaith ar y pwerau a ddarperir i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r Protocol?

## Fframweithiau cyffredin

32. Rydym yn nodi eich sylwadau ar effaith y fframweithiau cyffredin o ran deddfu ar gyfer Cymru. A fyddai modd i chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a fu unrhyw achosion o Lywodraeth Cymru yn newid cyfraith neu bolisi, neu'n peidio â bwrw ymlaen â newid i gyfraith neu bolisi, yn sgil trafodaeth rynglywodraethol drwy un o'r fframweithiau cyffredin?

33. Yn eich llythyr atom, dyddiedig 2 Mawrth 2022, gwnaethoch nodi y byddech yn synnu pe bai unrhyw oedi wedi digwydd o ran polisïau neu fentrau Llywodraeth Cymru ym meysydd y fframweithiau cyffredin, "gan fod prosesau'r Fframweithiau Cyffredin bellach yn rhan gynhenid o sut y

caiff polisi ei ddatblygu yn y meysydd lle maent yn berthnasol." A fyddai modd i chi egluro sut yr ydych yn sicrhau nad yw gwneud penderfyniadau rhynglywodraethol drwy'r fframweithiau cyffredin yn arwain at wanhau rôl y Senedd a rhanddeiliaid Cymru yn y broses o lunio cyfreithiau a pholisïau ar gyfer Cymru?

34. Yn y llythyr dan sylw, gwnaethoch gytuno y dylai Llywodraeth Cymru ein hysbysu pan fydd anghydfod yn ymwneud â'r fframweithiau cyffredin yn cael ei gyfeirio at Weinidogion. Pam na roddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r Senedd fod anghydfod wedi cael ei godi drwy'r fframwaith cyffredin ar adnoddau a gwastraff ynghylch y cais a wnaed am eithriad o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU ar gyfer plastigion untro?

35. Yn yr un llythyr, gwnaethoch hefyd gytuno y byddai Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Senedd mewn achosion lle mae deddfwriaeth yn ymwneud ag un o'r fframweithiau cyffredin. Nid yw Llywodraeth Cymru bob amser wedi hysbysu'r Senedd am y berthynas rhwng is-ddeddfwriaeth mewn maes polisi fframwaith cyffredin a'r fframwaith cyffredin dan sylw. A wnewch chi ymrwymo i wneud hyn?

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Eitem 9.10

HOUSE OF LORDS

European Affairs Committee

House of Lords
London
SW1A 0PW

Tel: 020 7219 6083
hleuroaffairs@parliament.uk

Huw Irranca-Davies MS
Chair, Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

23 August 2022

By email: SeneddLJC@senedd.wales

Dear Mr Irranca-Davies,

**Lords European Affairs Committee inquiry into the future UK-EU relationship**

The European Affairs Committee has just launched an inquiry into the UK's future relationship with the EU. This wide-ranging inquiry will cover a number of topics, including the political, diplomatic, and institutional relationship, foreign policy and security, environment and climate change, and culture, education and the movement of people.

The Committee recognises that issues of this importance require input from as wide a range of stakeholders as possible, and most especially from colleagues in the devolved parliaments across the UK. Members have therefore asked me to write to you personally to make you aware of this inquiry and to ask you to consider whether your Committee would be willing to share your valuable perspective on the matters raised in the call for evidence.

In a further demonstration of the Committee's commitment to hearing from colleagues and stakeholders across the UK, we are hoping to visit Cardiff early in the new year to meet stakeholders and take formal evidence for this inquiry. We would very much appreciate the opportunity to engage with your Committee at that time.

Yours sincerely,

Lord Kinnoull

Chair of the European Affairs Committee

Department for Levelling Up, Housing & Communities

**Rt Hon Greg Clarke MP**
*Secretary of State for Levelling Up, Housing and Communities*

***Department for Levelling Up, Housing and Communities***
4th Floor, Fry Building
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

Huw Irranca-Davies
Chair, Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Our ref: 19621912

30 August 2021

Dear Huw,

Thank you for your letter of 20 July regarding the UK Government's engagement with the Welsh Government in relation to legislation which affects devolved areas. The new Inter governmental structures are a positive means of facilitating joint working between the UK and devolved governments. Whilst I have not attended the meetings myself, it has been good to see the follow up activity from the last Inter Ministerial Group discussion on collaboration and information-sharing on building safety. I am grateful for the work going on to prepare for the next meeting on lessons learned on our respective approaches to homelessness and for the Welsh Government agreeing to host.

I appreciate the importance of the devolved governments and legislatures having appropriate time to consider relevant legislation, and appreciate the work conducted by committees such as yours to scrutinise legislation.

My officials proactively provide guidance and support on engagement to UK Government bill teams throughout a bill's development and parliamentary passage. Engagement at official level should take place when developing policy which could affect devolved matters, and this engagement should continue throughout the bill's passage, including the sharing of information to allow devolved government counterparts to make informed policy decisions. This engagement is also important to identify where a UK government bill can include provisions within a devolved legislature's competence and enable timely pragmatic solutions to policy challenges to deliver for people of Wales freeing up devolved legislatures time whilst respecting their legislative competence via the legislative consent process.

It is important that officials continue to work closely, not least as a bill's passage through Parliament can be complicated and not all eventualities can be predicted. Bill amendments in particular often need rapid work to respond to specific circumstances. There are some circumstances in which legislation is developed at

pace, for instance emergency legislation to address specific situations. In these instances, I would still hope for all reasonable steps to be taken to engage with the devolved governments.

We will continue to work with devolved governments to strengthen ways of working and improve engagement on legislation through the relevant IGR structures.

Thank you again for your correspondence,

I am copying this letter to the Secretary of State for Wales.

**Rt Hon Greg Clarke MP**
**Secretary of State for Levelling Up, Housing and Communities**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Greg Clark AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau

20 Gorffennaf 2022

Annwyl Greg

Cysylltiadau rhynglywodraethol: cynigion ar gyfer Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig

Fel y gwyddoch, daeth Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i gytundeb ar ganlyniad yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn gynharach eleni.

Roeddem yn croesawu'r canlyniad fel cam cadarnhaol ymlaen, gan y byddai'n debygol o arwain at fwy o gydweithredu rhwng llywodraethau. Fe wnaethom ni hefyd nodi **gohebiaeth** gan y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, y cyn Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol, a soniodd am y trefniadau rhynglywodraethol newydd sy'n cychwyn cyfnod newydd ar gyfer cydweithio rhwng y DU a'r llywodraethau datganoledig ac 'uchelgais Llywodraeth y DU i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig yn gynharach o lawer' lle mae materion yn ymwneud â chydsyniad deddfwriaethol.

Rydym yn derbyn y bydd yn cymryd amser i'r trefniadau newydd ymsefydlu ac yn nodi bod cynnydd eisoes yn cael ei wneud, gyda phwyllgorau rhyngweinidogol amrywiol wedi'u sefydlu a chyfarfodydd eisoes wedi'u cynnal.

Serch hynny, rydym yn ymwybodol o bryderon ynghylch cydweithredu ar Filiau Llywodraeth y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig. Ar 17 Mehefin, **ysgrifennodd** y Cwnsler Cyffredinol atom gan ddweud, mewn rhai achosion, nad yw Llywodraeth bresennol y DU yn rhannu unrhyw wybodaeth am Filiau cyn eu cyflwyno. Mae gohebiaeth gan Weinidogion Cymru y gwnaethom ei thrafod yn ein cyfarfod ar 4 Gorffennaf yn cadarnhau bod hyn yn wir yn achos nifer o Filiau Llywodraeth y DU, gan gynnwys y **Bil Rheoleiddio Tai Cymdeithasol**, **Bil Protocol Gogledd**

**Iwerddon**, y **Bil Technolegau Genetig (Bridio Manwl).** a'r **Bil Hawliau**. Ar ben hynny, fe wnaeth **datganiad ysgrifenedig** gan Lywodraeth Cymru dynnu sylw hefyd at bryderon yn ymwneud â Bil ar gyfraith yr UE a ddargedwir.

Mae'n siomedig darllen yr ohebiaeth hon, a'r datganiad ysgrifenedig, ac maent yn awgrymu dechrau llai na boddhaol i'r dull rhynglywodraethol newydd mewn rhai meysydd.

Byddem yn ddiolchgar felly pe gallech esbonio sut y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau nad yw hyn yn parhau i ddigwydd mewn perthynas ag unrhyw Filiau Llywodraeth y DU yn y dyfodol sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig, ac a fyddech yn ymrwymo i dynnu ein pryderon at sylw adrannau Llywodraeth y DU.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol i ni ddeall pa brosesau sy'n cael eu dilyn pan fydd Llywodraeth y DU yn penderfynu deddfu mewn maes datganoledig, gan gynnwys:

- ar ba gam yn y broses y mae'n ofynnol i adrannau Llywodraeth y DU gychwyn trafodaethau â Llywodraeth Cymru;
- y wybodaeth amserlennu a ddarperir i helpu Llywodraeth Cymru i ystyried y cynigion, gan gynnwys drafftiau deddfwriaethol terfynol; ac
- ar ba bwynt yn y broses y mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â pharatoi gwelliannau'r llywodraeth a'r cyfnod hysbysu a roddir cyn cyflwyno gwelliannau.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd cael ymateb erbyn 5 Medi 2022.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Tâl-feistr Cyffredinol a Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, Prif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn Llywodraeth Cymru.

Rwyf hefyd yn dod â hyn at sylw Pwyllgorau seneddol eraill yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mr William Wragg AS, Cadeirydd, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, Tŷ'r Cyffredin
Y Farwnes Drake CBE, Cadeirydd, Pwyllgor Cyfansoddiad, Tŷ'r Arglwyddi
Ms Clare Adamson, Cynullydd, Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant, Senedd yr Alban

21 Gorffennaf 2022

Annwyl gyfeillion,

Cysylltiadau rhynglywodraethol: cynigion i Filiau'r DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig

Gweler ynghlwm lythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ynghylch cysylltiadau rhynglywodraethol. Mae'r llythyr yn dwyn sylw at sawl maes yr ydym yn ceisio eglurhad yn eu cylch yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod ein Pwyllgor ar 4 Gorffennaf 2022. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau pellach.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

1 Medi 2022

Annwyl Mark a Huw,

Diolch i chi am eich llythyr a'r cwestiynau a gyflwynwyd gan eich Pwyllgorau perthnasol ynghylch Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Caffael. Mae'n bleser gennyf ddarparu fy ymateb, sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

Edrychaf ymlaen at drafod y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 21 Medi.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

1. **I ba raddau y gwnaeth Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r amser y mae wedi'i nodi ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) er mwyn cyflwyno Bil Caffael ehangach a fyddai yn cwmpasu Bil Caffael y DU yn ogystal â Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)?**

   Roedd cryn dipyn o waith eisoes wedi'i wneud ar ddatblygu cwmpas, polisi, a chyfarwyddiadau cyfreithiol ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ("Bil SPPP") pan gafodd Gweinidogion Cymru yr opsiwn i ymuno â Bil Caffael Llywodraeth y DU, ac roedd y gwaith ymgynghori ar y Bil SPPP eisoes wedi'i wneud.

   Byddai ymgorffori'r Bil Caffael o fewn y Bil SPPP yn golygu newid cwmpas y Bil SPPP, gan y byddai'n cael ei newid i fod yn Fil Caffael yn bennaf ac yn symud ei ffocws oddi wrth Bartneriaethau Cymdeithasol. Hefyd, mae'r ddau Fil yn anelu at gyflawni gwahanol bethau - mae'r Bil Caffael yn canolbwyntio ar y prosesau sy'n gosod y seiliau ar gyfer caffael, tra bo'r Bil SPPP yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn arwain at ganlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol.

   Hefyd, byddai oedi sylweddol cyn y gellid gosod y Bil SPPP gerbron y Senedd, a hynny oherwydd proses ymgynghori ychwanegol. Byddai hynny wedi arwain at Lywodraeth Cymru'n gweithredu eu deddfwriaeth caffael yn hwyrach na Llywodraeth y DU, gan achosi:

   - Dryswch, anghysondeb, ac ansicrwydd i awdurdodau contractio Cymru (WCAs) a chyflenwyr, yn enwedig y rhai sy'n cynnal eu busnes y ddwy ochr i'r ffin. Byddai hyn wedi cael effaith negyddol ar fusnesau bach a chanolig (BBaCh) sydd angen cysondeb er mwyn gwella eu gallu i optimeiddio effeithlonrwydd a lleihau costau.

   - Marchnad Cymru'n dod yn anaddawol fel cyfle busnes os yw gweithdrefnau Cymreig yn wahanol i rai Lloegr. O ystyried bod gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cynrychioli llai na 5% o gyfanswm y DU, mae'n hanfodol bod Cymru'n parhau i fod yn ddeniadol i gyflenwyr.

   - Anfodlonrwydd a rhwystredigaeth ymhlith rhanddeiliaid y sector cyhoeddus yng Nghymru, sy'n awyddus i gael y sicrwydd a'r sefydlogrwydd a gynigir gan un drefn gaffael gyson.

2. **Rydym wedi derbyn cyngor gan y Cwnsler Cyffredinol nad yw darparu adnoddau na chapasiti yn broblemau o ran cyflwyno Biliau Cymru. O ystyried y nifer sylweddol o ddarpariaethau mewn meysydd datganoledig sydd o fewn y Bil, a'r arbenigedd sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar faterion caffael, pam na roddwyd adnodd i ddatblygu Bil Caffael Llywodraeth Cymru ehangach?**

Fel y nodwyd yn fy ymateb i gwestiwn un, roedd rhesymau ymarferol pwysig dros ymuno â Bil Caffael Llywodraeth y DU, gan gynnwys sicrhau cysondeb a sefydlogrwydd i'r prynwr a'r cyflenwr, ac i BBaCh Cymru yn enwedig.

Mae hyn hefyd yn gyson â'n hegwyddorion o ran argymell cydsyniad â Biliau'r DU, i'r graddau y mae natur ryng-gysylltiedig y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn fwy effeithiol a phriodol i symud darpariaethau'r ddwy system ar yr un pryd a chan ddefnyddio'r un offeryn deddfwriaethol.

**3. O ystyried fod hwn yn faes polisi cyhoeddus hynod bwysig, a yw'n briodol i ddefnyddio dull deddfwriaethol sy'n atal Aelodau etholedig y Senedd rhag gwneud gwaith craffu deddfwriaethol manwl ar bwnc y Bil, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid Cymru?**

Ar ôl i Lywodraeth y DU gyhoeddi eu Papur Gwyrdd *Transforming Public Procurement,* cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, a nodwyd bod rhanddeiliaid yng Nghymru ar y cyfan yn fodlon â chynigion y Papur Gwyrdd. Mae rhagor o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i wneud ar ystod o feysydd penodol sy'n gysylltiedig â Bil, gan gynnwys cynigion mewn perthynas â thryloywder o ran caffael is na'r trothwy a Datganiad Polisi Caffael Cymru.

Bydd y broses cydsyniad deddfwriaethol yn sicrhau bod modd i'r Senedd wneud gwaith craffu, gan helpu i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn glynu wrth yr addewidion a wnaethant pan gytunom i gynnwys awdurdodau contractio Cymru yn y Bil. At hynny, bydd sylwedd deddfiad y Bil yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth a chanllawiau eilaidd dwyieithog sydd i'w datblygu gan Lywodraeth Cymru wrth i'r Bil barhau â'i daith ddeddfwriaethol. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau cyfatebol mewn meysydd sylweddol o'r Bil, felly bydd lefel sylweddol o ddeddfwriaeth eilaidd a fydd yn destun craffu deddfwriaethol manwl yn y Senedd, a bydd gwaith ymgysylltu ac ymgynghori ehangach yn cael ei wneud â rhanddeiliaid ledled Cymru.

**4. Pa mor hygyrch fydd y drefn gaffael newydd ac yntau wedi'i rannu dros ddau Fil?**

Mae pwrpas y ddau Fil yn wahanol. Mae'r Bil Caffael yn canolbwyntio ar y prosesau sy'n gosod y sylfeini ar gyfer caffael, tra bo Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn anelu i sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn arwain at ganlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol. Bydd y drefn gaffael newydd yn hygyrch i gyflenwyr gan y bydd tendrau yn cael eu cynllunio i ateb gofynion y ddau Fil pan fydd angen. Dylai'r mesurau tryloywder gwell hefyd sicrhau bod cyfleoedd tendro, data caffael, ac ati, yn fwy gweladwy i gyflenwyr o gymharu â hyn o bryd.

**5. I ba raddau yr ydych chi a'ch swyddogion yn rhan o'r gwaith o lunio a drafftio cymalau Bil Caffael y DU? A oeddech chi fel Gweinidog yn ei gwneud yn ofynnol i bob cymal gael cymeradwyaeth unigol?**

Bu fy swyddogion yn cydweithio’n agos gyda'u cymheiriaid yn Swyddfa'r Cabinet ar ddatblygu'r Bil Caffael, ac maent yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amcanion a deddfwriaeth polisi Cymru. Maen nhw'n cwrdd yn aml a byddant yn parhau i archwilio unrhyw ddiwygiadau ychwanegol y mae’r Llywodraeth yn eu gwneud i gymalau'r Bil wrth iddo symud drwy system graffu Senedd y DU.

Rwyf wedi dwyn sylw at feysydd lle nad oedd cymalau arfaethedig y Bil yn cyd-fynd ag amcanion polisi Cymru. O ganlyniad, mae darpariaeth wahanol wedi ei chynnwys yn y Bil ar gyfer awdurdodau contractio yng Nghymru er mwyn adlewyrchu'r amcanion polisi penodol hynny.

**6. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid Cymru i lywio'r broses ddrafftio?**

Cyhoeddodd Swyddfa Cabinet y DU eu Papur Gwyrdd *'Transforming Public Procurement'* ym mis Rhagfyr 2020. Yn ystod cyfnod ymgynghori'r Papur Gwyrdd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid i geisio eu barn ar sut y gellid diwygio deddfwriaeth gaffael er budd Cymru, ac i fesur eu hawch am y cynigion yn y Papur Gwyrdd.

Roedd hyn yn cynnwys sesiynau ymgysylltu wedi'u targedu gyda sector preifat Cymru, gan gynnwys Diwydiant Cymru, y diwydiant adeiladu, a chwmnïau cyfreithiol, er mwyn deall effaith cynigion y Papur Gwyrdd ar fusnesau Cymru.

Dilynwyd y sesiynau hyn â rhanddeiliaid gydag arolwg lle dywedodd y mwyafrif o randdeiliaid Cymru eu bod yn fodlon ar gyfeiriad y diwygiadau a gynigiwyd ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth y DU.

**7. Beth oedd rôl y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer caffael cyhoeddus wrth ddatblygu'r Bil?**

Mae Gweithgor eisoes wedi'i sefydlu o dan y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer caffael cyhoeddus. Cynhelir cyfarfodydd misol ac mae'r pedair Gweinyddiaeth yn mynychu ac mae datblygiad y Bil yn eitem sefydlog ar yr agenda.

**8. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod cymalau 114 ac 116 angen cydsyniad y Senedd. Allech chi amlinellu sut y gwnaethoch ddod i'r casgliad nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gymalau 114 ac 116?**

Mae cymalau 114 a 116 yn ddarpariaethau technegol sy'n ymwneud â sut mae'r Bil yn gweithio yn hytrach na darpariaethau o sylwedd, ac fel mater o arfer nid ydym yn tueddu i gynnwys cymalau anweithredol o fewn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

**9. Mae cymalau 50, 62, 63, 65, 79 a 80 yn cynnwys pwerau Harri’r Wythfed i Weinidogion Cymru, yn amodol ar y weithdrefn negyddol. Beth oedd eich rôl chi**

**wrth ddewis y gweithdrefnau hyn ac a ydych chi'n credu bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y pwerau hyn?**

Mae fy swyddogion wedi ystyried y pwerau a'r gweithdrefnau cysylltiedig fel rhan o'u hadolygiad o'r cymalau drafft a ddarperir gan Lywodraeth y DU ac maent wedi darparu adborth fel y bo'n briodol. Mae rhai pryderon o ran gweithdrefnau rhai o'r cymalau hyn wedi'u codi yn Adroddiad y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio.

Mae'r trafodaethau rhwng fy swyddogion a'u cymheiriaid yn Swyddfa'r Cabinet yn parhau mewn perthynas â'r ymateb i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio.

**10. A allwch chi ddarparu naratif ar y pwerau cydredol o fewn y Mesur a sut mae'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'i chanllawiau ar y mater hwn?**

Mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau pwerau cyfatebol ac annibynnol er mwyn gwneud rheoliadau ar gyfer mwyafrif helaeth o bwerau yn y Bil.

Mae yna bŵer cydredol plws yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd, mewn perthynas ag adran 62 (anfonebu electronig). Cytunodd y Cwnsler Cyffredinol a minnau fod rhesymeg gref dros y sefyllfa hon. Ystyriwyd bod pŵer cydredol plws yn briodol, yn bennaf er mwyn darparu cysondeb i'r safonau a'r cystrawennau e-anfonebu sylfaenol ar draws gwledydd y DU, a hynny er mwyn osgoi dryswch a chostau ychwanegol i gyflenwyr. Yn unol â'r canllawiau, mae fy swyddogion wedi sicrhau bod cymhwysedd gweithredol a deddfwriaethol y Senedd wedi'i ddiogelu gan fod hwn yn bŵer cydredol plws ac mae eithriad (*carve-out*) wedi'i gynnwys o fewn adran 106 o'r Bil.

Mae'r pwerau eraill o fewn y Bil sydd, ar hyn o bryd, wedi'u rhestru fel rhai cydredol yn destun trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU, fel y nodir ym mharagraff 119 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Mae'r Bil yn dal i fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol ac mae'n bosib y bydd pwerau cydredol pellach o ganlyniad i ddiwygiadau posib. Mae fy swyddogion yn monitro diwygiadau posib a'u heffaith ar Gymru.

**11. Pa waith dadansoddi ydych chi wedi'i wneud o ran sut mae pob cymal o'r Bil yn gwahaniaethu oddi wrth y sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol neu yn ei efelychu, ac a all y Pwyllgorau weld y dadansoddiad hwn?**

Mae gwahaniaethau sylweddol yn y dull gweithredu rhwng y cymalau o fewn y Bil a gynigir a'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol. Er enghraifft, mae'n cyfuno agweddau ar Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (PCR), Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 (UCR), Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 (CCR) a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus Amddiffyn a Diogelwch 2011 (DSPCR) oll o fewn un darn o ddeddfwriaeth. O'r herwydd,

nid yw'n briodol i swyddogion gynnal dadansoddiad cymal wrth gymal o'r Bil er mwyn ei gymharu â’r rheoliadau presennol.

O ganlyniad, mae fy swyddogion wedi defnyddio dull cyfannol wrth adolygu'r Bil, gan adolygu cymalau penodol yn erbyn y ddeddfwriaeth bresennol dim ond pan fo hynny'n briodol.

**12. A ydych chi wedi cynnal asesiad o effeithiau penodol y Bil fel y'i cyflwynwyd ar Gymru?**

Gan fod hwn yn un o Fesurau Llywodraeth y DU, nid oes gofyniad i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad o’r effeithiau penodol i Gymru. Yn hytrach, cyfrifoldeb adran arweiniol Llywodraeth y DU (yn yr achos hwn, Swyddfa'r Cabinet) yw cynnal asesiad effaith ac ystyried y costau a'r buddion cymharol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig ac os byddai unrhyw effeithiau ychwanegol ar Gymru. Gellir gweld yr asesiad effaith ar wefan Senedd y DU (<https://bills.parliament.uk/bills/3159/publications>).

Mae fy swyddogion wedi adolygu'r asesiadau effaith perthnasol a wnaed gan Lywodraeth y DU ar y Bil fel y’i cyflwynwyd, ac rwy'n fodlon nad oes unrhyw faterion niweidiol wedi eu nodi o safbwynt polisi Cymru. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda swyddfa'r Cabinet ar ddatblygu'r Bil, a byddent yn ystyried effaith unrhyw ddiwygiadau a wneir ar Gymru yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â’r Bil fel y nodwyd yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Bydd asesiadau effaith yn cael eu cynnal ar y ddeddfwriaeth eilaidd a fydd yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru, a byddent ar gael wrth iddynt gael eu creu.

**13. Mae'r Memorandwm yn nodi "Mae'n debygol y bydd nifer o gostau ynghlwm â diwygio caffael cyhoeddus yng Nghymru er bod yr union fanylion i'w cadarnhau o hyd". A allwch chi ymrwymo i rannu manylion y costau hyn gyda'r Pwyllgorau ar ôl iddynt gael eu cadarnhau?**

Gallaf. Rwy'n ymrwymo i rannu manylion y costau hyn pan fyddant wedi'u cadarnhau.

**14. A allech chi roi diweddariad o ran y trafodaethau â Llywodraeth y DU ar y diwygiadau sy’n cael eu cyflwyno i'r Bil er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gennych ym mharagraff 119 y Memorandwm?**

Mae’r trafodaethau â Llywodraeth y DU yn parhau ynghylch y pryderon a nodwyd ym mharagraff 119 o'r Memorandwm.

Rydym wedi cyrraedd sefyllfa lle’r ydym oll yn gytûn ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud â'r "pŵer datgymhwyso ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd". Nid yw'r pŵer hwn wedi ei gynnwys yn y Bil ac mae opsiynau'n cael eu hystyried er mwyn ei ddatblygu drwy ddeddfwriaeth y Senedd.

Mae'r pryder ynghylch dyletswydd Awdurdod Contractio Cymru i sicrhau bod Datganiad Polisi Caffael Cymru yn un y gellir ei "orfodi mewn achosion sifil" hefyd yn cael sylw, ac mae diwygiad gan y Llywodraeth yn cael ei gynnig yn y cam Pwyllgor Arglwyddi er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ar weddill y pryderon a restrir ym mharagraff 119. Cefais lythyr hefyd gan y Gweinidog Rees-Mogg ar 12 Awst a oedd yn dweud ei fod wedi nodi fy mhryderon ac wedi gofyn i'w swyddogion barhau i weithio ar y cyd â fy rhai i drwy gydol yr haf a mis Medi, a hynny er mwyn datrys y pryderon sy'n weddill tra bo'r Bil yn mynd drwy'r broses seneddol. Felly, byddwn yn parhau i geisio datrysiadau i'r materion sy'n weddill a byddwn yn rhoi adborth i'r pwyllgorau wrth i gynnydd pellach gael ei wneud.

**15. A ydych chi wedi defnyddio'r trefniadau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd i ddatrys materion sy'n peri pryder?**

Na, nid ydym wedi defnyddio'r trefniadau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd. Mae unrhyw faterion sy'n peri pryder wedi cael eu trin, ac yn parhau i gael eu trin, drwy ohebiaeth a chyfarfodydd rhwng swyddogion a/neu Weinidogion.

**16. A fyddwch yn cyflwyno eich deddfwriaeth eich hun i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n peri pryder na allwch eu datrys?**

O ystyried beth yw'r materion sy'n peri pryder, ni fyddai'n bosib cyflwyno ein deddfwriaeth ein hunain i'w datrys. Er enghraifft, mae angen ymdrin â'r mater ynghylch y diffiniad o awdurdodau datganoledig Cymru yn y Bil Caffael ei hun oherwydd, p'un a oedd Cymru'n rhan o'r Bil hwn ai peidio, byddai angen diffiniad effeithiol y mae pawb yn cytuno arno er mwyn sicrhau eglurder o ran pa ochr o'r llinell y byddai awdurdod contractio yn glanio.

**17. A fyddwch yn ymrwymo i beidio â defnyddio cytundeb rhynglywodraethol gyda Llywodraeth y DU fel mecanwaith i ddatrys eich pryderon?**

Byddaf yn ymrwymo i beidio â defnyddio cytundeb rhynglywodraethol gyda Llywodraeth y DU fel mecanwaith i ddatrys ein pryderon. Fodd bynnag, byddaf yn adolygu hyn wrth i drafodaethau barhau ac wrth i'r Bil barhau ar ei daith.

**18. Pa rôl fydd gennych chi a'ch swyddogion yn ystod y broses graffu a diwygio yn San Steffan?**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnig sawl diwygiad sydd wedi'u cynnwys gyda diwygiadau'r Llywodraeth ac sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau pellach gan y Llywodraeth yn adlewyrchu blaenoriaethau polisi Gweinidogion Cymru yn llawn.

**19. Pa reoliadau yn eich tyb chi fydd yn angenrheidiol wrth weithredu'r diwygiadau o dan y Bil, ac o dan ba bwerau (a gweithdrefnau) yn y Bil? A fydd y rheoliadau hynny a gyflwynir gan Weinidogion Cymru yn gyson ag unrhyw rai a gyflwynir gan Weinidogion Llywodraeth y DU?**

Mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau pwerau i wneud rheoliadau sy’n annibynnol ac yn gyfatebol i rai Gweinidogion Llywodraeth y DU ar gyfer mwyafrif helaeth o bwerau perthnasol yn y Bil. Felly, bydd angen i Weinidogion Cymru ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth eilaidd mewn perthynas â'r meysydd datganoledig. Mae hyn yn cynnwys rheoliadau sy'n ymdrin â meysydd allweddol a fydd angen cael eu sefydlu er mwyn i'r drefn newydd fod yn weithredol, megis y rhai sy'n ymwneud â'r Drefn Cyffyrddiad Ysgafn, trothwyon ariannol ar gyfer contractau is na'r trothwy, a hysbysiadau caffael.

Mae Cymal 110(10) o'r Mesur Caffael yn rhestru'r pwerau i wneud rheoliadau sydd wedi’u cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon ac sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru ac sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd rheoliadau a wneir o dan unrhyw adran arall (sydd heb eu rhestru yng nghymal 110(10)) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Mae fy swyddogion wrthi'n datblygu cynllun prosiect a fydd yn llywio'r dull o ddatblygu a gweithredu'r ddeddfwriaeth eilaidd yng Nghymru. Bydd swyddogion yn parhau i gydweithio'n agos gyda llywodraeth y DU ar ddatblygu'r ddeddfwriaeth eilaidd er mwyn sicrhau cysondeb a chydlyniad wrth weithredu darpariaethau'r Bil, lle bo hynny'n briodol. Bydd dull pragmatig yn cael ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod y Bil yn ateb gofynion Awdurdodau Contractio Cymru yn ogystal â rhai’r cyflenwyr.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

28 Gorffennaf 2022

Annwyl Rebecca

Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Caffael Llywodraeth y DU

Yn ein cyfarfodydd ar 6 Gorffennaf a 11 Gorffennaf, gwnaethom drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("Memorandwm") Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael ("y Bil"). Cytunodd y Pwyllgorau y dylem ysgrifennu atoch i ofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion. Byddem yn gwerthfawrogi cael eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn erbyn 5 Medi 2022.

1. I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio'r amser y mae wedi'i nodi ar gyfer y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) i gyflwyno Bil caffael ehangach a fyddai'n cynnwys cwmpas Bil Caffael y DU a'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)?

2. Yn ôl cyngor a gawsom gan y Cwnsler Cyffredinol, nid yw adnoddau na chapasiti yn broblem o ran cyflwyno Biliau Cymreig. O ystyried nifer sylweddol y darpariaethau mewn meysydd datganoledig yn y Bil a'r arbenigedd sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar faterion caffael, pam na ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru adnoddau i ddatblygu Bil caffael ehangach, mwy cydlynol?

3. O gofio bod y maes polisi cyhoeddus hwn mor bwysig, pam y'i hystyrir yn briodol mabwysiadu dull deddfwriaethol sy'n atal Aelodau etholedig o'r Senedd rhag gwneud gwaith craffu deddfwriaethol manwl ar destun y Bil, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru?

4. Pa mor hygyrch fydd y drefn gaffael newydd a hithau'n cael ei rhannu rhwng dau Fil?

5. I ba raddau yr ydych chi a'ch swyddogion wedi ymwneud â'r broses o lunio a drafftio cymalau ym Mil Caffael y DU? A oedd angen i chi fel Gweinidog gymeradwyo cymalau unigol?

6. Pa waith ymgynghori a gynhaliwyd â rhanddeiliaid Cymru i lywio'r broses ddrafftio?

7. Pa rôl y mae'r fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer caffael cyhoeddus wedi'i chwarae yn natblygiad y Bil?

8. Mae Llywodraeth y DU o'r farn y bydd angen cydsyniad y Senedd ar gymalau 114 a 116. A allech amlinellu sut yr ydych wedi dod i'r casgliad nad oes angen caniatâd y Senedd ar gymalau 114 ac 116?

9. Mae cymalau 50, 62, 63, 65, 79 ac 80 yn cynnwys pwerau Harri VIII i Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Pa rôl a chwaraewyd gennych o ran dewis y gweithdrefnau hyn ac a ydych yn credu bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y pwerau hyn?

10. A allwch roi naratif ar gyfer y pwerau cydredol yn y Bil a sut mae'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'i chanllawiau ar y mater hwn?

11. Pa ddadansoddiad ydych chi wedi'i wneud o ran sut y mae pob cymal o'r Bil yn wahanol i'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol neu'n gopi union ohoni, ac a gaiff y Pwyllgorau weld y dadansoddiad hwn?

12. A ydych wedi cynnal asesiad effaith penodol i Gymru o'r Bil fel y'i cyflwynwyd?

13. Mae'r Memorandwm yn nodi "Mae'n debyg y bydd nifer o gostau'n gysylltiedig â'r gwaith o ddiwygio caffael cyhoeddus yng Nghymru, er nad yw'r union fanylion wedi cael eu cadarnhau hyd yn hyn". A allwch chi ymrwymo i rannu manylion y costau hyn â'r Pwyllgorau unwaith y byddant wedi'u cadarnhau?

14. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau â Llywodraeth y DU o ran gwelliannau sy'n cael eu cyflwyno i'r Bil i fynd i'r afael â'r pryderon a nodir gennych ym mharagraff 119 o'r Memorandwm?

15. A ydych chi wedi defnyddio'r trefniadau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd i ddatrys materion sy'n peri pryder?


16. A wnewch chi gyflwyno eich deddfwriaeth eich hun i gwmpasu materion sy'n peri pryder na allwch eu datrys?

17. A wnewch chi ymrwymo i beidio â defnyddio cytundeb rhynglywodraethol gyda Llywodraeth y DU fel mecanwaith ar gyfer datrys eich pryderon?


18. Beth fydd eich cyfranogiad chi a’ch swyddogion drwy gydol y broses graffu a diwygio yn San Steffan?

19. Pa reoliadau ydych chi’n rhagweld a fydd yn angenrheidiol i weithredu’r diwygiadau o dan y Bil ac o dan ba bwerau (a gweithdrefnau) yn y Bil? A fydd y rheoliadau hynny a gyflwynir gan Weinidogion Cymru yn gyson ag unrhyw rai a ddatblygir gan Weinidogion Llywodraeth y DU?

Yn gywir,



Mark Isherwood
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

5 Medi 2022

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Gorffennaf yn amgáu'r adroddiad ar Fynediad at Gyfiawnder gan Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd, sy'n tynnu sylw at faterion pwysig yn ymwneud â chyfiawnder a'r gyfraith yng Nghymru.

Rwy'n croesawu penderfyniad y Pwyllgor i gomisiynu'r gwaith hwn, ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddarparu fy sylwadau fy hun isod.

Denu a chadw talent
Mae'r rhain yn faterion arwyddocaol iawn sy'n effeithio ar y sector cyfreithiol ac ar ddarparu cyngor cyfreithiol yng Nghymru, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae gan Lywodraeth Cymru bryderon tebyg i'r rhai a godwyd gan gyfranwyr i'r adroddiad hwn am yr heriau y mae'r sector cyfreithiol yn eu hwynebu. Fel y nodir yn ein cyhoeddiad Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, rydym felly wedi bod yn gweithio i gyflwyno amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys:

- ym mis Ebrill eleni, cyhoeddwyd fframwaith gennym ar gyfer dau gymhwyster prentisiaeth cyfreithiol newydd, paragyfreithwyr ar lefel 3 a pharagyfreithwyr uwch ar lefel 5, gyda'r nod o ddenu talent lleol i'r proffesiynau cyfreithiol a gwella symudedd cymdeithasol ac amrywiaeth y gweithlu. Mae cyflogwyr a darparwyr yn paratoi ar gyfer y garfan gyntaf o fyfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2022-2023

- rydym ar fin lansio tendr i 'dadansoddi'r anghenion' ar gyfer prentisiaethau cyfreithwyr, ac rydym y disgwyl y bydd hwn yn rhoi tystiolaeth werthfawr o ran deall sut y gallwn helpu practisau cyfreithiol yng Nghymru i ddenu, datblygu a chadw talent

- gweithio gyda Busnes Cymru i ddarparu pecyn o gymorth busnes wedi'i deilwra ar gyfer practisau cyfreithiol yng Nghymru

- sefydlu gweithgor gyda Chylchdaith Cymru a Chaer i ddatblygu'r bar cyfraith gyhoeddus yng Nghymru.

Mae gan Gyngor y Gyfraith, Cymru, y potensial i chwarae rhan werthfawr o ran cefnogi rheoli talent yn sector y gyfraith yng Nghymru. Mae ei weithgor gwasanaethau cyfreithiol yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bwriadu datblygu strategaeth i gefnogi hyfywedd y proffesiynau cyfreithiol yng Nghymru, ac mae hefyd wedi sefydlu is-grŵp i gefnogi ehangu prentisiaethau.

Effaith Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012
Rwy'n cytuno â phryder dwys eich panel am effeithiau LASPO. Yn y sector cyfraith droseddol, mae degawd o ffioedd disymud wedi golygu cwymp mewn ymarferwyr cymorth cyfreithiol a system gyfiawnder ddwy haen. Fe wnaeth hyd yn oed Lywodraeth y Deyrnas Unedig gydnabod y niwed hwn pan benododd Syr Christopher (yr Arglwydd bellach) Bellamy i ystyried sut y gellir dad-wneud y niwed. Rydym wedi datgan yn glir iawn wrth weinidogion yn San Steffan bod yn rhaid gweithredu argymhellion yr Arglwydd Bellamy yn llawn.

Rydym hefyd wedi ymateb yn ffurfiol i ymgyngoriadau diweddar Llywodraeth y DU ar yr Adolygiad o'r Prawf Modd Cymorth Cyfreithiol ac ar ffioedd Cymorth Cyfreithiol Mewnfudo gan nodi ein pryderon ynglŷn â'r argyfwng costau byw a'r prinder gwasanaethau cynghori yng Nghymru.

Mae'r effeithiau y tu allan i'r sector troseddol wedi bod yn ddwys. Mae dileu cymorth cyfreithiol yn llwyr o achosion sy'n ymwneud â thai, lles, esgeulustod meddygol, cyflogaeth, dyled a mewnfudo, ynghyd â dileu'r gefnogaeth ar gyfer y rhan fwyaf o achosion cyfraith teulu preifat, wedi atal mynediad at gyfiawnder i bawb ond y rhai hynod gyfoethog. Mae Llywodraeth Cymru wedi camu i'r adwy i helpu i lenwi'r bwlch hwn drwy'r gronfa Gynghori Sengl,[1] ond ni ddylem orfod gwneud yn iawn am ddiffygion llywodraeth San Steffan ac ni allwn helpu pawb sydd bellach yn methu â fforddio'r cyngor a'r gynrychiolaeth gyfreithiol sydd eu hangen arnynt i sicrhau eu hawliau cyfreithiol.

Llysoedd a Thribiwnlysoedd
Fe wnaeth y rhaglen cau llysoedd greu heriau arbennig o ran mynediad at gyfiawnder, oherwydd natur wledig a mynyddig daearyddiaeth Cymru. Codais hyn gyda'r Arglwydd Bellamy pan gwrddais ag ef gyntaf ac rwy'n gwybod ei fod yn deall hynny. Mae'r sefyllfa mewn rhai ffyrdd wedi'i lleddfu drwy fwy o ddefnydd o wrandawiadau ar-lein (gweler yr adran isod), ond nid yw'r rhain ar gael i bawb ac rydym yn pryderu'n fawr o hyd am y bobl hynny nad ydynt yn gallu cymryd rhan yn effeithiol mewn achosion sydd o'r pwys mwyaf i'w bywydau.

Argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru "y dylid llunio a phennu strategaeth ar gyfer Cymru yn ymwneud â darparu mynediad ffisegol a digidol priodol at gyfiawnder gerbron y llysoedd, y tribiwnlysoedd, a ffyrdd eraill o ddatrys anghydfodau, yng Nghymru yn seiliedig ar anghenion pobl Cymru".[2] Rydym ni'n cytuno â hyn, ond hyd yn oed cyn trosglwyddo pwerau i sefydliadau datganoledig, rydym yn credu y gallai ac y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddatblygu strategaeth i Gymru, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yng Nghymru. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi'i godi mewn trafodaethau â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Rwy'n bryderus hefyd am y sylwadau a wnaed yn yr adroddiad ynglŷn ag amharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal yn ddiweddar ar gynllun iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS) ac mae'r canlyniadau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Nid oes deddf sydd ar hyn o bryd yn galluogi dewis rheithgor dwyieithog i glywed achosion lle mae'r Gymraeg i'w defnyddio. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi codi â HMCTS yr angen i ailystyried Deddf Rheithgorau 1974. Nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer

1 £8 miliwn o gyllid i wasanaethau darparu cyngor ledled Cymru | LLYW. CYMRU
2 Rec 39

gwasanaethau cyfieithydd, sy'n golygu bod rhaid i'r trafodaethau ddigwydd yn yr iaith sy'n 'gyffredin i bawb', sef y Saesneg yn anochel.

Yn ddiweddar gwnaed diwygiad i'r Ddeddf Rheithgorau sy'n darparu bod dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain yn addasiad rhesymol y gall barnwyr ei roi i bobl sydd â nam ar eu clyw. Rydym o'r farn y dylai'r gyfraith gael ei newid yn yr un modd fel y gellir cael cyfieithydd i hwyluso trafodaethau gyda rheithgor pan fo'r aelodau'n gymysgedd o siaradwyr dwyieithog, siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a rhai nad ydynt yn medru'r Gymraeg, ac mae angen hyn yn arbennig pan glywir achosion yn Gymraeg. Mae hwn yn fater a fydd yn cael ei godi gyda Chomisiynydd newydd y Gymraeg pan gaiff ei benodi.

Technoleg

Mae'r pandemig wedi cyflymu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y system gyfiawnder. Bydd gwrandawiadau o bell neu sgyrsiau ar-lein rhwng cyfreithiwr a chleient yn lleddfu'r trafferthion teithio a'r oedi sy'n gysylltiedig â llysoedd. Maent yn rhoi'r cyfle i berfformio'n fwy effeithlon ond, fel eich panel, rwy'n pryderu am y rhai sy'n cael eu gadael ar ôl.

Drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 gwyddom nad yw 7% o oedolion Cymru (16 oed a hŷn) yn defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol. Mae hyn yn golygu bod tua 170,000 o unigolion yng Nghymru wedi'u heithrio'n llwyr o'r byd digidol. O'r rhai sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol, mae ein Harolwg Cenedlaethol i Gymru yn dangos nad oes gan 22% y sgiliau digidol sylfaenol i wneud hynny'n ddiogel ac yn hyderus.

Maes a fydd yn cael effaith, er nad oes data cadarn ar gael eto drwy'r Arolwg Cenedlaethol, yw gallu pobl i fforddio cysylltedd/data – a fydd o bosibl yn golygu bod y rhai sy'n defnyddio technoleg ddigidol ar hyn o bryd yn cael eu heithrio. Mae adroddiad gan Sefydliad Bevan 'A snapshot of poverty in Summer 2022 - Bevan Foundation' yn dangos bod 19% o bobl yng Nghymru yn cwtogi eu defnydd o'r we neu ddyfeisiau y gellir eu defnyddio ar y we.

Mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth yn y llysoedd a'r proffesiwn cyfreithiol yn ei gamau cynnar ac mae angen dybryd i sicrhau bod diffygion mewn unrhyw system newydd yn cael eu cywiro ar unwaith. Fe wnaeth defnyddwyr cynnar y Llwyfan Cyffredin a gyflwynwyd gan HMCTS fynegi pryderon am ei gywirdeb ac am ba mor hwylus yr oedd i'w ddefnyddio, ond eto ni chafodd y materion hyn eu cywiro ar unwaith, ac o gofio bod streic wedi'i chynnal oherwydd y mater, gellir dweud bod problemau difrifol yn parhau ag ef.[3]

Hygyrchedd Cyfraith Cymru

Mae'r ymatebion a dderbyniodd y Pwyllgor ac y lluniodd adroddiad arnynt yn adlewyrchu'r pryderon hirsefydlog ynghylch hygyrchedd y gyfraith a'r anawsterau penodol yr ydym yn eu profi yma yng Nghymru mewn rhai achosion (am resymau yr ydym wedi mynegi'n helaeth mewn papurau ac adroddiadau blaenorol). Dyna pam ein bod wedi cymryd y camau a wnaethom yn Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ac yn Dyfodol Cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026. Mae'r rhaglen 5 mlynedd yn cynnwys cyfuniad o brosiectau deddfwriaethol a rhai anneddfwriaethol sydd wedi eu llunio i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Elfen fwyaf uchelgeisiol y rhaglen gyntaf hon yw cydgrynhoi deddfwriaeth ac roeddwn i'n falch iawn o gyflwyno Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i'r Senedd ar 4 Gorffennaf 2022. Mae hwn yn waith sylweddol a fydd yn rhoi manteision ymarferol i'r rhai sy'n ymwneud â'r maes hwn drwy wneud gweithdrefnau gweinyddu a chymhwyso'r gyfraith yn fwy effeithlon a thryloyw. Bydd dod â'r holl gyfraith ar y pwnc hwn at ei gilydd mewn un lle

hefyd yn ei gwneud yn haws i bobl ddeall eu hawliau cyfreithiol a'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

Yn ystod tymor y Senedd hon, byddwn hefyd yn cyflwyno Bil cydgrynhoi a fydd yn symleiddio ac yn moderneiddio'r gyfraith gynllunio, ynghyd â Bil Diddymu Cyfraith Statud a fydd yn ddiddymu neu'n datgymhwyso darpariaethau deddfwriaethol o bob rhan o'r llyfr statud sydd wedi darfod, wedi'u disbyddu neu nad ydynt bellach o ddefnydd ymarferol yng Nghymru.

Mae eich adroddiad cryno yn sôn am offeryn ar-lein a grëwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym ninnau hefyd wedi dechrau archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Byddaf yn adrodd ymhellach ar hyn yn fuan pan fyddaf yn gosod yr adroddiad cynnydd cyntaf ar y rhaglen gerbron y Senedd.

Mae cael mynediad at sylwebaeth ar gyfraith Cymru yn parhau i fod yn her y gall y Cyngor Cyfraith sydd newydd ei ffurfio ei hystyried ymhellach. Mae'r Llywodraeth yn parhau i gefnogi gwefan Cyfraith Cymru. Mae'r safle hwn yn rhoi gwybodaeth am gyfraith a chyfansoddiad Cymru ac yn ceisio'u hesbonio, gan roi sylwebaeth fanylach ar bynciau unigol. Ar hyn o bryd rydym yn gofyn am gyfraniadau gan arbenigwyr pwnc mewn cwmnïau cyfreithiol allanol, sy'n croesawu'r cyfle i gyflwyno erthyglau ar bynciau y mae ganddynt arbenigedd ynddynt. Gobeithiwn y bydd y datblygiad hwn yn annog sylwebaeth a thrafodaeth bellach ar y gyfraith yng Nghymru fel y bydd gan ddinasyddion ac ymarferwyr cyfreithiol ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth ddibynadwy yn y pen draw i'w helpu i ddeall y gyfraith ar gyfer Cymru a chael mynediad ati.

Mae un o'r meysydd cyfreithiol y sonnir amdano yn eich adroddiad yn ymwneud â hygyrchedd cyfraith tai yng Nghymru. Mae cyfraith tai wedi cael ei beirniadu ers tro am fod yn ddiangen o gymhleth ac am ddibynnu ar gyfraith achosion aneglur. Bydd gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, sydd wedi'i seilio'n agos ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith a oedd â'r nod o symleiddio a gwella hygyrchedd, yn mynd i'r afael yn rhannol â'r broblem hon. Rydym wedi cynhyrchu ystod eang o ganllawiau ar gyfer landlordiaid a thenantiaid. Mae gwaith cydweithredol gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a HMCTS ar y gweill hefyd i sicrhau bod canllawiau ar brosesau llys yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd yn iawn.

<u>Cefnogaeth Llywodraeth Cymru</u>
Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi darparwyr gwybodaeth a chyngor er mwyn sicrhau bod gan rai o bobl fwyaf agored i niwed ein cymdeithas fynediad at gyngor diduedd am ddim ar ddyled, gwahaniaethu, cyflogaeth, tai, a materion budd-dal lles, yn enwedig yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Rydym yn croesawu sylwadau cadarnhaol cyfranwyr i'r ymarfer hwn ynglŷn â'r gwerth y mae Cronfa Gynghori Sengl Llywodraeth Cymru wedi'i roi i'r rhai y mae angen cyngor a chefnogaeth arnynt.

Mae'n bwysig nodi nad pwrpas y Gronfa yw darparu cyllid craidd i wahanol ddarparwyr cyngor. Sefydlwyd y Gronfa fel prosiect â'r nod penodol o sicrhau bod fframwaith o wasanaethau cynghori safonol, cyffredinol ac arbenigol ar gael ym mhob rhan o Gymru sy'n gallu sicrhau mynediad cynnar at gyngor yn effeithiol i'r aelwydydd mwy agored i niwed.

Cafodd ceisiadau i'r Gronfa eu rheoli drwy ymarfer grant teg, agored a chystadleuol. Roedd yn agored i geisiadau gan sefydliadau unigol neu gan sefydliadau ar y cyd. Mae'r consortia llwyddiannus dan arweiniad Cyngor ar Bopeth Cymru yn dangos model darparu gwasanaethau arloesol. Mae'n cynnig gwasanaeth integredig sy'n galluogi pobl i gael cyngor ar eu problemau lles cymdeithasol. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth

cofleidiol i helpu i feithrin gwytnwch unigolion rhag problemau lles cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae disgwyl i adolygiad annibynnol o'r Gronfa gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd yr adolygiad yn cynnwys ystyried a yw'r Gronfa wedi newid y ffordd y mae dinasyddion yn cael mynediad at wasanaethau cynghori arbenigol a bydd yn nodi unrhyw broblemau sydd gan wasanaethau o'r fath, er enghraifft os nad oes cyllid ar gael iddynt ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn ystyried a ddylid gwahodd darparwyr bach i ymuno â chonsortiwm o dan fantell y Gronfa.

Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Rwy'n rhannu pryderon cyfranogwyr ynglŷn â'r ffaith nad yw'r ddarpariaeth cymorth cyfreithiol wedi'i datganoli a sut y gallai hyn gyfyngu ar fynediad ati, yn enwedig mewn deddfwriaeth sy'n cael ei phasio ar gyfer Cymru.

Byddai Cymru yn elwa ar ddosbarthiad teg o adnoddau cymorth cyfreithiol gan fod gwariant y pen ar gymorth cyfreithiol yn £15 yn Lloegr ond yn ddim ond £11.50 yng Nghymru.[4] Byddai system cymorth cyfreithiol arloesol, wedi'i chyllido'n well, a allai gysylltu â gwasanaethau datganoledig eraill yn gam cyntaf tuag at roi i bobl Cymru y system gyfiawnder well y maent yn ei haeddu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl Cymru yn gallu cael gwasanaethau cynghori sicr o safon, gan fod cyngor gwael yn aml yn waeth i berson na chael dim cyngor o gwbl.

Mae ansawdd gwasanaethau gwybodaeth a chynghori yng Nghymru yn cael ei sicrhau drwy nifer o Safonau Ansawdd Cyngor sydd mewn perchnogaeth annibynnol. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor (IAQF) Cymru mewn ymateb i'r diffyg cysondeb a dealltwriaeth o'r hyn y mae gwybodaeth a chyngor o safon yn ei olygu.

Nid yw'r IAQF yn broses sicrhau ansawdd ar wahân i ddarparwyr gwybodaeth a chyngor unigol. Mae'n gweithio drwy asesu'r prosesau archwilio sicrhau ansawdd a gynhelir gan y gwahanol Safonau Ansawdd Cyngor i farnu a ydynt yn cydymffurfio â'r IAQF. Mae llawer o'r Safonau Ansawdd Cyngor sydd mewn perchnogaeth annibynnol wedi gwneud cais am Statws Corff Achrededig IAQF Cymru ac wedi cael eu derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod sefydliadau cymunedol llai yn gallu gwneud cais am Safon Ansawdd Achrededig IAQF. Yn dilyn adolygiad diweddar o'r IAQF, datblygwyd cynnig sy'n darparu fframwaith achredu "ysgafnach" ar gyfer y sefydliadau hyn a bydd rhaglen gymorth yn cael ei darparu i'w helpu i ddatblygu eu polisïau a'u gweithdrefnau i lefel lle gallant wneud cais am Safon Ansawdd Achrededig IAQF.

Gweithio hybrid

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu optimistiaeth eich cyfranogwyr ynglŷn â'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil gweithio hybrid, a chyflwynwyd strategaeth gweithio o bell gennym ym mis Mawrth 2022. Gall gweithio hybrid hyblyg fod yn well i staff, i'r sefydliad ac i'r amgylchedd. Bydd y strategaeth yn cynyddu ac yn galluogi gweithio o bell i helpu gweithwyr i aros yn lleol gyda'r nod o weld 30% o'r gweithlu yn gweithio o bell yn rheolaidd.

I gloi, rydym yn rhannu'r pryderon sylweddol a godwyd yn yr adroddiad hwn am fynediad at gyfiawnder. Rydym eisoes, ar sawl achlysur, wedi codi materion allweddol gyda'r Gweinidogion sy'n gyfrifol am y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac rydym wedi darparu cymaint o

[4] Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2.105, tudalen 81.

gymorth â phosibl i ddefnyddwyr y system gyfiawnder yng Nghymru, ac yn parhau i wneud hynny, o dan y setliad presennol y gallwn oll fod yn unfryd ei fod yn anfoddhaol.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

12 Gorffennaf 2022

Annwyl Mick

Mynediad at gyfiawnder: Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

Ym mis Rhagfyr y llynedd, fel rhan o'n cylch gwaith mewn perthynas â materion cyfiawnder, fe wnaeth Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd gynnal rhai grwpiau ffocws a chyfres o gyfweliadau unigol gydag ymarferwyr cyfreithiol ac ymgyfreithwyr er mwyn cael dealltwriaeth well o'u profiadau o fynediad at gyfiawnder yng Nghymru.

Ar 30 Mehefin, fe wnaethom ni gyhoeddi crynodeb o ganlyniadau'r gwaith hwnnw. Byddem yn ddiolchgar o gael unrhyw sylwadau sydd gennych ar y safbwyntiau sydd yn y crynodeb hwn, a hynny erbyn 31 Awst 2022.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

5 Medi 2022

Annwyl Huw

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf sy'n gofyn am wybodaeth am offerynnau statudol sy'n deillio o ymadael â'r UE.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn dod â nifer bach o offerynnau statudol sy'n deillio o ymadael â'r UE i'r Senedd cyn diwedd y flwyddyn galendr hon. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda swyddogion cyfatebol yn Llywodraethau'r DU a'r Alban i nodi'r meysydd hynny y mae angen deddfwriaeth gywiro mewn perthynas â nhw, a byddwn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith hwn.

O ran y potensial i Lywodraeth y DU wneud offerynnau statudol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, caiff offerynnau posibl eu hasesu fesul achos drwy gyfeirio at gynnwys yr offeryn statudol a pha mor addas ydyw o ran a ddylai Llywodraeth y DU arfer y pŵer perthnasol. Bydd angen cael rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth newydd y DU am eu bwriadau a'r offerynnau statudol arfaethedig cyn y gallwn roi amcangyfrif cywir. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, mewn achosion lle y bwriadwn roi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer swyddogaethau o'r fath, rydym wedi ymrwymo i hysbysu eich pwyllgor am ein bwriad a'r rhesymau y tu ôl iddo, cyn gosod Datganiad Ysgrifenedig. Byddwn yn parhau i sicrhau bod eich pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
–
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

19 Gorffennaf 2022

Annwyl Mick

Offerynnau statudol sy'n deillio o ymadael â'r UE

Yn natganiad y rhaglen ddeddfwriaethol ar 5 Gorffennaf 2022, dywedodd y Prif Weinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn dal i ddod ag offerynnau statudol sy'n deillio o ymadael â'r UE i'r Senedd hyd at ddiwedd y flwyddyn hon. Rydym yn ymwybodol y bydd y cyfnod ar gyfer gwneud offerynnau statudol sy'n cywiro o ran ymadael â'r UE yn dod i ben am 23:00 ar 31 Rhagfyr 2022 (yn rhinwedd adran 8(8) o *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018*).

Rydym hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi cynnig Bil 'Rhyddid yn sgil Brexit'/Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Er y Bil arfaethedig hwn, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybodaeth inni ynghylch:

1. nifer yr Offerynnau Statudol sy'n cywiro sy'n deillio o ymadael â'r UE sydd eto i'w gwneud gan Weinidogion Cymru;
2. nifer yr Offerynnau Statudol sy'n cywiro sy'n deillio o ymadael â'r UE sydd eto i'w gwneud gan Lywodraeth y DU y bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru arnynt;
3. nifer yr offerynnau statudol eraill sy'n deillio o ymadael â'r UE sydd eto i'w gwneud gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth y DU.

O ystyried y goblygiadau posibl i'n rhaglen waith yn nhymor yr hydref, ac er fy mod yn sylweddoli y gallai hyn fod yn anodd ei asesu, byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi syniad o'r amseriadau tebygol ar gyfer gwneud y ddeddfwriaeth hon.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 26 Awst.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

05 Medi 2022

Annwyl Huw

**Cytundebau rhynglywodraethol**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 19 Gorffennaf, yn gofyn am wybodaeth yn ymwneud â chytundebau rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Rwyf wedi darparu ymateb isod i bob un o'ch tri chwestiwn.

**i. darparu manylion pob cytundeb rhynglywodraethol sy'n ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol sydd ar waith, sut maent yn cael eu defnyddio, a phryd y cânt eu hadolygu;**

**iii. rhoi gwybod i ni sut a phryd yr ydych yn bwriadu cyhoeddi manylion yr holl gytundebau sy'n ymwneud, neu sydd wedi ymwneud, â gweithredu deddfwriaeth sylfaenol, yn unol â pharagraff 17 o'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydiadol.**

Fel rhan o'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydiadol, mae tudalen we bwrpasol wedi'i chreu ac mae ar gael yn Concordatau, memoranda cyd-ddealltwriaeth a chytundebau eraill | LLYW.CYMRU. Nid yw wedi'i chyfyngu i'r cytundebau hynny rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol. Mae fy swyddogion wrthi'n sicrhau bod pob cytundeb perthnasol yn cael ei gyhoeddi ar y dudalen hon. Ein nod yw cwblhau'r gwaith hwn yn ystod cyfnod yr hydref. Defnyddir y cytundebau hyn i gefnogi cydweithio yn y meysydd polisi perthnasol. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru fel y bo'n briodol.

**ii. darparu manylion unrhyw gytundebau o'r fath yr ymrwymwyd iddynt gan Lywodraeth flaenorol Cymru nad ydynt bellach mewn grym, gan gynnwys pryd y daethant i ben;**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hyd yma, nid ydym wedi cadw cofnod canolog o gytundebau o’r fath, ond bwriadwn sicrhau y bydd y dudalen bwrpasol ar wefan Llywodraeth Cymru yn cael ei hadolygu’n rheolaidd ac yn cynnwys cytundebau sydd mewn grym a chytundebau sydd wedi dod i ben.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

19 Gorffennaf 2022

Annwyl Mick,

Cytundebau rhynglywodraethol

Ysgrifennaf i ofyn am wybodaeth yn ymwneud â chytundebau rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Nododd adroddiad gwaddol y pwyllgor a'n rhagflaenodd:

> Casgliad 10. Dylai ein Pwyllgor olynol sicrhau bod Llywodraeth nesaf Cymru *yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r Senedd ar nifer y cytundebau rhynglywodraethol sy'n ymwneud â gweithrediad darnau o ddeddfwriaeth sylfaenol, sut y maent yn cael eu defnyddio a phryd y dylid eu hadolygu.*

Mae paragraff 17 o'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2021) yn dweud:

> *Bydd gan Lywodraeth Cymru dudalen ddynodedig ar ei gwefan yn cynnwys gwybodaeth am gytundebau rhynglywodraethol ffurfiol, fframweithiau cyffredin, concordatau, memoranda ac unrhyw benderfyniadau eraill y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno arnynt.*

Nid ydym yn ymwybodol y cydymffurfiwyd â'r rhan hon o'r cytundeb mewn perthynas â chytundebau rhynglywodraethol.

Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech:

i. darparu manylion pob cytundeb rhynglywodraethol sy'n ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol sydd ar waith, sut maent yn cael eu defnyddio, a phryd y cânt eu hadolygu;

ii. darparu manylion unrhyw gytundebau o'r fath yr ymrwymwyd iddynt gan Lywodraeth flaenorol Cymru nad ydynt bellach mewn grym, gan gynnwys pryd y daethant i ben;

iii. rhoi gwybod i ni sut a phryd yr ydych yn bwriadu cyhoeddi manylion yr holl gytundebau sy'n ymwneud, neu sydd wedi ymwneud, â gweithredu deddfwriaeth sylfaenol, yn unol â pharagraff 17 o'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 5 Medi 2022.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Ebost - Llywydd@senedd.wales

8 Medi 2022

Annwyl Elin

Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'r Bil Tai Cymdeithasol (Rheoliadau) (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi, ar 25 Awst 2022.

Fel yr amlinellir yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) ar y Bil fel y'i cyflwynwyd, a osodwyd ar 18 Awst 2022, er bod y Bil yn cynnig newidiadau i reoleiddio landlordiaid tai cymdeithasol yn Lloegr, mae mwyafrif y darpariaethau'n ymestyn i Gymru ac yn ymwneud â thai, sydd wedi ei ddatganoli.  Oherwydd hynny, mae'r darpariaethau hyn yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29 y mae angen caniatâd y Senedd iddo. Bydd angen caniatâd ar rai neu bob un o'r gwelliannau a gyflwynir, ac felly bydd LCM atodol yn cael ei osod.

Fodd bynnag, ni fydd yn bosibl gosod hyn o fewn y dyddiad cau arferol o bythefnos ar gyfer Rheolau Sefydlog 29 oherwydd y gwelliannau sy'n cael eu gosod yn ystod y toriad.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS, a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The Scottish Parliament
Pàrlamaid na h-Alba

Huw Irranca-Davies MS, Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee, Welsh Senedd
(by e-mail)

The Scottish Parliament
EDINBURGH
EH99 1SP

CEEAC.committee@parliament.scot

22 September 2022

Dear Huw,

**Impact of Brexit on Devolution**

The Constitution, Europe, External Affairs and Culture Committee has today published a report on our inquiry into the impact of Brexit on devolution:

[The Impact of Brexit on Devolution | Scottish Parliament]

The Committee's findings demonstrate that there are fundamental concerns which need to be addressed in relation to how devolution works outside the EU. We identified the following constitutional questions –

- to what extent can the UK potentially accommodate four different regulatory environments within a cohesive internal market and while complying with international agreements;
- whether the existing institutional mechanisms are sufficient to resolve differences between the four governments within the UK where there are fundamental disagreements regarding alignment with EU law and while respecting the devolution settlement;
- how devolution needs to evolve to address these fundamental questions.

In our report we explore two significant areas in which devolution has begun to evolve following the UK's departure from the EU: the operation of the Sewel Convention and the use of delegated powers.

We agree that the Sewel Convention is under strain following Brexit and noted the view of some of our witnesses that without reform, “there is a risk of the convention, and the legislative consent process that puts Sewel into practice, collapsing altogether.”

It is also our view that the extent of UK Ministers’ new delegated powers in devolved areas amounts to a significant constitutional change. We have considerable concerns that this has happened and is continuing to happen on an ad hoc and iterative basis without any overarching consideration of the impact on how devolution works.

The Committee’s view is that there is a need for a much wider public debate about where power lies within the devolution settlement following the UK’s departure from the EU.

The Committee will launch a significant committee inquiry which will allow businesses, civic society and the wider public to engage on these core issues.

To inform this inquiry the Committee will seek the views of the UK Government and the Welsh Government as well as the Scottish Ministers in response to the findings of our report.

The Committee also agreed to pursue the findings of our report at an interparliamentary level through the interparliamentary forum and myself and the Deputy Convener look forward to discussing these with you and other colleagues in Cardiff on 28th October.

Yours Sincerely




Clare Adamson MSP, Convener of the Constitution, Europe, External Affairs and Culture Committee

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Llywydd@senedd.cymru

22 Medi 2022

Annwyl Elin,

Fe wnaethom ysgrifennu atoch ar 1 Gorffennaf, ynglŷn â'r Bil Bil Hawliau (y Bil) a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Mehefin, i egluro ein bod yn disgwyl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn, ond y byddai hyn y tu allan i'r dyddiad cau arferol o ddwy wythnos o dan Reol Sefydlog 29.

Fe wnaethom ysgrifennu atoch eto ar 31 Awst i egluro'r oedi pellach o ran gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, yn gysylltiedig â chymhlethdod y Bil ac ansicrwydd am fwriad ac amserlen Llywodraeth y DU. Nodwyd bryd hynny bod Ail Ddarlleniad y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin wedi ei drefnu ar gyfer 12 Medi.

Yn dilyn penodi Prif Weinidog newydd i'r DU, fodd bynnag, penderfynodd Llywodraeth y DU i beidio cynnal yr Ail Ddarlleniad ym mis Medi. Yn ogystal â hynny, cafwyd arwyddion cryf gan Lywodraeth y DU na fydd yn symud ymlaen gyda'r Bil hwn ar ei ffurf gyfredol. Mae'n aneglur ar hyn o bryd a fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, neu a fydd y Bil yn cael ei dynnu'n ôl.

Rydym yn aros am eglurhad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ond nid ydym yn disgwyl yr eglurhad hwnnw yn y dyfodol agos. O ganlyniad i hynny, oherwydd yr ansicrwydd hwn am fwriad Llywodraeth y DU, nid yw'n ymddangos yn synhwyrol i symud ymlaen â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar hyn o bryd. Byddai gwneud hynny'n golygu gofyn i'r Senedd dreulio amser yn ystyried cynnig deddfwriaethol nad yw'n cael ei symud ymlaen ar hyn o bryd, ac sydd mewn perygl o gael ei dynnu'n ôl neu ei ddisodli gan gynnig amgen yn fuan.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto pan fydd y sefyllfa yn fwy eglur, ond rydym yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf hon ichi yn y cyfamser, gan ei bod yn bosibl y bydd oedi sylweddol.

Fel yn achos y llythyrau blaenorol y cyfeirir atynt uchod, rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weinidog Cymru; y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd; Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol.

Yn gywir,

| | |
|---|---|
|  |  |
| **Jane Hutt AS/MS**<br>Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol<br>Minister for Social Justice | **Mick Antoniw AS/MS**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>Counsel General and Minister for the Constitution |

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 12

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17th Awst 2022

Annwyl Huw

**BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf 2022 yn dilyn fy sesiwn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 11 Gorffennaf. Roedd dull y Pwyllgor o ymdrin â'r sesiwn honno yn ddefnyddiol iawn ac rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i ddarparu rhagor o wybodaeth a manylion drwy ein gohebiaeth.

***Deddfwriaeth a eithriwyd o'r Bil***

1. Cafodd darpariaeth o adran 53 o Ran 3 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ei hepgor am resymau cymhwysedd deddfwriaethol. Dyma'r ddarpariaeth yn adran 53(4) am gyflwyno achosion mewn mannau eraill ym Mhrydain am droseddau a gyflawnwyd yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru. O ganlyniad i gyfyngiadau cymhwysedd y Senedd o ran gweithredu unrhyw newidiadau i'r gyfraith, ni fyddem wedi gallu ailddatgan effaith adran 53(4) yn y Bil.

2. Nid yw Rhan 2 o'r Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 yn cael ei hailddatgan yn y Bil. Gwnaed y penderfyniad i beidio ailddatgan am wahanol resymau o'i gymharu â'r enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth y sonioch amdanynt yn eich cwestiwn. Mae Rhan 2 o Ddeddf 1979 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ardaloedd archaeolegol, ond nid yw wedi'i chael ei defnyddio i ddynodi ardaloedd yng Nghymru erioed. Nid oes gan y Rhan ddefnydd nac effaith ymarferol, felly mae'r Bil yn cyflwyno diwygiadau i Ran 2 fel na fydd yn berthnasol mwyach i Gymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Yn y Deddfau eraill sydd wedi'u hailddatgan yn llawn neu'n rhannol yn y Bil, mae gwahanol ddarpariaethau wedi'u hepgor o'r cydgrynhoi o dan Reol Sefydlog 26C.2(iii) gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn angenrheidiol bellach. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u nodi yn Nodiadau'r Drafftwyr.

4. Fodd bynnag, cafodd un ddarpariaeth o'r math hwn ei hepgor trwy amryfusedd o Nodiadau'r Drafftwyr, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gywiro'r diofalwch hwnnw. Mae Adran 54 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn galluogi gorchymyn datblygu o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i nodi achosion lle mae gofyn i berson yr ymgynghorwyd ag ef am gais ddarparu ymateb. Byddai hyn yn cynnwys ceisiadau am gydsyniad adeiladau rhestredig a chydsyniad ardaloedd cadwraeth, ond ni ddefnyddiwyd y pŵer erioed mewn perthynas â'r ceisiadau hynny ac mae Cadw yn ystyried na fydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol. Felly, o ganlyniad, gan ddibynnu ar Reol Sefydlog 26C.2(iii) nid yw'r Bil yn diwygio adran 54 i gwmpasu ceisiadau o dan y Bil, sy'n golygu na fydd yn berthnasol i geisiadau cydsyniad adeiladau rhestredig a chydsyniad ardaloedd cadwraeth yng Nghymru.

5. Bydd Nodiadau'r Drafftwyr yn cael eu diweddaru i gynnwys y cyfeiriad hwn pan fydd cyfle i wneud hynny.

6. Nid yw Nodiadau'r Drafftwyr yn cynnwys cyfeiriad at adran 49 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ychwaith, gan y bydd yr adran honno yn parhau i fod yn berthnasol i Gymru ar ôl y cydgrynhoi. Yn ein barn ni, byddai'n fwy priodol i adran 49 fod gyda'r gyfraith gyffredinol am iawndal ar gyfer prynu tir yn orfodol, yn hytrach na gyda'r gyfraith ar warchod yr amgylchedd hanesyddol, ac am y rheswm hwnnw nid ydym yn credu y dylai gael ei gynnwys yn y Bil hwn.

7. O'r enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth yr ydych yn eu crybwyll yn eich Atodiad, yr unig un arall a allai'n realistig gael ei gynnwys yn y Bil oedd y ddarpariaeth am longau drylliedig yn Neddf 1973.

8. O ran Deddfau 1969 ac 1986, roeddem o'r farn fod y Deddfau yn ymylol i bwnc y cydgrynhoi ac na ddylid eu cynnwys yn y Bil am y rheswm hwnnw. Yn achos Deddf 1969, mae'r prif ddarpariaethau sy'n dal mewn grym yn ymwneud â phwerau elusennau a'r Comisiwn Elusennau mewn cysylltiad â gwaredu tir, yn hytrach nag am warchod yr amgylchedd hanesyddol fel y cyfryw. Yn yr un modd, mae Deddf 1986 yn ymwneud ag atal ymyriadau ag awyrennau milwrol sydd wedi cwympo a llongau sydd wedi suddo. Pe baem wedi cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil, credwn y byddai wedi cael effaith negyddol ar hygyrchedd y ddeddfwriaeth a ailddatganwyd.

9. Fel yr awgrymwyd uchod, roedd y sefyllfa ynghylch Deddf 1973 yn wahanol, ac mae'r ddeddfwriaeth yn diogelu rhai llongau drylliedig y credir eu bod o bwys hanesyddol, archaeolegol neu artistig. Y drafferth gyda Deddf 1973 yw ei bod wedi'i phasio fel deddfwriaeth "llenwi bwlch" ar y pryd hwnnw, gan greu mecanwaith y bwriadwyd iddi fod dros dro ar gyfer dynodi a rheoli safleoedd llongau drylliedig.

10. Byddai cynnwys y Ddeddf yn y Bil wedi gofyn am nifer o ddarpariaethau newydd i'w chysoni ag arferion modern (nid yw'r ddarpariaeth gyfredol yn cynnwys fawr iawn o fanylion am sut mae'r system a sefydlwyd gan y Ddeddf yn gweithredu), ac ni ddefnyddiwyd y ddeddfwriaeth ers 20 mlynedd (dim ond chwe safle sydd wedi'u dynodi erioed yng Nghymru). Mae'n berthnasol hefyd, wrth gwrs, i safleoedd ar y môr yn hytrach nag ar y tir. O ganlyniad, nid oedd Deddf 1973 yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth, yn rhannol oherwydd y gellid cyfiawnhau ei hepgor ac yn rhannol oherwydd nad yw'n rhan arwyddocaol o'r system ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol.

***Deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU***

11. Rwy'n deall, ac yn rhannu i raddau, bryderon y Pwyllgor – nod yr holl brosiectau cydgrynhoi yw gwella hygyrchedd cyfraith Cymru, ac rydym am sicrhau bod popeth yn cael ei wneud i gynnal y gwelliant hwnnw. Ond nid yw hynny'n golygu na ellir cyflwyno newidiadau dilynol i ddeddfwriaeth sydd wedi'i chydgrynhoi. Yn amlwg, gellir gwneud hynny. Yr hyn rydym am ei sicrhau yw bod y newidiadau hynny'n cael eu gwneud fel diwygiadau i'r cydgrynhoad, nid fel cynigion deddfwriaeth annibynnol ar wahân.

12. Mae swyddogion yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol wedi trafod rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru gyda'u swyddogion cyfatebol yn swyddfeydd drafftio eraill y DU. Mae hyn yn cynnwys esbonio ein huchelgeisiau ar gyfer cynnal y gyfraith unwaith iddi gael ei chydgrynhoi a'i chodeiddio. Mae'r swyddfeydd drafftio hynny eisoes yn ymwybodol o'n polisi sy'n bodoli'n barod bod yn rhaid i ddiwygiadau i gyfraith gyfredol Cymru gan ddeddfwriaethau eraill wneud newidiadau yn nhestun y ddwy iaith. Mae digon o enghreifftiau o hynny'n digwydd eisoes.

13. Fel yr esboniwyd yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor, pe bai Llywodraeth y DU yn deddfu ar gyfer Gymru ar fater y cydgrynhowyd y gyfraith arno eisoes yna byddai disgwyl i Fil y DU ddiwygio'r gyfraith a gydgrynhowyd. Pe bai'r sefyllfa'n codi o gwbl, y dull o weithio yw y byddai ein swyddogion yn esbonio a thrafod â'r swyddogion polisi, cyfreithiol a drafftio perthnasol ar y pryd.

14. Pe bai hyn yn digwydd rhywbryd, credaf y byddai'n briodol tynnu sylw'r Senedd i'r dull drafftio a fabwysiedir gan Lywodraeth y DU yn eu cynigion deddfwriaethol fel rhan o broses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

***Codau Cyfraith Cymru***

15. Mae'r Pwyllgor wedi deall y bwriadau ar gyfer Codau cyfraith Cymru'n gywir. I addasu'ch geiriad chi, dyma storfeydd y gyfraith. Byddant mwy na thebyg yn dechrau gydag un darn o ddeddfwriaeth sylfaenol wedi'i chydgrynhoi. Ond gallent hefyd ddechrau gyda'r datganiad sylwedd o'r gyfraith a nodwyd drwy Ddeddf a oedd yn diwygio ac ailddatgan y gyfraith ar bwnc (felly trwy Fil Seneddol a weithredir drwy Reol Sefydlog 26). Gall deddfwriaeth sylwedd sylfaenol ddilynol fod yn rhan o God hefyd. Er enghraifft, yn sgil y swm o ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig, gallai Cod cyfraith Cymru ar addysg - fel y dywedwyd mewn tystiolaeth flaenorol - gynnwys nifer o Ddeddfau yn ymwneud â gwahanol agweddau ar gyfraith addysg (e.e. ysgolion, addysg bellach, addysg uwch). Os bwriadwyd i Ddeddf fod yn rhan o God, bydd datganiad i'r diben hwnnw'n cael ei gynnwys ynddo - fel y gwnaed yn adran 1(1) o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) fel rheol.

16. Ni fydd deddfwriaeth sy'n diwygio'r Deddfau sylwedd hynny yn ffurfio rhan o'r Cod nac yn cael eu cynnwys yn y datganiad. Eu diben yw bod yn gyfrwng ar gyfer cyflawni'r diwygiadau, sef y ddeddfwriaeth a gydgrynhowyd yn yr achos hwn.

17. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gywir i ddweud y bydd y Cod (neu'r 'storfa') yn cynnwys deddfwriaeth a chanllawiau dirprwyedig. Bydd y rheoliadau sylwedd yn cynnwys datganiad eu bod yn ffurfio rhan o'r Cod. Ac eto, ni fydd y rheoliadau diwygiedig yn rhan o'r Cod ond bydd eu heffeithiau yn digwydd o fewn y Cod.

### *Legislation.gov.uk*

18. Er bod yr Archifau Cenedlaethol yn ymwybodol o raglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, nid ydym yn gweld bod angen chwilio am arddull ychwanegol neu wahanol ar legislation.gov.uk ar gyfer deddfwriaeth sy’n rhan o God. Y rheswm am hyn yw nad yw’n fath newydd o ddeddfwriaeth (bydd y Deddfau’n parhau i fod yn Ddeddfau Senedd Cymru, er enghraifft).

19. Rydym yn bwriadu defnyddio gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales i amlinellu cynnwys Codau cyfraith Cymru. Byddwn yn creu tudalen bwrpasol ar gyfer pob Cod, a bydd defnyddwyr yn gallu cael gafael ar ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth o’r dudalen hon, yn ogystal â dolenni i ganllawiau. Bydd Argraffydd y Frenhines yn parhau i fod yn gyfrifol am gyhoeddi’r ddeddfwriaeth (y copïau swyddogol a’r fersiynau argraffedig) a bydd legislation.gov.uk yn parhau i gyhoeddi fersiynau digidol o’r ddeddfwriaeth (sydd ar gael wedyn o dan y Drwydded Agored y Llywodraeth i gyhoeddwyr masnachol ac eraill ei hailddefnyddio).

20. Byddaf yn diweddaru’r Senedd yn ddiweddarach eleni ar y cynnydd rhagorol a wnaed gyda legislation.gov.uk ar ehangu swyddogaeth y wefan er mwyn gallu diweddaru testunau Cymraeg cyfraith Cymru. Ond cyn hyn gallaf sicrhau’r Pwyllgor bod trefniadau’n cael eu gwneud i sicrhau y bydd diwygiadau i Ddeddfau ac OSau sy’n rhan o God cyfraith Cymru yn y dyfodol yn cael eu diweddaru’n fuan ar legislation.gov.uk.

### *Newidiadau posibl i Reolau Sefydlog*

21. Mae’r Senedd a’r Pwyllgor hwn wedi cydnabod y risgiau, ac - efallai y gellid dadlau – y difrod, i hygyrchedd cyfraith sydd wedi’i chydgrynhoi oherwydd darnio ac ymlediad dilynol os na wneir diwygiadau i’r Deddfau sylwedd. Dyna pam mae angen dod o hyd i ffordd o helpu i sicrhau bod yn rhaid i’r Senedd ei hun gytuno ar unrhyw gynigion deddfwriaethol yn y dyfodol nad ydynt yn gwneud unrhyw beth mwy na diwygio Cod. Nid wyf yn meddwl y gallwn ddweud na fyddai byth reswm da pam allai hyn ddigwydd, ond rwy’n credu y gallwn ddweud fod yn rhaid i’r Senedd fod yn fodlon pe bai hynny’n cael ei gynnig.

22. Mae’n ymddangos i mi mai’r ffordd orau o ddiogelu’r egwyddor hon yw cynnwys darpariaeth ar hyn yn y Rheolau Sefydlog perthnasol ar gyfer Biliau (ac is-ddeddfwriaeth hefyd efallai pe bai’r Senedd yn ystyried bod angen hynny).

23. Bydd y Trefnydd a minnau’n codi hyn gyda’r Llywydd a’r Pwyllgor Busnes unwaith y byddwn yn gwybod beth y bwriadau’r Senedd ar gyfer y Bil hwn, fel y gellir sefydlu dull addas o ymgysylltu ag Aelodau a Grwpiau Pleidiau ar y mater hwn. I ailadrodd y pwynt a wnes yn y sesiwn dystiolaeth, mae hwn yn fater y dylai pob Aelod ei ystyried a bod yn fodlon ag ef - gan fod Pwyllgorau, Aelodau unigol a’r Comisiwn yn gallu cyflwyno cynigion deddfwriaethol, nid dim ond y Llywodraeth.

### *Pwerau newydd Gweinidogion Cymru*

24. Mae Adran 2(3) o’r Bil yn cynnwys pŵer newydd i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer eithriadau i’r rheol gyffredinol nad yw adeiladau crefyddol a ddefnyddir at ddibenion crefyddol yn henebion at ddibenion Rhan 2 o’r Bil.

25. Mae’r pŵer hwn wedi’i gynnwys oherwydd ansicrwydd am ystyr geiriau agoriadol adran 61(8) o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979. Mae’r adran honno’n atal adeiladau eglwysig sy’n cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig ar hyn o bryd rhag cael eu trin fel “henebion”.

26. Wrth ailddatgan y ddarpariaeth hon yn adran 2(3) o’r Bil roeddem yn ansicr a fwriadwyd i’r eithriad gwreiddiol fod yn berthnasol i Eglwys Loegr yn unig, ac yn ansicr ynghylch ystyr y geiriad yng nghyd-destun gweithredu adran 3 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (mae adran 3 yn ei gwneud hi’n ofynnol i ddarllen a gweithredu deddfwriaeth mewn ffordd sy’n gydnaws â hawliau Siarter Hawliau Dynol Ewrop, cyn belled ei bod hi’n bosibl gwneud hynny). Gweithredwyd y ddarpariaeth i bob rhanbarth ar y dechrau, gan ein bod ni’n credu mai dyma’r dehongliad a oedd yn debygol o fod fwyaf cydnaws â’r Siarter, ond rydym wedi cadw rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i unrhyw newid mewn amgylchiadau yn y dyfodol.

27. Mae yna enghreifftiau eraill yn y Bil lle mae darpariaeth wedi cael ei symud o is-ddeddfwriaeth i’r Bil ond efallai y bydd rhaid gwneud newidiadau yn y dyfodol. Yn yr achosion hynny, mae’r Bil yn cynnwys pwerau i ddiwygio’r darpariaethau. Un enghraifft yw’r pŵer yn Atodlen 3 o’r Bil i newid categorïau cydsyniadau dosbarth; mae Deddf 1979 yn gadael hyn i is-ddeddfwriaeth yn gyfan gwbl. Nid yw’r enghreifftiau hyn yn cynnwys rhoi pwerau newydd, maent yn cadw’r hyblygrwydd cyfredol sydd ar gael i Weinidogion Cymru wneud addasiadau i’r system a grëwyd gan y Bil.

***Adran 209(6) o’r Bil***

28. Cyflwynwyd y newid hwn yng nghyd-destun newid yn y dull a fabwysiadwyd gan y Bil i’r hyn sy’n cael ei gwmpasu ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol. Rydym wedi ailddatgan llawer mwy ar wyneb y Bil am faterion allweddol sy’n berthnasol i gytundebau partneriaeth na’r hyn sy’n ymddangos ar hyn o bryd ar wyneb Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Er enghraifft, mae darpariaeth am derfynu cytundebau partneriaeth wedi’i chwmpasu’n gyfan gwbl gan y Bil ac nid gan reoliadau (fel yw’r achos ar hyn o bryd).

29. Mae’r gwahaniaeth hwn mewn dull yn cyfiawnhau gweithdrefn wahanol yn ein barn ni, ac rydym yn credu bod hyn wedi’i ganiatáu gan Reol Sefydlog 26C.2. Y materion rydym yn eu gadael i reoliadau yn amodol ar weithdrefn negyddol yw’r mathau o faterion gweithdrefnol sydd hefyd yn cael eu gadael i reoliadau negyddol mewn mannau eraill o’r Bil; er enghraifft, yn y ddarpariaeth ar gyfer ceisiadau am gydsyniad heneb restredig.

30. Mae’n werth nodi y byddai unrhyw reoliadau sy’n addasu effaith Rhan 2 o’r Bil i gytundebau partneriaeth yn dal i fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn gyson â pholisi’r Llywodraeth ar benderfynu ar y weithdrefn addas i’w defnyddio gydag is-ddeddfwriaeth.

***Effaith Deddf Dehongli 1978 a Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ar y Bil***

31. Mae Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i’r holl Ddeddfau sydd wedi’u cydgrynhoi yn y Bil a’r is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn 2020. Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn berthnasol i is-ddeddfwriaeth fwy diweddar a bydd yn berthnasol i’r Bil. Bydd y Bil felly’n destun darpariaethau dehongli ychydig yn wahanol gan bron bob deddfwriaeth y mae’n ei chydgrynhoi.

32. Mae prif oblygiadau’r newid hwn wedi’u disgrifio ym mharagraffau 14 i 17 o Nodiadau’r Drafftwyr, a rhoir enghreifftiau penodol yn y cofnodion ar gyfer adrannau 2, 3, 74, 160, 161 a 205 o’r Bil a’r cofnod ar gyfer hepgor adran 91(4) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Cyhoeddodd Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ganllawiau cyffredinol hefyd ar effaith y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Deddfwriaeth 2020; gweler https://llyw.cymru/canllawiau-ar-baratoi-deddfwriaeth-cymru

33. Mae'r Atodlenni o ddiffiniadau cymwys cyffredinol yn y ddwy Ddeddf ychydig yn wahanol. Yn benodol, nid yw'r diffiniad o "Gymru" yn y Ddeddf Ddehongli'n cynnwys y môr tiriogaethol tra bod y Ddeddf Deddfwriaeth yn ei gynnwys. Mae hyn yn golygu gwahanol oblygiadau ar gyfer gwahanol Rannau o'r Bil. Yn Rhan 2, rydym wedi hepgor darpariaethau o Ddeddf 1979 sy'n rhoi'r ystyr ehangach i "Gymru", gan nad oes eu hangen mewn Bil a fydd yn destun y Ddeddf Ddeddfwriaeth. Yn Rhan 3, rydym wedi ychwanegu darpariaeth i roi ystyr y Ddeddf Dehongli i "Gymru"; mae hyn yn cadw'r effaith o dawelwch yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 am ystyr "Cymru" (sy'n golygu bod diffiniad y Ddeddf Ddehongli'n berthnasol).

### *Y defnydd o 'hwylus' a 'priodol'*

34. Ein hagwedd yw na ddylid cynnwys cyfeiriadau at beth sy'n "hwylus" neu'n "briodol" oni bai fod hynny'n angenrheidiol. Mae hyn yn adlewyrchu'n dull cyffredinol o hepgor geiriad diangen. I'r gwrthwyneb, wrth gwrs, ni ddylid hepgor geiriad pan *mae'n* angenrheidiol.

35. Pan fydd darpariaeth yn rhoi pŵer ar awdurdod cyhoeddus i wneud rhywbeth, fel arfer nid oes angen i'r awdurdod ystyried bod gwneud y peth hwnnw yn "hwylus" neu'n "briodol" gan fod y gyfraith eisoes yn gofyn i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd resymol. Mae'n bosib bod y sefyllfa honno yn llai clir pan gafodd rhai o ddarpariaethau'r Bil a ailddatganwyd eu deddfu am y tro cyntaf (amser maith yn ôl mewn rhai achosion), a gallai hyn esbonio pam roedd hyn yn cael ei wneud. Ond ni fyddai Bil modern yn cynnwys geiriad i ddweud bod rhaid i gorff cyhoeddus weithredu mewn ffordd resymol, ac mae'r cyfeiriadau sydd wedi'u hepgor o'r Bil yn rhai o'r math hwn yn bennaf.

36. Mae rhai cyfeiriadau at yr hyn mae awdurdod yn ei ystyried yn "briodol" wedi'u cadw yn y Bil. Dyma ble rydym yn credu bod y cyfeiriadau'n angenrheidiol gan na fyddai'r darpariaethau dan sylw yn gweithio, neu byddent yn aneglur, hebddynt. Ond rydym yn adolygu'r cyfeiriadau hyn a byddem yn fodlon edrych ar unrhyw rai y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried fel rhai diangen.

37. Pan mae'r Bil yn defnyddio'r gair "priodol", dylai'r cyfeiriadau berthyn i'r categorïau canlynol:

   a. Mae darpariaethau am ymgynghori neu hysbysu yn aml yn gofyn i Weinidogion hysbysu neu ymgynghori â phersonau penodedig ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol. Mae enghreifftiau o hyn yn adrannau 5(3), 78(2), 194(7) a 196(4) a pharagraff 3(5) o Atodlenni 4 a 5, a darpariaethau tebyg am bwy allai fod yn barti i gytundeb partneriaeth yn adrannau 25(2) a 113(2) a (4) o'r Bil. Byddai cyfeirio at "bersonau eraill" yn unig yn aneglur ac efallai y byddai'n cael effaith wahanol.

   b. Mae rhai darpariaethau'n galluogi neu'n gofyn i awdurdod cyhoeddus gymryd camau gweithredu y mae'n eu hystyried yn "briodol" at ddibenion penodol neu dalu sylw i ystyriaethau penodol. Mae'r cyfeiriadau at yr hyn mae'r awdurdod yn ei ystyried yn briodol yn datgan y cysylltiad rhwng y cam gweithredu a'r dibenion neu'r ystyriaethau'n glir. Mae enghreifftiau o hyn yn adrannau 35(1), 123(1) a 134(1) a pharagraff 2(7) o Atodlen 9.

   c. Mae rhai darpariaethau'n datgan y gall awdurdod cyhoeddus wneud unrhyw beth mae'n ei ystyried yn briodol, er mwyn ei gwneud yn glir bod y pŵer yn un eang iawn. Gall hyn fod yn bwysig pe bai'r cyd-destun yn awgrymu fel arall y gallai'r pŵer fod yn gulach. Mae enghraifft o hyn yn adran 184(6).

d. Mae rhai darpariaethau'n cyfeirio at yr hyn sy'n "briodol" am gymysgedd o resymau b. a c., h.y. i'w gwneud yn glir bod gan awdurdod cyhoeddus bŵer ehangach i wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol at ddiben penodol. Mae enghreifftiau o hyn yn 9(5), 42(3), 81(5), 135(3) a 143.

38. Efallai fod yna resymau eraill dros gynnwys y gair "priodol" mewn deddfwriaeth. Er enghraifft, mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn Ddeddf ddiweddar sy'n cynnwys y gair "priodol" mewn sawl lle. Cafodd rhai o'r cyfeiriadau hyn eu cynnwys am resymau nad ydynt yn berthnasol i'r Bil cyfredol:

a. Mae adrannau 12, 14, 16 a 51 o'r Ddeddf honno yn rhoi pwerau i gyrff addysg wneud gwahanol bethau os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny. Mae'r pwerau hyn yn ymddangos yn syth ar ôl pwerau i wneud pethau eraill dim ond os yw'r cyrff yn ystyried bod angen gwneud hynny. Mae angen y cyfeiriadau at beth sy'n "briodol" yn y cyd-destunau hyn i'w gwneud yn glir nad y prawf yw'r peth angenrheidiol.

b. Mae adrannau 33(4), 45(5) a 46(3) yn rhoi pwerau i gorff gyfeirio person arall i gymryd y cam gweithredu y mae'n ei ystyried yn briodol. Mae'r geiriad wedi'i gynnwys i'w gwneud yn glir mai'r corff sy'n rhoi'r cyfarwyddyd sy'n penderfynu pa gam gweithredu sy'n briodol i'w gymryd.

***Ymgysylltu â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM***

39. Mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn y gweithdrefnau cytunedig i sicrhau bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol o'r Bil. Cyflwynwyd ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd wedi cadarnhau na fydd y Bil yn cael unrhyw effaith neu effaith fach iawn ar y system gyfiawnder. Yn ogystal, cyflwynwyd gwybodaeth i'r Arglwydd Brif Ustus ac ni nodwyd unrhyw faterion a fydd yn effeithio ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM na'r Coleg Barnwrol.

***Deddf Adolygiad Barnwrol a Llysoedd 2022***

40. Daeth Adran 13 o Ddeddf Adolygiad Barnwrol a Llysoedd 2022 i rym yn llawn ar 13 Gorffennaf 2022 drwy reoliad 3 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (Rhif Cychwyn 34) a Rheoliadau Deddf Adolygiad Barnwrol a Llysoedd 2022 (Rhif Cychwyn 1) 2022 (OS 2022/816).

41. Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw newidiadau i bwerau dedfrydu Llysoedd Ynadon ond mae'n cynnwys newidiadau gwirioneddol a darpar newidiadau i'r cosbau am droseddau amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu gwneud gan ddeddfwriaeth arall. Yr unig newid i bŵer dedfrydu a wnaed gan y Bil yw yn adran 198, sy'n hepgor y pŵer i gyflwyno dedfryd o garchar ar euogfarn ar dditiad sy'n cael ei ddarparu gan adran 330(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd. (Gweler y cofnod ar gyfer adran 198 yn Nodiadau'r Drafftwyr).

***Diweddaru TAN24***

42. Fel rhan o'r cam gweithredu a ragwelir mewn perthynas â'r Bil, bydd canllawiau a chyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys Nodyn Cyngor Technegol 24, yn cael eu diweddaru. Newidiadau i'r testun fydd y rhain i ddiweddaru'r cyfeiriadau at deitl y ddeddfwriaeth neu rifau adrannau – bydd y cyngor polisi yn y dogfennau yn aros yr un fath.

43. Mae Atodlen 14 i'r Bil yn gwneud darpariaethau trosiannol, fel bod unrhyw gyfeiriad at ddarpariaeth neu ddeddf a ddiddymwyd yn cael ei ddarllen fel cyfeiriad at y ddarpariaeth gyfatebol yn y Bil.

44. Fel rwy'n ei nodi uchod, byddaf yn diweddaru'r Senedd yn ddiweddarach eleni ar y cynnydd o dan raglen hygyrchedd y Llywodraeth, yn cynnwys mewn perthynas â Cyfraith Cymru. Ond rwy'n gobeithio bod fy sylwadau cynharach ar fwriadau cyhoeddi'r Codau ar y wefan honno yn nodi sut y bydd canllawiau'n cael eu cynnwys.

***Costau sy'n gysylltiedig â gweithredu***

45. Rwy'n nodi eich sylwadau ar ddeddfwriaeth arall, ond mae'n rhaid i ni fod yn glir nad yw'r ffaith nad yw deddfwriaeth arall yn destun costau ar yr un lefel â'r Bil hwn yn golygu bod y costau hyn yn sylweddol neu'n ddiffygiol o ran cywirdeb neu gadernid. I gyfrifo costau'r Bil hwn, cafodd y rhannau o'r sector amgylchedd hanesyddol a fyddai'n cael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth newydd eu nodi gan Cadw, ac ystyriwyd hefyd y gwaith a fyddai'n angenrheidiol. Roedd y rhain yn sail i amcangyfrifon costau seiliedig ar wybodaeth, a oedd hefyd yn ystyried cymariaethau â deddfwriaeth ddiweddar a graddau cyflogau'r gwasanaeth sifil.

46. Roedd mwyafrif llethol y costau a nodwyd yn gostau staff a oedd yn gysylltiedig â diweddaru gwefannau, canllawiau a ffurflenni fel eu bod yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth gywir. Bydd angen amser ar staff i ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd hefyd. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, costau 'cyfle' yw'r rhain nid costau 'gwirioneddol' – ychydig iawn o gostau gwirioneddol (wedi'u nodi yn y Memorandwm Esboniadol) a nodwyd.

47. Er fy mod yn deall pam mae'r Pwyllgor yn gofyn am esboniad ar unrhyw fater a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, dylwn ddatgan yn glir nad yw'r Llywodraeth yn bwriadu cwblhau'r asesiadau effaith rheoleiddiol llawn mewn perthynas â Biliau cydgrynhoi fel rydym ni'n ei wneud ar gyfer Biliau diwygio'r gyfraith, lle bo'n berthnasol. Yn unol â Rheolau Sefydlog, mae gofyn i'r Llywodraeth nodi'r amcangyfrifon gorau ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol. Wrth ddatblygu'r rhain, pe bai'n ystyried y byddai'r costau'n sylweddol, byddai hyn yn awgrymu na allai'r cynigion barhau fel Bil cydgrynhoi ac y dylai'r llywodraeth ystyried a yw am fwrw ymlaen ai peidio drwy gyflwyno Bil diwygio. A byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei gynnal ar y pwynt hwn.

48. Ond ar y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor, gallaf gadarnhau:

*a) Costau i Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol*

Mae'r amcangyfrif o amser yn adlewyrchu'r gwaith a ragwelir er mwyn diweddaru gwefannau a deunyddiau eraill i gynnwys cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth newydd a sicrhau bod staff allweddol yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth. Ni fydd llawer o'r wybodaeth y bydd awdurdodau lleol yn ei darparu yn newid gan y bydd effaith y gyfraith yn parhau i fod yr un fath. Gallant wirio, er enghraifft, ddolenni sy'n mynd â'r darllenydd i wefan Cadw i sicrhau eu bod yn gywir, yn ogystal ag i ddiweddaru cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth gywir. Mae'n debyg y bydd hyn yn cael ei wneud am gost debyg gan staff mewn graddau tebyg i Lywodraeth Cymru ac mae'r costau wedi'u hamcangyfrif ar y sail hon. Er na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol, mae trafodaethau gydag awdurdodau cynllunio ar effaith y Bil a beth fydd angen ei wneud cyn iddo ddechrau, wedi llywio'n hamcangyfrifon costau.

*b) Costau i dirfeddianwyr ac unigolion preifat*

Ni fydd unrhyw gostau i dirfeddianwyr nac unigolion preifat gan nad oes unrhyw newid i effaith y gyfraith.

*c) Costau i gyrff trydydd sector a chymdeithasau amwynder*

Mae'n anodd mesur hyn gan y bydd rhai sefydliadau'n cynnwys dolenni ar eu gwefan sy'n cyfeirio'r darllenydd i'r ddeddfwriaeth berthnasol neu ddeunydd cysylltiedig a fydd yn cymryd ychydig funudau i'w ddiweddaru. Mae sefydliadau eraill yn cynnwys testun mwy esboniadol a bydd angen i hwnnw adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd felly gallai hynny gymryd mwy o amser i'w ddiweddaru. Nid yw'n bosibl pennu cost ar yr amser y gallai hyn ei gymryd gan y bydd gan bob sefydliad wahanol lefelau tâl.

*d) Gweithdai ymgyfarwyddo ar gyfer swyddogion troseddau treftadaeth*

Er bod gan awdurdodau heddlu eu mecanweithiau eu hunain ar gyfer nodi deddfwriaeth newydd, mae rhwydwaith o swyddogion yn bodoli sy'n ymdrin â throseddau treftadaeth yn benodol. Mae gan Gymru bedwar swyddog cyswllt troseddau treftadaeth, un ar gyfer pob llu, gydag un ohonynt yn bwynt cyswllt unigol cyffredinol sy'n arwain ar droseddau treftadaeth yng Nghymru. Bydd y sesiwn ymgyfarwyddo yn cael ei chynnal fel rhan o gyfarfodydd rheolaidd Cadw â'r swyddogion cyswllt troseddau treftadaeth. Mae'r costau a nodwyd yn cynnwys costau Cadw, costau cyfleoedd ar gyfer amser y swyddogion cyswllt troseddau treftadaeth i fynychu'r sesiwn ac unrhyw amser sydd ei angen i ddiweddaru unrhyw lawlyfrau neu gyfarwyddiadau desg.

*e) Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru*

Mae Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru'n gyfrifol am Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru. 'Archwilio' yw'r system fynediad ar-lein i'r cofnodion hyn ac mae'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer Cymru gyfan; bydd gofyn diweddaru rhywfaint i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd. Mae Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru hefyd yn cyflawni rôl allweddol o ran rheoli a hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol ac rydym yn disgwyl iddynt ddarparu cymorth gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth newydd ac is-ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig. Yn ogystal, bydd angen iddynt sicrhau bod eu gwefannau'n cynnwys y wybodaeth ddiwygiedig gywir.

Bydd y prif gostau ar gyfer y Comisiwn Brenhinol yn gysylltiedig â chael staff i ymgyfarwyddo â'r Bil. Bydd angen i'r Comisiwn adolygu ei wefannau a chronfeydd data hefyd i nodi newidiadau a allai fod yn ofynnol i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd.

Nid ydym wedi cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y costau amcangyfrifiedig, ond mae trafodaethau ag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a'r Comisiwn Brenhinol yn awgrymu y bydd y gwaith hwn yn gofyn am isafswm o weithgarwch gan y ddau, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn yr amcangyfrifon costau.

Edrychaf ymlaen at drafodaethau pellach y Pwyllgor ar y Bil, ac rwy'n hapus i gadarnhau y byddaf yn dychwelyd i ddarparu rhagor o dystiolaeth ar 14 Tachwedd.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
–
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

19 Gorffennaf 2022

Annwyl Mick

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), 11 Gorffennaf 2022

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 11 Gorffennaf a rhoi tystiolaeth ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (y Bil). Roedd ein trafodaethau ar y Bil cydgrynhoi cyntaf hwn yn gynhyrchiol a bydd yn helpu ein hystyriaeth ddilynol o'r Bil.

Mae nifer o faterion yr hoffem eu trafod ymhellach. Mae rhai materion hefyd na chawsom y cyfle i'w codi yn ystod y cyfarfod.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymatebion i'r cwestiynau yn yr Atodiad erbyn 17 Awst 2022 (mae cyfeiriadau at Gofnod y Trafodion ar gyfer y sesiwn dystiolaeth wedi'u darparu lle bo angen).

Rydym hefyd wedi bod yn ystyried y ffordd orau y gallwn, yn ystod ein hystyriaeth o'r Bil, godi unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud yn benodol ag arddull drafftio a nodiadau'r Drafftwyr sy'n cyd-fynd â'r Bil. Gofynnais ichi yn ystod ein cyfarfod a fyddech chi a'r drafftwyr yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn fodlon i'r drafftwyr eu hunain siarad â ni pe bai angen. Fel y dywedais yn y cyfarfod, byddem, wrth gwrs, yn parchu ffiniau'r hyn sy'n briodol i'w ofyn gan swyddogion y llywodraeth. Hoffwn ddiolch ichi eto am eich ymateb cadarnhaol. Bydd y Clercod yn cysylltu â'r drafftwyr i nodi dyddiad ac amser addas, os bydd angen.

A gaf i hefyd achub ar y cyfle i'ch gwahodd yn ffurfiol i'n cyfarfod ddydd Llun 14 Tachwedd (pm).

Bydd hwn yn gyfle inni drafod y materion sydd wedi codi gyda chi yn ystod ein hystyriaeth lawn o'r Bil, gan gynnwys unrhyw fater y mae'r rhanddeiliaid yn ei godi gyda ni.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

## Atodiad

1. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth gwnaethom ofyn ichi a oedd penderfyniadau wedi'u gwneud i eithrio deddfwriaeth berthnasol o'r ymarfer cydgrynhoi ac a oedd unrhyw eithriadau o'r fath oherwydd pryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol (Cofnod y Trafodion, paragraffau 14-22). Darparwyd rhai enghreifftiau gennych chi a'ch swyddogion - sef *Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973*, *Deddf Eglwysi ac Adeiladau Crefyddol Eraill Diangen 1969*, *Deddf Diogelu Gweddillion Milwrol 1986*, a *Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979*. Fel y trafodwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe baech yn darparu manylion ynghylch y rhesymau llawn pam y mae darpariaethau yn y Deddfau hyn wedi'u heithrio o'r ymarfer cydgrynhoi, ynghyd â manylion am unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall sydd wedi'i heithrio'n fwriadol o'r fersiwn o'r Bil a gyflwynwyd i'r Senedd.
2. Yn ystod y sesiwn, gofynnwyd ichi hefyd beth fyddai'n digwydd pe bai Llywodraeth y DU yn deddfu mewn maes cyfreithiol datganoledig sydd wedi'i gydgrynhoi. Awgrymwyd inni y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Lywodraeth y DU ddiwygio'r gyfraith a'i wneud yn ddwyieithog (Cofnod y Trafodion, paragraffau 73-81). Awgrymwyd hefyd y gallai'r sefyllfa hon fod yn anodd lle mae Llywodraeth y DU yn paratoi deddf sy'n berthnasol i'r DU gyfan, er enghraifft, ar fater penodol ond nad yw Llywodraeth Cymru yn "gweld bod hynny'n debygol o ddigwydd." (Cofnod y Trafodion, paragraff 81). Byddwch yn gwybod bod sawl enghraifft wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf lle mae Llywodraeth y DU wedi ceisio deddfu ar sail y DU gyfan, gyda neu heb fewnbwn Llywodraeth Cymru neu gydsyniad y Senedd. O'r herwydd, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried y mater hwn ymhellach ac yn cadarnhau'r canlynol:

- a yw trafodaethau eisoes wedi dechrau gyda chymheiriaid perthnasol yn Llywodraeth y DU ynghylch rhaglen cydgrynhoi'r gyfraith Llywodraeth Cymru – a'r Bil hwn yn benodol – a disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd unrhyw gyfraith a gynigir gan Lywodraeth y DU mewn maes sydd wedi bod (neu sy'n cael ei gydgrynhoi) yn cael ei wneud yn ddwyieithog ac y bydd unrhyw welliannau gofynnol yn cael eu gwneud i gyfraith Cymru fel y'i cydgrynhoir;
- sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai sicrhau bod unrhyw welliannau a gynigir gan Lywodraeth y DU i gyfraith Cymru sydd wedi'u cydgrynhoi yn cael eu gwneud mewn ffordd a fydd yn diogelu'r cydgrynhoi;
- a fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw effeithiau ar gydgrynhoi cyfraith Cymru mewn unrhyw drafodaeth a gaiff â Llywodraeth y DU ar ddarn perthnasol o ddeddfwriaeth a sut y byddai'n tynnu sylw'r Senedd at unrhyw effeithiau posibl o'r fath?

3. Gwnaethom hefyd ofyn a fyddech yn darparu rhagor o fanylion am eich cynlluniau ar gyfer cod cyfraith Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol a nodwyd gennych y bydd y cod yn cynnwys y Ddeddf (os a phryd y caiff y Bil ei basio ac yna ei roi ar waith) ac unrhyw is-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth drydyddol oddi tano (Cofnod y Trafodion, paragraffau 92-95). A allwch gadarnhau ein dealltwriaeth o'r canlynol:

- i bob pwrpas, bydd 'codau cyfraith Cymru' yn storfeydd cyfraith sy'n dechrau gyda'r un darn o ddeddfwriaeth sylfaenol sydd wedi'i chydgrynhoi, ac o fewn y storfa bydd unrhyw ddeddfwriaeth ddirprwyedig a wneir o ganlyniad i'r brif ddeddfwriaeth sylfaenol, ynghyd â'r holl ganllawiau perthnasol;
- yn ymarferol, bydd gwelliannau yn y dyfodol, i bob pwrpas, yn cael eu gwneud i gyfraith benodol o fewn cod.

4. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r Archifau Gwladol ynghylch arddull deddfwriaeth fel codau ar legislation.gov.uk a'r angen i'w diweddaru'n gyflym?
5. Gwnaethom ofyn ichi ddarparu rhagor o fanylion am eich ffordd o feddwl o ran newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd er mwyn sicrhau bod Biliau a gwelliannau yn y dyfodol yn cael eu gwneud o fewn cod cyfraith Cymru. Gwnaethoch gadarnhau y byddai newidiadau o'r fath yn effeithio ar gynigion preifat Aelodau i gyflwyno Biliau i'r Senedd (Cofnod y Trafodion, paragraffau 96-98). O'r herwydd, gwnaethom ofyn a oeddech wedi ystyried ymgynghori'n uniongyrchol ag Aelodau'r meinciau cefn o'r Senedd a Grwpiau'r Pleidiau ynghylch eich cynigion, yn ogystal ag unrhyw waith casglu tystiolaeth y gallai'r Pwyllgor Busnes ei wneud ei hun. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn rhoi eglurhad a chadarnhad o'ch bwriadau ar y mater hwn.
6. A oes unrhyw bwerau newydd wedi'u cynnwys yn y Bil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud newidiadau polisi?
7. Mae adran 209 o'r Bil yn ymwneud â rheoliadau y caniateir eu gwneud o dan y Bil, ar ôl ei ddeddfu. Mae adran 209(6) yn darparu ar gyfer israddio gweithdrefnau craffu – o gadarnhaol i negyddol - ar gyfer rheoliadau penodol sy'n ymwneud â chytundebau partneriaeth. A allwch egluro sut, yn eich barn chi, y mae hyn yn cyd-fynd â Rheol Sefydlog 26C.2(iv)?
8. A allwch egluro beth fu effaith ***Deddf Dehongli 1978*** a ***Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*** - y mae'r ddau yn berthnasol i gyfraith Cymru - ar y Bil?
9. Mae newidiadau wedi'u gwneud drwy'r Bil i gyd o ran lle mae Deddfau presennol yn defnyddio'r geiriau "expedient" ac "appropriate", ac mae'r rhan fwyaf o'r cyfeiriadau at yr hyn sy'n "expedient" neu'n "appropriate" wedi'u hepgor o'r Bil. Yn Nodiadau'r Drafftwyr dywedir wrthym fod gan y ddau air yr un effaith, ac yn y rhan fwyaf o achosion nad ydynt yn ychwanegu dim at ofynion cyffredinol cyfraith weinyddol i awdurdodau cyhoeddus weithredu'n rhesymol. Rydym yn ymwybodol bod Biliau diwygio'r gyfraith diweddar a

gyflwynwyd i'r Senedd yn cynnwys y geiriau hyn. A allwch felly gynnig mwy o eglurder ac eglurhad ar y mater hwn.

10. Rydych wedi cydnabod y bydd angen i Wasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wneud gwaith i ddiweddaru eu systemau i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd. Pa drafodaethau a gawsoch gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac a yw'n cytuno y bydd newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud fel rhan o'r busnes arferol?
11. Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i bwerau dedfrydu Llysoedd Ynadon. Yn Nodiadau'r Drafftwyr sy'n cyd-fynd â'r Bil rydych yn tynnu sylw at y ffaith bod adran 13 o'r *Adolygiad Barnwrol a Deddf Llysoedd 2022* yn diwygio ymhellach *Ddeddf Dedfrydu 2022* fel y gall yr Arglwydd Ganghellor newid y 'terfyn cymwys' o 12 mis i 6 mis ac yn ôl eto. Rydych yn nodi bod y cosbau am droseddau neillffordd wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r newidiadau hyn ar y ddealltwriaeth y bydd adran 13 yn dod i rym cyn y Bil hwn. Beth yw eich dealltwriaeth o ran pryd y daw adran 13 o'r Ddeddf honno i rym? Pa effaith a fydd ar y Bil os na fydd adran 13 mewn grym cyn y Bil hwn, a pha gamau y bydd angen ichi eu cymryd?
12. Yn y Memorandwm Esboniadol rydych yn nodi bod amrywiaeth o gyngor a chanllawiau yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys **Nodyn Cyngor Technegol 24**.

- A oes cynlluniau i ddiweddaru'r canllawiau hyn o ganlyniad i'r Bil hwn?
- Pa gynnydd sydd wedi'i wneud gyda gwefan Cyfraith Cymru?

13. Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd ystyried na chytuno ar benderfyniad ariannol ar gyfer Biliau cydgrynhoi. Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau trosiannol ar gyfer y Bil yw tua £50,000, i'w lledaenu dros gyfnod gweithredu o dair blynedd. Mae'r ffigur hwnnw'n uwch na'r amcangyfrifon cost ar gyfer Biliau diwygio'r gyfraith eraill a gyflwynwyd i'r Senedd lle'r oedd angen penderfyniad ariannol, er enghraifft Bil Indemniadau'r GIG (Cymru), lle'r oedd y costau amcangyfrifedig yn £30,000. Mae'n bwysig bod yr amcangyfrifon cost yn gywir, yn gadarn ac yn gyfiawnadwy. A allwch egluro sut y cyfrifwyd costau'r Bil, a darparu manylion am y costau trosiannol penodol dan sylw?
14. Mae paragraff 43 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r costau amcangyfrifedig fesul awdurdod lleol neu awdurdod Parc Cenedlaethol fydd tua £17,500, tua phedwar diwrnod o waith fesul awdurdod. Ar ba sail yr ydych wedi amcangyfrif y bydd yn bedwar diwrnod o waith i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol roi'r ddeddfwriaeth ar waith ac a ymgynghorwyd â'r awdurdodau ynghylch yr amcangyfrifon o'r costau posibl?
15. A allwch egluro na fydd unrhyw gostau i berchnogion tir nac unigolion preifat?
16. Mae paragraff 44 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y costau ar gyfer cyrff y trydydd sector a chymdeithasau amwynder yn fach iawn ac yn ôl pob tebyg tua un person am un diwrnod ond ni ddarperir unrhyw gostau gwirioneddol. A allwch egluro pam?

17. A allwch egluro a yw'r gost o £1,400 a amcangyfrifwyd ar gyfer cynnal gweithdai ymgyfarwyddo ar gyfer swyddogion troseddau treftadaeth yn cynnwys y costau i Cadw a'r costau i heddluoedd?
18. Mae paragraffau 50 a 52 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r costau ar gyfer Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Ar ba sail y cyfrifwyd y costau hyn ac a ymgynghorwyd â'r Ymddiriedolaethau a'r Comisiwn Brenhinol ar y costau hyn?

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JMEWL/2166/22

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

19 Gorffennaf 2022

Annwyl Lywydd,

Cyflwynwyd y Bil Ysgolion ("y Bil") yn Senedd y DU (Tŷ'r Arglwyddi) ar 11 Mai 2022.

Mae'r Bil yn cynnwys ystod o fesurau ar faterion megis cyllid ysgolion, rheoleiddio sefydliadau addysgol annibynnol, camymddygiad athrawon, presenoldeb, gweithredu cofrestr a system gefnogaeth i blant nad ydynt yn yr ysgol, a strwythur a system reoleiddio ymddiriedolaethau academïau.

Mae fy swyddogion innau wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion Adran Addysg Llywodraeth y DU ers mis Medi diwethaf i drafod y cynlluniau sydd gan y naill wlad a'r llall ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, materion traws-awdurdodaethol posibl a'r heriau amrywiol sy'n ein hwynebu i gyd mewn perthynas â'r polisi hwn. Bu fy swyddogion yn archwilio'r posibilrwydd o gydweithredu ar orchmynion presenoldeb mewn ysgolion a rhannu data ynghylch addysg ddewisol yn y cartref rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Ni chytunwyd y dylid cynnwys darpariaeth yn ymwneud â Chymru mewn unrhyw agwedd ar y Bil, ac felly nodwyd wrth ei gyflwyno mai dim ond ar Loegr y byddai'n effeithio. Am y rheswm hwnnw, roedd Llywodraeth y DU o'r farn nad oedd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil, fel y'i gosodwyd.

Fodd bynnag, ar 30 Mai cyflwynwyd gwelliant - "gwelliant 96" - gan y Farwnes Barran i'w ystyried yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, a ddechreuodd ar 8 Mehefin ac a ddaeth i ben ar 27 Mehefin. Mae'r gwelliant yn ymwneud ag adran 494 o Ddeddf Addysg 1996, a bydd yn ymestyn y darpariaethau digolledu rhwng awdurdodau ar gyfer disgyblion a waherddir, a nodir yn adran 494 o Ddeddf Addysg 1996, i gwmpasu academïau. Cytunwyd ar y gwelliant ar 20 Mehefin ac mae wedi'i ymgorffori yn y Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi yn Atodlen 3, paragraff 1. Mae'r gwelliant yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil 7 Gorffennaf 2022, felly, ymddiheuraf ei fod wedi'i osod yn hwyrach na therfyn amser Rheol Sefydlog 29 o bythefnos. Mae hyn yn rhannol oherwydd methiant Llywodraeth y DU i hysbysu Llywodraeth Cymru bod y gwelliant wedi'i gyflwyno.

Rydym yn parhau i ystyried goblygiadau'r Bil yng nghyd-destun datganoli wrth iddo fynd rhagddo, i sicrhau nad oes dim pellach sy'n ei gwneud yn ofynnol dilyn proses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Unwaith y bydd y dadansoddiad o'r cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â gweddill y Bil wedi'i gwblhau, ysgrifennaf eto os byddaf yn bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pellach.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS a Chadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Jayne Bryant AS.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: RE/741/22

Huw Irranca-Davies AS/MS,
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

22 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU**

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU (y Bil). Rwyf wedi ymateb i'ch cwestiynau yn eu tro fel y nodir isod.

**1. Ar 13 Mai 2022, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ysgrifenedig ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Yn y datganiad hwnnw, dywedodd: "Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 23 Mawrth, rwyf wedi fy nghalonogi gan y ffaith y cafwyd ymgysylltu cadarnhaol rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar nifer o Filiau yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU." Mae Bil Banc Seilwaith y DU yn un o'r 12 o Filiau y tynnir sylw atynt yn y datganiad. A allwch chi gadarnhau bod y Bil wedi bod yn destun trafodaethau rynglywodraethol cyn cael ei gyflwyno yn Senedd y DU?**

Gallaf gadarnhau bod y Bil yn destun trafodaeth rynglywodraethol cyn iddo gael ei gyflwyno yn Senedd y DU.

Cynhaliwyd deialog rhwng swyddogion Trysorlys ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru drwy gydol y llynedd, cyn ac ar ôl sefydlu'r Banc. Cyfarfûm â Chadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol y Banc yn fuan ar ôl iddynt gael eu penodi ym mis Hydref 2021 i drafod nodau ac amcanion y Banc, a'i berthynas â Chymru a Llywodraeth Cymru.

Parhaodd yr ymgysylltu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Thrysorlys ei Mawrhydi yn 2022 gan fod y Bil wedi'i gynnig i roi'r Banc ar sail statudol.

Yn ystod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 15 Mehefin, mynegais gefnogaeth, mewn egwyddor, i greu Banc Seilwaith y DU. Fodd bynnag, nodais hefyd y byddem wedi hoffi gweld Banc ag iddo gylch gwaith ehangach oherwydd, gan ystyried pa mor gul yw cwmpas Banc Seilwaith y DU, ni ellid ei ystyried yn olynydd gwirioneddol i Fanc Buddsoddi Ewrop. At hynny, codais y ffaith bod pwerau yn cael eu cadw yn ôl yn y Bil ar gyfer Canghellor a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Thrysorlys ei Mawrhydi a dywedais yr hoffai Llywodraeth Cymru weld gwelliannau i'r Bil, fel bod pwerau cyfwerth ar draws gweinyddiaethau'r DU, cyn argymell bod y Senedd yn cydsynio i basio'r Bil.

Er bod swyddogion yn parhau i ymgysylltu â’i gilydd mewn modd cymharol adeiladol, hyd yma, nid yw'r Bil wedi mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan fy swyddogion i mewn perthynas â llywodraethiant y Banc.

**2. A rannodd Llywodraeth y DU y Bil â Llywodraeth Cymru ar ffurf drafft? Os felly, pryd?**

Rhannodd Llywodraeth y DU y Bil ar ffurf ddrafft gyda ni ar 14 Ebrill 2022 cyn cyflwyno'r Bil a'r Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022. Cododd fy swyddogion ein pryderon cyffredinol ynglŷn â’r Bil gyda Llywodraeth y DU yn fuan ar ôl i'r Bil gael ei rannu â ni.

**3. Os na wnaeth Llywodraeth y DU rannu’r Bil â chi ar ffurf drafft, o ystyried bod Banc Seilwaith y DU wedi bod yn gweithredu ar sail anstatudol ers mis Mehefin 2021, ac o ystyried y wybodaeth yr oedd Llywodraeth Cymru wedi’i chael gan Lywodraeth y DU ynghylch ei rhaglen ddeddfwriaethol, a wnaeth Llywodraeth Cymru fynd ati’n rhagweithiol i geisio dylanwadu’n uniongyrchol ar y broses o ddrafftio’r Bil?**

Fel yr amlinellwyd yn fy ymateb i gwestiynau 1 a 2, rhannodd Llywodraeth y DU y Bil gyda ni ar ffurf ddrafft a gwnaethom geisio dylanwadu'n uniongyrchol ar y modd y drafftiwyd y Bil.

**4. Yn y memorandwm, rydych yn datgan eich bod wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys “i'w annog i ddiwygio'r Bil er mwyn galluogi'r Senedd a Gweinidogion Cymru i gymryd eu rôl briodol o fewn strwythurau llywodraethiant i sicrhau atebolrwydd democrataidd priodol.” Pa welliannau penodol i'r Bil yr ydych wedi gofyn amdanynt?**

Nid yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu unrhyw rôl i'r Senedd, Gweinidogion Cymru, na swyddogion Llywodraeth Cymru o ran llywodraethiant y Banc. Er hynny, mae gweithgareddau penodol yn cael eu cadw’n ôl ar gyfer Senedd y DU, Canghellor a Thrysorlys ei Mawrhydi, megis y pŵer i Drysorlys ei Mawrhydi ddiwygio cyfeiriad strategol y Banc, gan gynnwys mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli, heb ymgynghori â'r Senedd na Llywodraeth Cymru.

Rydym yn parhau i ddadlau y dylai Senedd a Llywodraeth Cymru, ill dwy, arfer pwerau sy’n gyfwerth â phwerau’r sefydliadau cyfatebol ar lefel y DU. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn bod yn gyson ag egwyddorion Cabinet Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u rhannu â chi eisoes, hy “Rhaid i Lywodraeth Cymru fod â statws cyfartal i Lywodraeth y DU o ran llywodraethu cyrff trawsffiniol sydd â swyddogaethau datganoledig a sefydlir ym Miliau’r DU.”

Credwn y dylid bod cyfwerthedd rhwng deddfwrfeydd a llywodraethau'r DU o ran llywodraethiant y Banc fel bod ganddynt, er enghraifft, rolau cyfwerth i'w chwarae wrth bennu Cynlluniau a Blaenoriaethau Strategol y Banc. Byddai hyn yn golygu bod modd mireinio amcanion y Banc a gellid ailystyried blaenoriaethau a chynlluniau pan fo angen gan hefyd barchu cymwyseddau datganoledig yn llawn.

Bydd manylion penodol y gwelliannau yn destun trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am ganlyniad y trafodaethau hynny fel y bo'n briodol maes o law.

**5. Gellir newid cwmpas gweithgarwch y Banc, gan gynnwys y diffiniad o “seilwaith”, drwy bwerau dirprwyedig a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol**

**yn Senedd y DU. Ym mharagraff 49 o'r memorandwm, rydych yn datgan eich bod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Economaidd i'r Trysorlys "i ddadlau bod y Senedd, Gweinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru i gyd yn arfer pwerau cyfatebol i bwerau ein cymheiriaid yn y DU".**

**i) A ydych wedi gofyn am welliannau i'r Bil a fyddai'n rhoi pwerau deddfwriaethol dirprwyedig uniongyrchol cyfatebol i Weinidogion Cymru, gan olygu y byddai'r Senedd yn gyfrifol am graffu ar y broses o arfer y pwerau hynny?**

**ii) A ydych wedi gofyn am welliannau i'r Bil a fyddai'n rhoi rôl ymgynghorol i Weinidogion Cymru cyn i Weinidogion y DU arfer eu pwerau dirprwyedig, sy'n golygu na fyddai rôl i'r Senedd o ran craffu ar y broses o arfer y pwerau hynny?**

Rydym yn parhau i ddadlau y dylai Senedd a Llywodraeth Cymru, ill dwy, arfer pwerau sy'n gyfwerth â phwerau'r sefydliadau cyfatebol ar lefel y DU. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn bod yn gyson ag egwyddorion Cabinet Llywodraeth Cymru. Felly, rydym yn ceisio consesiynau i'r Bil sy'n adlewyrchu'r egwyddorion hyn.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

8 Gorffennaf 2022

Annwyl Rebecca,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Banc Seilwaith y DU

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd gennym ddydd Llun 4 Gorffennaf 2022, gwnaethom drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU (y Bil).

I gynorthwyo gwaith craffu'r Pwyllgor ac i lywio ein hadroddiad ar y memorandwm, mae nifer o faterion yr ydym yn dymuno eu codi gyda chi. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'n cwestiynau erbyn 5 Awst.

1. Ar 13 Mai 2022, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ysgrifenedig ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Yn y datganiad hwnnw, dywedodd: "Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 23 Mawrth, rwyf wedi fy nghalonogi gan y ffaith y cafwyd ymgysylltu cadarnhaol rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar nifer o Filiau yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU." Mae Bil Banc Seilwaith y DU yn un o'r 12 o Filiau y tynnir sylw atynt yn y datganiad. A allwch chi gadarnhau bod y Bil wedi bod yn destun trafodaethau rynglywodraethol cyn cael ei gyflwyno yn Senedd y DU?

2. A rannodd Llywodraeth y DU y Bil â Llywodraeth Cymru ar ffurf drafft? Os felly, pryd?

3. Os na wnaeth Llywodraeth y DU rannu'r Bil â chi ar ffurf drafft, o ystyried bod Banc Seilwaith y DU wedi bod yn gweithredu ar sail anstatudol ers mis Mehefin 2021, ac o ystyried y wybodaeth yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i chael gan Lywodraeth y DU ynghylch ei rhaglen ddeddfwriaethol, a wnaeth Llywodraeth Cymru fynd ati'n rhagweithiol i geisio dylanwadu'n uniongyrchol ar y broses o ddrafftio'r Bil?



Senedd Cymru
Welsh Parliament

4. Yn y memorandwm, rydych yn datgan eich bod wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys "i'w annog i ddiwygio'r Bil er mwyn galluogi'r Senedd a Gweinidogion Cymru i gymryd eu rôl briodol o fewn strwythurau llywodraethiant i sicrhau atebolrwydd democrataidd priodol." Pa welliannau penodol i'r Bil yr ydych wedi gofyn amdanynt?

5. Gellir newid cwmpas gweithgarwch y Banc, gan gynnwys y diffiniad o "seilwaith", drwy bwerau dirprwyedig a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol yn Senedd y DU. Ym mharagraff 49 o'r memorandwm, rydych yn datgan eich bod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Economaidd i'r Trysorlys "i ddadlau bod y Senedd, Gweinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru i gyd yn arfer pwerau cyfatebol i bwerau ein cymheiriaid yn y DU".

i. A ydych wedi gofyn am welliannau i'r Bil a fyddai'n rhoi pwerau deddfwriaethol dirprwyedig uniongyrchol cyfatebol i Weinidogion Cymru, gan olygu y byddai'r Senedd yn gyfrifol am graffu ar y broses o arfer y pwerau hynny?

ii. A ydych wedi gofyn am welliannau i'r Bil a fyddai'n rhoi rôl ymgynghorol i Weinidogion Cymru cyn i Weinidogion y DU arfer eu pwerau dirprwyedig, sy'n golygu na fyddai rôl i'r Senedd o ran craffu ar y broses o arfer y pwerau hynny?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 18

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd CF99 1SN

E-bost: seneddljc@senedd.wales

22 Awst 2022

Annwyl Huw

Mae adran 18(2) o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (UKIMA) yn darparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ddiwygio cofnodion yn y tablau neu'r rhestrau o wasanaethau sydd wedi'u cynnwys gyda'r Ddeddf.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Rheoliadau Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Gwaharddiadau o Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Gwasanaethau) 2022 ("yr OS gwaharddiad") gan ddefnyddio pwerau o dan adran 18(2) o UKIMA. Yn unol ag adran 18(8) o UKIMA, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gofyn am ganiatâd Gweinidogion Cymru i wneud y gwaharddiad OS. Crynhoir effaith y rheoliadau hyn yn Atodiad A.

Rwy'n ymwybodol nad oedd y Senedd wedi cydsynio i wneud UKIMA ei hun. Mae'r Ddeddf, a orfodwyd ar Gymru gan Senedd y DU, i bob golwg yn cyfyngu ar allu'r Senedd i ddeddfu mewn materion sydd wedi'u datganoli. Mae hyn yn rhywbeth na allwn ei dderbyn yn ac rydym wedi nodi ein gwrthwynebiadau mewn her gyfreithiol.

Wrth gydsynio i'r OS gwaharddiad, nid yw ein safbwynt o ran UKIMA wedi newid. Nid ydym yn credu bod UKIMA yn cael yr effaith ar gymhwysedd y Senedd y mae'n honni ei gael. Fodd bynnag, gydag ymgyfreitha UKIMA rhwng llywodraethau Cymru a'r DU eto i ddod i ben, rydym yn cydnabod y gallai fod er ein lles i gydweithredu â'r broses o wahardd. Mae hyn heb ragfarn i'n safle yn yr ymgyfreitha. Ar y sail hon, rwyf wedi cydsynio i'r OS gwaharddiad.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS**
Gweinidog yr Economi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A**

**Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (Gwaharddiadau Gwasanaethau) 2022**

Effaith y Rheoliadau fyddai diwygio Atodlen 2 (Gwaharddiadau Gwasanaethau) i UKIMA. Byddai'r rheoliadau yn:

- Diwygio geiriad gwaharddiadau gwasanaethau cymdeithasol presennol i egluro'r cwmpas;

- Ychwanegu gwaharddiadau newydd i Ran 1 (cydnabyddiaeth gydfuddiannol) ar gyfer nwy, trydan, cyflenwi dŵr a gwasanaethau carthffosiaeth, gwasanaethau'r sector gwastraff, gwasanaethau dyfarnu cymwysterau a gwasanaethau rhwydwaith gwres; a

- Cael gwared ar waharddiadau presennol ar gyfer gwasanaethau ariannol, gwasanaethau post, gwasanaethau cyfathrebu electronig, gwasanaethau asiantaethau gwaith dros dro, a gwasanaethau archwilydd statudol o'u ceisiadau priodol yn Rhan 1 (cydnabyddiaeth gydfuddiannol) a Rhan 2 (heb wahaniaethu).

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Her gyfreithiol i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020** |
| **DYDDIAD** | **18 Awst 2022** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Rwyf wedi ymrwymo mewn datganiadau i'r Senedd, ymddangosiadau gerbron pwyllgorau a darnau o ohebiaeth, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Senedd am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i herio Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.

Yr wythnos ddiwethaf, gwrthododd y Goruchaf Lys ein cais am ganiatâd i apelio yn erbyn Gorchymyn y Llys Apêl bod ein hawliad am adolygiad barnwrol o'r Ddeddf yn gynamserol.

Rydym wedi ein siomi gan ddyfarniad y Llys. Fodd bynnag, wrth wneud yr hyn sydd, yn ei hanfod, ar y cam hwn, yn benderfyniad gweithdrefnol, nid yw'r Llys wedi gwrthod ein dadleuon o sylwedd ac mae wedi gadael y drws yn agored i'r mater hwn gael ei ystyried ar adeg briodol yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n glir yn ei gwrthwynebiad i Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Mae hwn yn ymosodiad na ellir ei gyfiawnhau ar ddatganoli ac ar hawl y Senedd i ddeddfu heb ymyrraeth mewn meysydd sydd wedi eu datganoli i Gymru. Byddwn yn awr yn ystyried sut y gallwn fwrw ymlaen orau â'n her i'r Ddeddf, er mwyn diogelu a mynnu hawl ddemocrataidd y sefydliad hwn i ddeddfu ar ran pobl Cymru.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon